# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifion Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Gorffennaf 2016

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Buckle**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilo@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(14:00–14:05)

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(14:05)

Eitem 3

## 3 Cyflwyniadau i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

(14:05–16:00) (Tudalennau 1 – 130)

PAC(5)-01-16 papur 1 – Papur am rolau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor


PAC(5)-01-16 papur 2 – Adroddiad Etifeddiaeth Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad

PAC(5)-01-16 papur 3 – Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

PAC(5)-01-16 papur 4 – Archwilydd Cyffredinol Cymru – Cynllun Blynyddol 2015-16

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru
Twitter: @SeneddArchwilio



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad

Mawrth 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cylch gwaith y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod gwaith craffu cywir a thrylwyr yn cael ei wneud ar wariant Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Ystyriodd y  Pwyllgor adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

# Aelodau'r Pwyllgor

| Aelod Pwyllgor | Plaid | Etholaeth neu Ranbarth |
|---|---|---|
| Darren Millar (Cadeirydd) | Ceidwadwyr Cymreig | Gorllewin Clwyd |
| Mohammad Asghar | Ceidwadwyr Cymreig | Dwyrain De Cymru |
| Jocelyn Davies | Plaid Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Mike Hedges | Llafur Cymru | Dwyrain Abertawe |
| Sandy Mewies | Llafur Cymru | Delyn |
| Julie Morgan | Llafur Cymru | Gogledd Caerdydd |
| Jenny Rathbone | Llafur Cymru | Canol Caerdydd |
| Aled Roberts | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Gogledd Cymru |

# Cynnwys

**Argymhellion ........ 1**

**Cyflwyniad ........ 5**

**Dulliau o weithio ........ 7**

Amserlen y Pwyllgor ........ 7

Ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain ........ 7

Cyfeirio materion at bwyllgorau eraill ........ 8

Craffu ar gyfrifon ........ 9

Adroddiad blynyddol y Pwyllgor ........ 10

Ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain ........ 11

Casgliad ........ 15

**Ymchwiliadau a gynhaliwyd ........ 16**

Materion trawsbynciol ........ 17

Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ........ 19

Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ........ 23

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ........ 26

**Deddfwriaeth a drafodwyd gan y Pwyllgor ........ 33**

**Edrych tuag at y Pumed Cynulliad ........ 35**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym am nodi ein dymuniad bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael cyfarfodydd rheolaidd o'r un hyd â'r prif bwyllgorau eraill a bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnwys yn rhan o drefn busnes y Pumed Cynulliad.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn trafod y materion nad oeddem wedi cael cyfle i adrodd arnynt ein hunain, o ran y materion a ddeilliodd o'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ynghylch astudiaethau gwerth am arian, a hynny er mwyn ystyried cyfleoedd ar gyfer gwneud gwaith dilynol yn ystod y Pumed Cynulliad.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn parhau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol a bod dadleuon yn cael eu cynnal arnynt yn y Cyfarfod Llawn.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn parhau â'r gwaith craffu ar gyfrifon a ddechreuwyd gennym yn y Pedwerydd Cynulliad, gan gasglu tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn flynyddol a chan gyrff eraill ar sail gylchol (yn cwmpasu cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, comisiynwyr a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus) gan fyfyrio ar yr ymateb i argymhellion o'n gwaith blaenorol.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru mewn unrhyw waith craffu ar gyfrifon yn ystod hydref 2016-17 fel cyfle i wneud gwaith dilynol ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Chwefror 2016, 'Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru'.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cynnwys cyfrifon archwiliedig y BBC fel rhan o'i waith blynyddol i graffu ar gyfrifon, yn dilyn cytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig – adolygiad Siarter y BBC / Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru yn ystod hydref 2016 ar wasanaeth awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn – gan gynnwys: tueddiadau o ran nifer y teithwyr a'r effaith a ddisgwylir pe bai maes awyr Ynys Môn yn cael ei gau dros dro yn ystod 2016; canlyniadau unrhyw waith i archwilio'r cyfleoedd posibl ar gyfer ehangu gweithrediadau ym maes awyr Ynys Môn; a chanlyniad caffael gweithredwr hirdymor newydd.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar weithredu ein hargymhellion ar gyflogau uwch-reolwyr ar ddiwedd 2016 ac yn ystyried unrhyw faterion sy'n codi o gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar y wybodaeth ddiweddaraf am gyfraddau cyflog uwch-reolwyr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar weithredu'n hargymhellion ac yn trafod unrhyw gynlluniau ar gyfer gwaith craffu pellach ar y pwnc hwn gyda'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Menter a Busnes.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn parhau i fabwysiadu'r arfer hwn yn ystod y Pumed Cynulliad.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael sesiwn friffio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ei drydydd adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus er mwyn rhoi llwyfan i waith craffu'r pwyllgor ar amrywiaeth o faterion yn y Pumed Cynulliad.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell, wrth ystyried yr adroddiad sydd ar y gweill gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y sefyllfa o ran caffael cyhoeddus yng Nghymru, fod y pwyllgor sy'n ein holynu yn manteisio ar y cyfle i ailedrych ar yr ymateb i argymhellion ein hadroddiad ym mis Medi 2013, 'Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori'.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn parhau i graffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gwella'r gwaith o reoli grantiau, gan ddefnyddio adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru ac ystyried unrhyw dystiolaeth newydd ar reoli grantiau sy'n deillio o waith yr Archwilydd Cyffredinol neu bryderon eraill sy'n cael eu dwyn i'n sylw.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried cynnydd o ran cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru cyn dyddiad cau diwygiedig 2020 ar gyfer cydymffurfio yn achos tai cymdeithasol.

**Argymhelliad 15.** Gan ystyried gwaith y bydd Estyn yn bwrw ymlaen ag ef, ac unrhyw gynlluniau ar gyfer gwaith pellach gan yr Archwilydd Cyffredinol, rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ymgysylltu â'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Pumed Cynulliad i benderfynu ar y ffordd orau o wneud gwaith craffu pellach ar faterion ynghylch cyflenwi yn ystod absenoldeb athrawon a'r defnydd o athrawon cyflenwi.

**Argymhelliad 16.** Gan ddefnyddio'r adroddiad sydd ar y gweill gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gadernid ariannol llywodraeth leol yng Nghymru a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2015, rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ymgynghori â phwyllgorau perthnasol eraill y Cynulliad Cenedlaethol yn y Pumed Cynulliad i gytuno ar waith craffu parhaus ar gadernid ariannol llywodraeth leol sy'n cyd-fynd â chynlluniau ar gyfer craffu ar ddiwygio llywodraeth leol.

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i'n hargymhellion ar ymateb i ddiwygio lles.

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion ein hymchwiliad ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio os bydd ymchwiliadau yn y dyfodol yn nodi gwendidau tebyg yn nhrefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu a gweinyddu, gwaredu asedau cyhoeddus neu oruchwylio cyrff hyd braich. Rydym yn argymell hefyd bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn craffu ar effeithiolrwydd camau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'n hadroddiad, er mwyn bodloni ei hun a hefyd er mwyn cael sicrwydd ar ran y cyhoedd na fydd y materion yn achos Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio yn codi eto.

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion ein hymchwiliad ar Westy River Lodge, Llangollen, os bydd ymchwiliadau yn y dyfodol yn nodi gwendidau tebyg yn nhrefniadau Llywodraeth Cymru o ran llywodraethu a gweinyddu.

**Argymhelliad 20.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael diweddariad pellach gan yr Archwilydd Cyffredinol am y newidiadau a wnaed i'r dull archwilio ar gyfer cyrff bach, yn enwedig yng nghyd-destun y gwaith o archwilio cynghorau tref a chymuned, a hynny ar ôl cwblhau archwiliadau 2015-16 ac unrhyw adroddiadau cryno ar y gwaith hwnnw.

**Argymhelliad 21.** Rydym yn argymell, yn ogystal â'r diweddariad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i addo ar ganfyddiadau rhaglen monitro a gwerthuso Glastir, fod y pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad pellach ar ei hymateb i'n hargymhellion blaenorol. Rydym hefyd yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn trafod unrhyw gynlluniau ar gyfer gwaith craffu pellach gyda'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

**Argymhelliad 22.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried casglu tystiolaeth bellach gan Lywodraeth Cymru a BT yn hydref 2016 ar sail y diweddariad y maent wedi'i addo ynghylch cyflwyno contract Cyflymu Cymru, ac ar ôl trafod gyda'r Archwilydd Cyffredinol ei gynlluniau ar gyfer unrhyw waith dilynol pellach.

**Argymhelliad 23.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar weithredu'n hargymhellion.

**Argymhelliad 24.** Clywsom dystiolaeth ar 8 Mawrth 2016 gan Lywodraeth Cymru a Cyllid Cymru, ac rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn amlinellu ein canfyddiadau cychwynnol. Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cynnal ymchwiliad manylach i Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru yn gynnar yn y Pumed Cynulliad.

**Argymhelliad 25.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried diweddariad arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn gynnar yn y Pumed Cynulliad.

**Argymhelliad 26.** Gan ystyried unrhyw waith sydd ar y gweill gan yr Archwilydd Cyffredinol a/neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n

ein holynu yn ymgysylltu â'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Pumed Cynulliad i benderfynu ar y ffordd orau o wneud unrhyw waith craffu pellach ar wasanaethau mamolaeth.

**Argymhelliad 27.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael diweddariad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ganfyddiadau ei waith archwilio lleol diweddar ar gontract meddygon ymgynghorol y GIG, a hynny yng nghyd-destun ein hargymhellion blaenorol ar y pwnc hwn.

**Argymhelliad 28.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael sesiwn friffio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ei 'Adolygiad o Effaith Ymarfer Preifat ar Ddarpariaeth y GIG' er mwyn llywio penderfyniad gan y pwyllgor hwnnw ar rinweddau unrhyw waith craffu pellach.

**Argymhelliad 29.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried unrhyw wersi sy'n deillio o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar effaith Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 ac yn defnyddio'r adroddiad hwnnw i edrych eto yn fwy cyffredinol ar faterion sy'n deillio o'n gwaith blaenorol ar gyllid iechyd.

**Argymhelliad 30.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried ailedrych ar y materion o amseroedd aros a gwasanaethau orthopedeg ac yn cynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 31.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar gamau i weithredu ein hargymhellion blaenorol ar ofal iechyd parhaus y GIG a'r cynnydd cyffredinol a wnaed i glirio hawliadau ôl-weithredol.

**Argymhelliad 32.** Gan ystyried y gwaith y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud fel rhan o'i raglen o waith archwilio lleol ar draws GIG Cymru, rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn trafod gyda'r Archwilydd Cyffredinol, a chyda'r pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Pumed Cynulliad, y ffordd orau o wneud unrhyw waith craffu pellach ar wasanaethau gofal heb ei drefnu.

**Argymhelliad 33.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn monitro cynnydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod y cyfnod o fesurau arbennig, gan gynnwys gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau, ac yn ystyried clywed tystiolaeth lafar bellach gan y Bwrdd Iechyd yn ystod gwanwyn 2017.

**Argymhelliad 34.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn ein hadroddiad 'Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr' ym mis Chwefror 2016, ac yn mynd ar drywydd sut y mae camau cysylltiedig yn cael eu rhoi ar waith yn rheolaidd.

# Cyflwyniad

**1.** Rydym yn un o bwyllgorau trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy’n cynnwys wyth Aelod o bob un o’r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad. Nid yw’r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru.

**2.** Ein rôl yw sicrhau y creffir ar wariant datganoledig mewn modd priodol a thrylwyr. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn bennaf, buom yn trafod astudiaethau a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae’r Pwyllgor wedi'i wahardd, o dan y Rheolau Sefydlog, rhag ystyried rhinweddau amcanion polisi Llywodraeth Cymru neu unrhyw gorff cyhoeddus y mae'n craffu arno.

**3.** Rydym yn cael ein cynghori gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a’r Archwilydd Cyffredinol ac yn cael sesiynau briffio ganddynt. Rydym yn annibynnol ar y swyddfa honno, ac mae gennym ein tîm ein hunain o swyddogion i’n cynorthwyo yn ein gwaith.

**4.** Ers 2014, rydym hefyd wedi cynnal ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain, lle'r oedd y Pwyllgor o'r farn y byddai’n fuddiol ac o ddiddordeb cyhoeddus gwneud hynny. Cafodd yr ymchwiliadau hyn a gychwynnwyd gan y Pwyllgor gefnogaeth staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol a staff Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi darparu nifer o femoranda ffeithiol i ategu'r ymchwiliadau hyn sydd o dan arweiniad Aelodau.

**5.** Wrth gynnal ymchwiliadau, mae’r Pwyllgor wedi ystyried gwerth am arian, uniondeb a threfniadau llywodraethu. Nod y Pwyllgor yw sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario’n effeithiol ac yn effeithlon. Rydym hefyd yn ceisio tynnu sylw at faterion perthnasol, ysgogi newid a hyrwyddo gwelliant yn y ffordd y darperir gwasanaethau ac y defnyddir arian cyhoeddus.

**6.** Mae Atodiad A yn rhestru'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd gennym yn dilyn ymchwiliadau yn y Pedwerydd Cynulliad, ynghyd ag ymatebion ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, a chyrff eraill lle y bo'n briodol, i argymhellion yn ein hadroddiadau.

**7.** Mae Atodiad B yn darparu mwy o fanylion am bob Adroddiad Pwyllgor, gan gynnwys nifer yr argymhellion ac a chawsant eu derbyn ai peidio.

## LLWYDDIANNAU'R PWYLLGOR YN YSTOD Y PEDWERYDD CYNULLIAD

**31** ADRODDIAD YMCHWILIAD

**29** YMATEB FFURFIOL I LYWODRAETH CYMRU


**146** CYFARFOD

CRAFFU AR Y BIL ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU)

**3** YMCHWILIAD WEDI'U CYCHWYN GAN Y PWYLLGOR

**2** ADRODDIAD BLYNYDDOL

## ARGYMHELLION Y PWYLLGOR



**425** ARGYMHELLIAD WEDI'U GWNEUD

**284** WEDI'U DERBYN

**28** WEDI'U DERBYN YN RHANNOL

**19** WEDI'U DERBYN AR EGWYDDOR

**8** AR GYFER CYRFF ERAILL

**1** WEDI'I WRTHOD

# Dulliau o weithio

**8.** Ym mis Rhagfyr 2013, gwnaethom gytuno i adolygu ein ffyrdd o weithio er mwyn cryfhau ein gallu i graffu ar waith swyddogion cyfrifo perthnasol a dwyn y swyddogion hyn i gyfrif. Gwnaethom hyn drwy geisio gwella amseroldeb ein hadroddiadau, gan gynnwys sicrhau rhagor o gymorth gan Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'r broses honno. Yn ogystal, ceisiwyd gwella ein dull o gynnwys y cyhoedd yn ein gwaith a mabwysiadu dull unigryw o weithio, sef ymgymryd ag ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain yn hytrach nag ymchwilio i faterion a oedd yn deillio o adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unig. Roedd yr olaf o'r camau hyn wedi ein galluogi i ymchwilio i feysydd eraill o ddiddordeb i'r Pwyllgor a'r cyhoedd, ac roedd yn ddull gweithredu a wnaeth ennyn cryn ddiddordeb ymhlith pwyllgorau cyfatebol mewn awdurdodaethau eraill, gan ei fod yn arloesol ac yn unigryw. Rydym yn trafod y newidiadau hyn, yn ogystal â newidiadau eraill i'n ffyrdd o weithio, yn fwy manwl isod.

## Amserlen y Pwyllgor

**9.** Ar ddechrau'r Cynulliad hwn, gwnaed trefniadau inni gwrdd unwaith bob pythefnos. Yn ein barn ni, roedd yr amserlen honno'n cyfyngu ar ein gallu i gyflawni cyfrifoldebau'r Pwyllgor. Gwnaethom fynegi'r pryderon hyn i'r Pwyllgor Busnes, a gytunodd y gallem gynnal cyfarfodydd wythnosol er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau. Cytunodd hefyd y gallem gyfarfod y tu hwnt i'n hamser penodedig ar yr amserlen os byddai angen inni wneud hynny.

**10.** Ar sawl achlysur, bu gofyn inni weithredu y tu hwnt i amseroedd busnes arferol y pwyllgorau er mwyn cyflawni ein rhaglen waith. Yn gynnar yn y Pedwerydd Cynulliad, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i ymdrin â materion a oedd yn ymwneud â llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**11.** Rydym yn awyddus i gynnal ymchwiliadau lle cesglir tystiolaeth o ffynonellau y tu hwnt i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r dyhead hwn wedi bod yn ymarferol bosibl bob amser yn sgil cyfyngiadau amser, yn ogystal â'r gofyniad arnom i gadw i fyny â'r adroddiadau a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol, y gofyniad i gynnal ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain, a'r gofyniad i gyflawni ein rôl o ran monitro'r broses o weithredu'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn ein hadroddiadau.

**Argymhelliad 1.** Rydym am nodi ein dymuniad bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael cyfarfodydd rheolaidd o'r un hyd â'r prif bwyllgorau eraill a bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnwys yn rhan o drefn busnes y Pumed Cynulliad.

## Ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain

**12.** Prif ffocws ein gwaith oedd yr astudiaethau gwerth am arian a'r adroddiadau archwilio eraill a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Er hynny, gwnaethom gytuno i gynnal ymchwiliadau penodol i faterion a oedd yn peri pryder i'r Aelodau, cyn belled â bod modd taro cydbwysedd rhwng y dyletswyddau hyn a'n gwaith arall. Ategwyd yr ymchwiliadau hynny gan femoranda ffeithiol a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn ogystal â gwaith dadansoddi pellach a baratowyd ar gyfer y Pwyllgor gan yr Archwilydd Cyffredinol a/neu'r Gwasanaeth Ymchwil. Mae'r prif enghreifftiau yn cynnwys Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn, Cyflogau Uwch-reolwyr a Gwerth am Arian a Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd. Cafodd yr ymchwiliad olaf, er yn un a gynhaliwyd ar ein liwt ein hunain, ei ysgogi gan adroddiad

Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Brosiectau Trafnidiaeth Mawr. Rydym yn trafod yr ymchwiliadau penodol hyn ac yn raffu ar gyfrifon yn y bennod nesaf.

## Cyfeirio materion at bwyllgorau eraill

**13.** Yn rhinwedd y cyfyngiadau ar ein rhaglen waith, rydym wedi dewis a dethol pa adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol i ymdrin â hwy. Rhoddwyd ystyriaeth i'r broses o gasglu gwybodaeth o ffynonellau amgen, yn hytrach na thrwy gynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn unig. Er enghraifft, wrth fireinio ein casgliadau, rydym wedi ysgrifennu at randdeiliaid yn gofyn iddynt am eu barn. Fel mater o drefn, rydym wedi gofyn am ymatebion ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol, ac yna wedi cyfeirio'r adroddiadau a'r ymatebion hyn at bwyllgorau perthnasol eraill mewn achosion lle nad oedd gennym amser i gynnal ymchwiliad ein hunain.

**14.** Yn sgil ein hadroddiad, 'Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon', a'r monitro dilynol a wnaed ar waith Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r argymhellion, defnyddiodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ein canfyddiadau i'w helpu gyda'u hymchwiliad i athrawon cyflenwi.

**15.** Yn y tabl isod, ceir nifer o enghreifftiau o adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru nad ydym wedi'u hystyried yn fanwl, ond sydd wedi llywio gwaith craffu gan bwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

| Enghreifftiau o adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol nad ydynt wedi arwain at ymchwiliadau gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus | Perthnasedd i ymchwiliadau a gynhaliwyd gan bwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol |
|---|---|
| **Cyfranogiad y cyhoedd o ran ailgylchu gwastraff**<br>**(Chwefror 2012)** | Wedi llywio ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ailgylchu yng Nghymru. |
| **Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (Awst 2012)** | Wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc [fel yr oedd bryd hynny] i lywio ei waith craffu ar ddeddfwriaeth berthnasol. |
| **Cyllid addysg uwch (Tachwedd 2013)** | Wedi llywio ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i gyllido addysg uwch. |
| **Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed: adolygiad dilynol o faterion diogelwch (Rhagfyr 2013 – Adroddiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru)** | Wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i lywio ei ymchwiliad i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. |
| **Rheoli cyflyrau cronig yng Nghymru - diweddariad**<br>**(Mawrth 2014)** | Wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac wedi llywio'r gwaith o graffu ar waith y Gweinidog. |
| **Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (Gorffennaf 2014)** | Wedi llywio ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i helpu pobl ifanc i gael gwaith. |
| **Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar (Mehefin 2015)** | Wedi llywio'r gwaith craffu a wnaed yn nhymor yr hydref 2015 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar drefniadau'r consortia. |

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn trafod y materion nad oeddem wedi cael cyfle i adrodd arnynt ein hunain, o ran y materion a ddeilliodd o'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ynghylch astudiaethau gwerth am arian, a hynny er mwyn ystyried cyfleoedd ar gyfer gwneud gwaith dilynol yn ystod y Pumed Cynulliad.

## Craffu ar gyfrifon

**16.** Fel rhan o'n ffyrdd newydd o weithio, gwnaethom gytuno i wneud gwaith craffu blynyddol ar gyfrifon sawl sefydliad sy'n cael ei ariannu gan drethdalwyr. Wrth wneud hynny, gwnaethom ystyried eu defnydd o arian cyhoeddus a'u hatebolrwydd o ran sut y cafodd y gwariant hwnnw ei oruchwylio, ynghyd â materion yn ymwneud â rheoli arian parod a chronfeydd wrth gefn, a fformat y cyfrifon hynny. Mae'r gwaith hwn wedi ategu'r broses o graffu ar gyllideb y Cynulliad, yn rhinwedd y ffaith ein bod wedi rhannu ein sylwadau mewn adroddiadau ac wedi amlygu materion gwerth am arian a gododd o'n gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dywedodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad fod y gwaith hwn wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at ei waith.

**17.** Mae'r cyrff y buom yn craffu ar eu cyfrifon wedi'u rhestru yn y tabl isod.

| Cyfrifon Blynyddol 2013-14 | Cyfrifon Blynyddol 2014-15 |
|---|---|
| **Cyngor Celfyddydau Cymru** | **Comisiwn y Cynulliad** |
| **Comisiwn y Cynulliad** | **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** |
| **Comisiynydd Plant Cymru** | **Amgueddfa Cymru** |
| **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** | **Chwaraeon Cymru** |
| **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** | **Llywodraeth Cymru** |
| **Llywodraeth Cymru** | |
| **Comisiynydd y Gymraeg** | |

**18.** Cawsom adborth gan nifer o'r sefydliadau a restrir uchod yn dweud eu bod yn croesawu'r gwaith craffu a wnaed, a'u bod, o ganlyniad i'n hargymhellion, wedi ceisio gwella eu dull o gyflwyno eu cyfrifon yn y flwyddyn ddilynol, neu wedi ymrwymo i wneud hynny.

## Adroddiad blynyddol y Pwyllgor

**19.** Cytunwyd y dylid paratoi Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blynyddol ac y dylid cyflwyno'r adroddiad gerbron y Cynulliad cyfan er mwyn iddo gael cyfle i'w drafod. Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol ar gyfer 2013-14 a 2014-15, a chynhaliwyd dadleuon arnynt yn y Cyfarfod Llawn, gyda'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn ymateb. Dywedodd y Gweinidog fod cyhoeddi adroddiad blynyddol yn gam pwysig ymlaen o ran arddangos atebolrwydd y Pwyllgor i bobl Cymru mewn ffordd ddeallus a chymesur. Ychwanegodd fod yna barodrwydd gwirioneddol ar ran Llywodraeth Cymru i dderbyn beirniadaeth adeiladol, gweithredu arni, a gwella'n barhaus y modd y mae'n cyflawni ei busnes ar ran pobl Cymru.[1]

*Mae'r adroddiad blynyddol yn chwarae rhan bwysig o ran dangos atebolrwydd i'r cyhoedd.*

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn parhau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol a bod dadleuon yn cael eu cynnal arnynt yn y Cyfarfod Llawn.

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 1 Gorffennaf 2015

## Ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain

**20.** Prif ffocws ein gwaith oedd yr astudiaethau gwerth am arian a'r adroddiadau archwilio eraill a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Er hynny, gwnaethom gytuno i gynnal ymchwiliadau penodol i faterion a oedd yn peri pryder i'r Aelodau, cyn belled â bod modd taro cydbwysedd rhwng y dyletswyddau hyn a'n gwaith arall.

### Craffu ar Gyfrifon

**21.** Yn ystod hydref 2014-15, penderfynwyd cynnal cyfres o sesiynau tystiolaeth yn seiliedig ar gynnwys adroddiadau blynyddol a chyfrifon cyrff cyhoeddus. Roedd cylch cyntaf y gwaith hwn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd y Gymraeg. Yn ystod hydref 2015-16, ailadroddwyd y broses hon ar gyfer Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â thystiolaeth gan dri chorff a noddir gan Lywodraeth Cymru: Chwaraeon Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**22.** Un o'r materion rydym wedi archwilio iddo drwy'r gwaith hwn yw tryloywder a hygyrchedd cyffredinol dogfennau cyfrifyddu, yn enwedig o ran cyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru a chyrff eraill ystyried canllawiau diweddaraf Trysorlys ei Mawrhydi o ran symleiddio adroddiadau wrth gyflwyno cyfrifon ac adroddiad blynyddol 2016-17. Wrth wneud hynny, gobeithio y rhoddir ystyriaeth i'r argymhellion perthnasol yn ein hadroddiadau ar graffu ar gyfrifon. Yn ei dystiolaeth i ni ar 23 Chwefror 2016, croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol sesiwn dystiolaeth flynyddol a gyflwynwyd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru.[2]

**23.** Cafwyd adborth cadarnhaol gan rai o'r sefydliadau a gyfrannodd at y broses i'n gwaith o graffu ar y cyfrifon.  Yn 2014/15, ymatebodd Cyngor Celfyddydau Cymru i'n hadroddiad, gan groesawu'r cyfle i roi sylwadau ar ein canfyddiadau. Dywedodd Cyngor y Celfyddydau ei fod, o ganlyniad i'n gwaith, wedi derbyn ein hanogaeth i wneud ei gyfrifon yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.[3]

> *Roedd y Pwyllgor, wrth gwrs, yn gadarn a fforensig yn ein gwaith craffu. Ond roedd hefyd yn agoriad llygad. Roedd gwaith holi Aelodau'r Pwyllgor yn dod â safbwynt ffres i bynciau sy'n ymddangos yn syml ac yn gyfarwydd i ni.*

**24.** Cafodd ein gwaith yn ystod hydref 2015/16 adborth cadarnhaol gan wahanol sefydliadau. Mewn ymateb i argymhellion a wnaed i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, dywedwyd wrthym ei fod yn croesawu'r cyfle i adolygu a thrafod ei waith pwysig.[4] Yn yr un modd diolchodd Llywodraeth Cymru ni am y ffordd gofalus ac ystyriol y cynhaliwyd yr ymchwiliad.[5]

**25.** Mae'r adborth a gafwyd yn dangos i ni pa mor bwysig a gwerthfawr yw'r gwaith hwn, sy’n ein helpu i ddod at y casgliad y dylai’r pwyllgor sy’n ein holynu barhau â’r gwaith hwn.

---

[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraff 223, 23 Chwefror 2015
[3] PAC (4)-15-15 PTN1, 2 Mehefin 2015
[4] PAC (4)-08-16 P1, 1 Mawrth 2016
[5] PAC (4)-08-16 P1, 1 Mawrth 2016

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn parhau â'r gwaith craffu ar gyfrifon a ddechreuwyd gennym yn y Pedwerydd Cynulliad, gan gasglu tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn flynyddol a chan gyrff eraill ar sail gylchol (yn cwmpasu cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, comisiynwyr a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus) gan fyfyrio ar yr ymateb i argymhellion o'n gwaith blaenorol.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru mewn unrhyw waith craffu ar gyfrifon yn ystod hydref 2016-17 fel cyfle i wneud gwaith dilynol ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Chwefror 2016, 'Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru'.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cynnwys cyfrifon archwiliedig y BBC fel rhan o'i waith blynyddol i graffu ar gyfrifon, yn dilyn cytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig – adolygiad Siarter y BBC / Llywodraeth Cymru.

### Gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn

**26.** Buom yn archwilio'r cymhorthdal cyhoeddus a roddir i'r gwasanaeth awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn ar ôl i bryderon gael eu mynegi i'r Cadeirydd. Paratowyd Memorandwm byr i ni gan yr Archwilydd Cyffredinol, a oedd yn amlinellu rhai ffeithiau allweddol mewn perthynas â hanes y gwasanaeth, trefniadau caffael a rheoli contractau a chostau a pherfformiad cyffredinol y gwasanaeth. Cyhoeddwyd adroddiad interim ar y pwnc hwn ym mis Gorffennaf 2014 ac adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2015.

**27.** Digwyddodd yr ymchwiliad a arweiniodd at ein hadroddiad interim ar adeg pan oedd Llywodraeth Cymru yn dal i benderfynu ar ddyfodol contract y gwasanaeth awyr y tu hwnt i fis Rhagfyr 2014. Clywsom dystiolaeth lafar bellach gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2015 ac, erbyn hynny, roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod contract pedair blynedd newydd. Roeddem yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad annibynnol i lywio gweithrediad parhaus y gwasanaeth, er bod gennym bryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer caffael y contract newydd.

**28.** Rydym wedi cydnabod drwy ein gwaith y gall y gwasanaeth awyr weithredu fel llwyfan ar gyfer gwell cysylltedd rhwng y gogledd a'r de, a chlywsom dystiolaeth bellach ynghylch hynny gan Gadeirydd Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn ystod ein hymchwiliad diweddar ar faes awyr Caerdydd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r problemau a gododd tua diwedd 2015 pan gollodd weithredwr y gwasanaeth ei drwydded ddiogelwch. Cawsom y wybodaeth ddiweddaraf am y materion hyn ym mis Ionawr 2016 gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau ei bod wedi rhoi trefniadau dros dro ar waith, ond bod y gweithredwr wedi penderfynu tynnu'n ôl o'i rwymedigaethau i ddarparu'r gwasanaeth, yn ddirybudd, ar 22 Ionawr 2016. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru broses gaffael frys ar gyfer contract tymor byr saith mis cyn y cynlluniau i gaffael gweithredwr hirdymor y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

**29.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod y materion hyn yn debygol o fod wedi effeithio ar y cynnydd mewn ymateb i rai o'n hargymhellion blaenorol ynghylch marchnata'r gwasanaeth. Mae camau gweithredu eraill o ran ymateb i'n hargymhellion hefyd yn parhau. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o gyfleoedd posibl ar gyfer ehangu gweithrediadau ym maes awyr Ynys Môn, gan gynnwys ymestyn oriau gweithredu, a disgwylir adroddiad drafft erbyn diwedd mis Mawrth 2016. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi

ymrwymiad inni y bydd yn cyhoeddi nifer y teithwyr yn flynyddol (gan gynnwys cyfrif cost cymhorthdal cyhoeddus fesul teithiwr).

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru yn ystod hydref 2016 ar wasanaeth awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn – gan gynnwys: tueddiadau o ran nifer y teithwyr a'r effaith a ddisgwylir pe bai maes awyr Ynys Môn yn cael ei gau dros dro yn ystod 2016; canlyniadau unrhyw waith i archwilio'r cyfleoedd posibl ar gyfer ehangu gweithrediadau ym maes awyr Ynys Môn; a chanlyniad caffael gweithredwr hirdymor newydd.

### Cyflogau Uwch-reolwyr

**30.** Ar ddiwedd 2013, penderfynwyd symud ymlaen gydag ymchwiliad i gyflogau uwch-reolwyr. Cawsom amrywiaeth eang o dystiolaeth yn cwmpasu llywodraeth ganolog, llywodraeth leol, y GIG, addysg bellach ac addysg uwch a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi memorandwm yn cymharu cyfraddau cyflog uwch-reolwyr ar draws y sefydliadau y mae'n eu harchwilio. Rhoddodd staff Swyddfa Archwilio Cymru a Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad ddadansoddiad ychwanegol o ran addysg uwch ac addysg bellach a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Nid diben ein gwaith oedd gwneud dyfarniad ar gyflogau unigolion ond ystyried y rhesymeg y tu ôl i rai o gyfraddau cyflogau uwch-reolwyr a amlygwyd yn ein hadroddiad a rhai o'r gwahaniaethau rhwng sectorau unigol ac oddi mewn iddynt. Roeddem yn pryderu am anghysondeb y trefniadau ar draws y sector cyhoeddus cyfan o ran datgelu gwybodaeth ynghylch cyflogau uwch-reolwyr.

**31.** Cawsom ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016 ar gynnydd o ran gweithredu ein hargymhellion. Roedd ymateb gwreiddiol Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad yn awgrymu y byddai camau gweithredu mewn ymateb i'n hargymhellion wedi cael eu cyflawni, ar y cyfan, erbyn diwedd hydref 2015. Nid yw hyn yn wir ac nid yw rhai camau allweddol wedi eu bodloni o hyd, gan gynnwys cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, sy'n digwydd yn flynyddol, sef gwybodaeth am gyfraddau cyflogau uwch-reolwyr ar draws sector cyhoeddus Cymru. Mewn tystiolaeth inni ar 23 Chwefror 2016, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oedd bellach yn anelu at gyflawni'r weithred benodol honno erbyn diwedd 2016.[6]

**32.** Yn ei hymateb i'n hargymhellion, roedd Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r ymchwiliad a gynhaliwyd gennym wrth nodi y byddai'n cymryd amser i'w gweithredu'n llawn.[7]

> *Mae'r argymhellion yn amserol o ystyried gwaith sydd eisoes ar y gweill yn y maes hwn, ond hefyd yn heriol o ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau.*

**33.** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhywfaint o eglurder ar y camau y mae'n eu cymryd mewn ymateb i'n hargymhellion i ymestyn er mwyn cwmpasu'r sectorau addysg bellach, addysg uwch a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Rydym wedi cael ein hysbysu bod llythyr cylch gwaith y Gweinidog Addysg a Sgiliau at CCAUC ar gyfer 2015-16 yn cynnwys gofyniad i'r Cyngor fonitro lefelau cyflog a gwobrau uwch-swyddogion yn y sector addysg uwch a chyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru yn flynyddol, yn amlinellu'r sefyllfa o ran sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.[8] Cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth

---

[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraff 217, 23 Chwefror 2015
[7] PAC (4)-01-15 P1, 13 Ionawr 2015
[8] PAC (4)-08-16 P1, 15 Mawrth 2016

Cymru wedi addo gormod a than-berfformio o ran pa mor hir y byddai'n ei gymryd i weithredu ein hargymhellion, ond bod hwn yn ddarn o waith anodd a chymhleth'.[9]

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy’n ein holynu yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar weithredu ein hargymhellion ar gyflogau uwch-reolwyr ar ddiwedd 2016 ac yn ystyried unrhyw faterion sy'n codi o gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar y wybodaeth ddiweddaraf am gyfraddau cyflog uwch-reolwyr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

### Gwerth am arian ar gyfer buddsoddi mewn traffyrdd a chefnffyrdd

**34.** Ym mis Rhagfyr 2014, penderfynwyd y byddem yn cynnal ymchwiliad o'r fath i'r gwaith o gynnal a chadw a buddsoddi yn rhwydwaith cefnffyrdd Cymru. Ni chododd yr ymchwiliad o ganlyniad i adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, llywiwyd ein gwaith yn rhannol gan ganfyddiadau ac argymhellion o adroddiad ym mis Ionawr 2011 gan yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch 'Prosiectau Trafnidiaeth Mawr' a rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol gyngor a mewnbwn ychwanegol i ategu ein hymchwiliad.

**35.** Roedd y dystiolaeth a glywsom yn awgrymu nad oedd yr amserlenni ar gyfer prosiectau mawr yn ddigon penodol a bod diffyg cysondeb a thryloywder ynghylch gwneud penderfyniadau a chyllidebau. Roeddem yn credu y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau gwerth gwell am arian ac atebolrwydd drwy weithredu'r argymhellion yn ein hadroddiad. Roedd y dystiolaeth a oedd yn awgrymu gostyngiad yn y gwaith o fonitro cyflwr y rhwydwaith cefnffyrdd a'i asedau hefyd yn destun pryder i ni. Pwysleisiwyd pwysigrwydd taro'r cydbwysedd iawn rhwng buddsoddi mewn prosiectau ffyrdd newydd a chynnal a chadw'r ffyrdd presennol. Rydym yn argymell y dylid ystyried opsiynau ar gyfer cyfnodau cyllido tymor hwy i ganiatáu cynllunio gwell ar gyfer gwaith cynnal a chadw fel rhan o'r adolygiad o Asiantau Cefnffyrdd, gan ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd o gyflwyno cylch cyllideb pum mlynedd newydd yn Lloegr.

**36.** Rydym yn ymwybodol bod llawer o'r camau a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i ymateb i'n hargymhellion yn parhau i fod ar y gweill. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Arweiniad Arfarnu Trafnidiaeth Cymru newydd yn ystod 2016 a strategaeth gwaith ffyrdd a strydoedd newydd, y dull cynllunio a'r cylch ariannu ar gyfer gwaith cynnal a chadw, adolygiad o'r model cyflenwi ar gyfer asiantau cefnffyrdd, rheoli gwybodaeth a chyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch gwaith ffordd a digwyddiadau. Nodwn fod y Memorandwm ar yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Cynigion Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2016/17[10] yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ein hadroddiad gan nodi: "Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud o ran cyflawni erbyn y dyddiadau targed. Yn benodol, cyflwynwyd adroddiad ar ganfyddiadau'r ystyriaeth a roddwyd i fodel un asiant, mae rhaglen i ddarparu system gyllid o fewn system rheoli gwybodaeth IRIS yn cael ei threialu a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch ‘Strategaeth Gwaith Stryd ar gyfer Cymru’ ar 7 Rhagfyr 2015". Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw adroddiad ar y model un asiant yn cael ei gyhoeddi.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy’n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar weithredu'n hargymhellion ac yn trafod unrhyw gynlluniau ar gyfer gwaith craffu pellach ar y pwnc hwn gyda’r pwyllgor a fydd yn olynu’r Pwyllgor Menter a Busnes.

---

[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraff 206, 23 Chwefror 2016
[10] Y Pwyllgor Menter a Busnes, EBC(4)-16-01 P2, 14 Ionawr 2016,

## Casgliad

**37.** Mae ymchwiliadau a gynhaliwyd ar ein liwt ein hunain wedi profi i fod yn werthfawr iawn ac wedi ennyn diddordeb helaeth gan yr Aelodau a'r cyhoedd. Mae'r math hwn o ymchwiliad wedi ein galluogi i ymchwilio i feysydd eraill sydd o ddiddordeb i ni ac i'r cyhoedd, dull sy'n ennyn diddordeb gan Bwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus mewn awdurdodaethau eraill. Mae hyn yn dangos bod y dull hwn yn arloesol ac yn dylanwadu ar eraill ac mae adborth gan bartïon cysylltiedig wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan yn arbennig wrth ymgymryd â gwaith craffu ar gyfrifon.


**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn parhau i fabwysiadu'r arfer hwn yn ystod y Pumed Cynulliad.

## TYSTION

**256** TYST WEDI YMDDANGOS GERBRON Y PWYLLGOR

**362** DARN O DYSTIOLAETH LAFAR

## DADANSODDIAD O'R DYSTIOLAETH LAFAR



**138** GAN LYWODRAETH CYMRU

**116** GAN SEFYDLIADAU ERAILL

**66** GAN SEFYDLIADAU IECHYD

**19** GAN UNIGOLION

**17** GAN AWDURDODAU LLEOL

**6** GAN GYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

## YMGYSYLLTIAD

**425** YN DILYN @SENEDDPAC

**221** YN DILYN @SENEDDARCHWILIO

**1,312** TRYDARIAD AR Y DDAU GYFRIF TWITTER

YMWELIAD

CYFARFOD FFURFIOL YN YSTOD

**SENEDD**@SWANSEA

# Ymchwiliadau a gynhaliwyd

**38.** Yn y rhan hon o'n hadroddiad, rydym yn canolbwyntio ar nodi materion sy'n codi o'n prif ymchwiliadau, ac argymhellion ar gyfer camau gweithredu i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Pumed Cynulliad eu hystyried yng ngoleuni ein gwaith blaenorol. Yn unol â'n harfer, rydym wedi ystyried nifer o adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol ond nid ydym o reidrwydd wedi cynnal ein hymchwiliadau manwl ein hunain. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio ymatebion gan Lywodraeth Cymru i holl adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol.

**39.** Ceir hefyd nifer o enghreifftiau o adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol nad ydym wedi'u hystyried yn fanwl, ond sydd wedi llywio gwaith craffu gan bwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. Rydym wedi nodi'r enghreifftiau hynny mewn pennod gynharach yn yr adroddiad hwn.

**40.** Rydym wedi grwpio ein sylwadau ar ein hymholiadau i adlewyrchu strwythur y tri phrif grwpiau sefydliadol, ynghyd â rhai sy'n dod o fewn themâu trawsbynciol o fewn Llywodraeth Cymru ar adeg yr adroddiad etifeddiaeth hwn. Mae'r grwpiau'n Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Materion trawsbynciol

### Darlun o wasanaethau cyhoeddus

**41.** Ystyriodd yr ymchwiliad hwn faterion sy'n deillio o'r ail adroddiad o dri gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y pwnc hwn. Yn ein hadroddiad ym mis Ebrill 2012, ystyriwyd amrywiaeth o faterion, gan gynnwys yr heriau ariannol cyffredinol yr oedd gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu ar y pryd ac edrych tua'r dyfodol dros oes y Pedwerydd Cynulliad, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr effaith ar lywodraeth leol a gwasanaethau iechyd. Yn fwy cyffredinol, buom yn ystyried tystiolaeth mewn perthynas â chydweithio, arweiniad ar y cyd a rhannu arfer da wrth i gyrff cyhoeddus geisio ymateb i'r pwysau ariannol yr oeddent yn eu hwynebu. Daethom yn ôl at rai o'r materion hyn drwy ein hymchwiliadau dilynol i gyllid iechyd a'r heriau ariannol y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu. Mae ein gwaith 'craffu cyfrifon' dros y ddwy flynedd diwethaf hefyd wedi rhoi'r cyfle inni ystyried yr heriau ariannol y mae rhai cyrff llywodraeth ganolog yn eu hwynebu.

**42.** Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei drydydd adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2015. Ni chawsom y cyfle i gasglu tystiolaeth bellach ar sail yr adroddiad hwn. Wrth wneud sylw yn yr adroddiad ar yr ymateb i bwysau ariannol, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"…er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, [nid] yw gwasanaethau cyhoeddus eto wedi datblygu'r newid hirdymor a radical sydd ei angen er mwyn ymateb yn effeithiol i'r pwysau y mae'n rhaid iddynt eu hwynebu ac y byddant yn parhau i'w hwynebu.*[11]

---

[11] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015, 17 Rhagfyr 2015

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael sesiwn friffio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ei drydydd adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus er mwyn rhoi llwyfan i waith craffu'r pwyllgor ar amrywiaeth o faterion yn y Pumed Cynulliad.

### Gwaith caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori

**43.** Roedd ein hymchwiliad yn dilyn adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol a oedd yn amcangyfrif gwariant o oddeutu £133 miliwn ar wasanaethau ymgynghori yn 2010-11 ar draws y gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a drafodwyd yn y gwaith. Roedd ein hadroddiad yn adlewyrchu pryderon ynghylch ansawdd y data a'r graddau yr oedd cyrff cyhoeddus yn cymhwyso arfer da safonol yn eu gwaith o gontractio gydag ymgynghorwyr.

**44.** Manteisiwyd ar ein hymchwiliad i ystyried y rôl y gallai'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol newydd ei chwarae o ran hyrwyddo gwerth gwell am arian ac arfer da yn gyffredinol yn y maes hwn. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i lawer o'n hargymhellion yn cyfeirio at waith y byddai'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ei ddatblygu. Roedd yr argymhelliad cyntaf yn ein hadroddiad yn argymell cyhoeddi adroddiad blynyddol ar effaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wrth wella arferion caffael a gwneud arbedion caffael, gan gynnwys mewn perthynas â gwasanaethau ymgynghori. Derbyniwyd copi o'r adroddiad blynyddol cyntaf o'r fath yn hydref 2015 ac rydym yn disgwyl i adroddiadau blynyddol yn y dyfodol gael eu hanfon at y pwyllgor sy'n ein holynu.

**45.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal adolygiad a fydd yn ystyried y sefyllfa o ran caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys datblygiad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Bydd gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn sail i'r pwyllgor sy'n ein holynu ystyried datblygiad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Bydd hefyd yn ein helpu i ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn ymateb i'r datblygiadau diweddar ym maes caffael, gan gynnwys y datganiad polisi caffael y mae Llywodraeth Cymru newydd ei ddiweddaru, a goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[12]

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell, wrth ystyried yr adroddiad sydd ar y gweill gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y sefyllfa o ran caffael cyhoeddus yng Nghymru, fod y pwyllgor sy'n ein holynu yn manteisio ar y cyfle i ailedrych ar yr ymateb i argymhellion ein hadroddiad ym mis Medi 2013, 'Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori'.

### Rheoli grantiau yng Nghymru

**46.** Mae materion yn ymwneud â rheoli arian grant gan Lywodraeth Cymru yn benodol wedi ymddangos yn rheolaidd yn ein rhaglen waith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, a hynny'n dilyn cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol 'Rheoli Grantiau yng Nghymru' ym mis Tachwedd 2011. Rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad penodol ar y pwnc hwn, adroddiad interim ym mis Awst 2012 ac adroddiad terfynol ym mis Mehefin 2013. Defnyddiodd ein hadroddiad terfynol dystiolaeth mewn perthynas ag arian grant ar gyfer Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan yn dilyn adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd yr adroddiad terfynol hefyd yn adlewyrchu tystiolaeth o'n hadroddiad 'Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen' ym mis Mehefin 2013.

---

[12] **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

47. Casglwyd tystiolaeth bellach ar drefniadau rheoli grantiau Llywodraeth Cymru mewn cyfres o sesiynau tystiolaeth rhwng mis Mawrth 2014 a mis Chwefror 2016. Mae'r sesiynau tystiolaeth hynny wedi defnyddio cynnwys adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru ar reoli grantiau yn 2013, 2014 a 2015. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiadau hyn fel rhan o'i hymateb i argymhellion yn ein gwaith blaenorol. Aethom ati hefyd i ymchwilio i'r materion hynny o'r sesiynau tystiolaeth sy'n deillio o adroddiadau pellach gan yr Archwilydd Cyffredinol, sef 'Arian Cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon', 'Arian Cyhoeddus ar gyfer Canolfan Cywain, Y Bala' a 'Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd 2007-2013'.

48. Roedd y pryderon a nodwyd yn ein gwaith ac yn adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys trefniadau diwydrwydd dyladwy annigonol, cyfathrebu gwael rhwng adrannau Llywodraeth Cymru ac â chyllidwyr eraill, cyfleoedd i leihau nifer y cynlluniau grant, anghysondeb cyffredinol o ran arferion rheoli grantiau, costau gweinyddu a chydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Yn ystod ein trafodaeth o Adroddiad Blynyddol 2015 Llywodraeth Cymru ar 23 Chwefror 2016, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol, pan gymerodd y swydd [ym mis Hydref 2012], ei fod wedi nodi bod y gwaith rheoli grantiau yn amlwg yn wan ac yn peri risg uchel.[13] Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd fod ein gwaith craffu ni ar y materion hyn wedi rhoi ffocws ar gyfer gwella.[14]

> *Rwyf wedi siarad am reoli grantiau, a chredaf ei fod wedi bod yn ganlyniad cynhyrchiol iawn ac yn ymyriad adeiladol gan y Pwyllgor.*

49. Rydym wedi croesawu'r dystiolaeth a gawsom dros y blynyddoedd diwethaf sy'n cyfeirio at welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i gryfhau ei gwaith o reoli arian grant. Fodd bynnag, mae hon yn broses barhaus o welliant. Un datblygiad posibl pellach a ddisgrifiwyd i ni gan yr Ysgrifennydd Parhaol oedd ei fod yn ystyried y risgiau a'r manteision yn sgil dull mwy canolog ar sail cydwasanaethau o reoli grantiau ar draws Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy’n ein holynu yn parhau i graffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gwella'r gwaith o reoli grantiau, gan ddefnyddio adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru ac ystyried unrhyw dystiolaeth newydd ar reoli grantiau sy'n deillio o waith yr Archwilydd Cyffredinol neu bryderon eraill sy'n cael eu dwyn i’n sylw.

## Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

### Cynnydd o ran cyrraedd safon ansawdd tai Cymru

50. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2002. Roedd ein hadroddiad ym mis Medi 2012 yn cydnabod bod cyflwyno'r Safon wedi arwain at welliannau yn ansawdd tai cymdeithasol ar gyfer nifer sylweddol o denantiaid. Fodd bynnag, ni fyddai'r dyddiad cau gwreiddiol yn cael ei fodloni er mwyn i holl dai cymdeithasol Cymru gydymffurfio â'r Safon erbyn diwedd 2012. Yn ogystal, clywyd bod disgwyl na fyddai oddeutu un o bob pum annedd yn cydymffurfio erbyn 2017. Y prif ddiffyg oedd i landlordiaid awdurdodau lleol mewn ardaloedd lle y pleidleisiodd tenantiaid yn erbyn trosglwyddo stoc, neu a oedd eto i bleidleisio ar y mater hwn adeg ein hadroddiad. Roedd ein hargymhellion yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y ffordd y caiff cydymffurfiaeth â'r Safon ei mesur a'i dilysu, gwireddu

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraff 11, 23 Chwefror 2015
[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraff 229, 23 Chwefror 2015

buddion ehangach yn sgil gwaith i gyrraedd y Safon ac ymgysylltu â thenantiaid. Roeddem hefyd yn awyddus i weld cynnydd ar ddiwygio'r system cyfrif refeniw tai ar gyfer landlordiaid awdurdodau lleol, yr ydym yn nodi a ddaeth i rym o fis Ebrill 2015.

**51.** Yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad, cawsom nifer o ddiweddariadau gan Lywodraeth Cymru yn 2013, a chasglwyd tystiolaeth lafar bellach gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2013. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru bellach yn cyhoeddi ystadegau blynyddol ar gydymffurfiaeth â'r Safon. Rydym hefyd yn ymwybodol bod Rhan 4 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi pŵer newydd i Lywodraeth Cymru ymyrryd os bydd landlord yn dewis peidio â chydymffurfio â'r Safon, lle byddai'n rhaid dibynnu yn y gorffennol ar amodau grant i ddylanwadu ar gydymffurfiaeth. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn disgwyl i bob landlord tai cymdeithasol gydymffurfio â'r Safon cyn gynted â phosibl ac erbyn 2020 fan bellaf.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried cynnydd o ran cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru cyn dyddiad cau diwygiedig 2020 ar gyfer cydymffurfio yn achos tai cymdeithasol.

## Argyfyngau sifil yng Nghymru

**52.** Roedd ein hadroddiad yn canolbwyntio ar y trefniadau llywodraethu cyffredinol ar gyfer ymateb i argyfyngau sifil, gan gynnwys rolau perthnasol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a hynny yng nghyd-destun Deddf Argyfyngau Sifil 2004 a ddaeth i rym yng Nghymru a Lloegr yn 2005. Casglwyd tystiolaeth gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU fel rhan o'n hymchwiliad. Ni wnaethom archwilio manylion yr ymateb gan gyrff cyhoeddus, a phartïon eraill, i ddigwyddiadau penodol. Fodd bynnag, nodwyd y gweithiodd y trefniadau argyfyngau sifil yn foddhaol yng Nghymru pan fu'n rhaid galw amdanynt.

**53.** Rydym yn deall, o drafodaethau rhwng staff Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru, y cymerwyd camau i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad. Mae hyn yn cynnwys camau mewn meysydd fel cyfraniad y sector gwirfoddol i'r trefniadau cynllunio at argyfwng, rhanbartholi aml-asiantaeth, hyfforddiant ar gyfer swyddogion cydnerthu ac arfer da wrth ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol yn ystod achosion o argyfwng. Fodd bynnag, mae nifer o'n hargymhellion yn adlewyrchu materion mewn perthynas â dymuniad Llywodraeth Cymru i geisio gwella ei dyletswyddau statudol o ran cydgysylltu a chynllunio ar gyfer argyfyngau sifil ac argymhellion y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru. Mae'r materion hyn yn parhau i fod yn berthnasol yng nghyd-destun datblygu Bil Cymru Llywodraeth y DU.

## Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon

**54.** Rydym yn cydnabod yn ein hadroddiad bod absenoldeb a gynlluniwyd neu absenoldeb heb ei gynllunio yn golygu ei bod yn anochel na fydd athrawon yn gallu cyflwyno pob gwers. Ond pwysleisiwyd na ddylai hynny olygu gostyngiad anochel yn ansawdd yr addysg y bydd plant Cymru yn ei chael. Cawsom ein synnu gan y diffyg monitro sydd wedi digwydd ar gyfer gwersi cyflenwi, methiant i ddeall gwerth am arian y gwahanol ddulliau ar gyfer cyflenwi a diffyg gwerthuso o ran yr effaith ar addysg y disgyblion. Ymysg pethau eraill, gwelwyd bod diffyg cymorth ar gael i athrawon, yn gyntaf o ran datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon cyflenwi, ac yn ail o ran y cymorth sydd ar gael i benaethiaid allu ymdopi ag absenoldeb athrawon. Croesawyd cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r materion hyn.

**55.** Roedd ymateb gwreiddiol Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad yn nodi'n glir y byddai canllawiau newydd yn cael eu llunio er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion. Er i'r broses honno gymryd mwy o amser na'r disgwyl, rydym yn ymwybodol y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y

canllawiau hyn ym mis Gorffennaf 2015. Yn y cyfamser, cychwynnodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei ymchwiliad ei hun i waith athrawon cyflenwi. Roedd adroddiad y Pwyllgor hwnnw, ym mis Rhagfyr 2015, yn adeiladu ar y materion yn argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar gyflenwi yn absenoldeb athrawon a'n hadroddiad ni. Argymhellodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gynllunio model newydd ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi a chomisiynu ymchwil i effeithiau gwaith athrawon cyflenwi. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cadarnhau y bydd Estyn yn adolygu materion yn ymwneud â chyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon dros y 12 mis nesaf. Fel y disgrifiwyd, bydd gwaith Estyn yn ystyried rhai o'r materion a godwyd gan y ddau Bwyllgor, ond nid pob un ohonynt.

**Argymhelliad 15.** Gan ystyried gwaith y bydd Estyn yn bwrw ymlaen ag ef, ac unrhyw gynlluniau ar gyfer gwaith pellach gan yr Archwilydd Cyffredinol, rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ymgysylltu â'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Pumed Cynulliad i benderfynu ar y ffordd orau o wneud gwaith craffu pellach ar faterion ynghylch cyflenwi yn ystod absenoldeb athrawon a'r defnydd o athrawon cyflenwi.

### Ymdrin â'r heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru

**56.** Gan adeiladu ar y materion yn ein hadroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn gynnar yn y Pedwerydd Cynulliad, rydym wedi parhau i gasglu tystiolaeth lafar a/neu ysgrifenedig drwy gydol 2014 a 2015 gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhai cynrychiolwyr o awdurdodau lleol unigol ar yr heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru. Llywiwyd ein gwaith yn y maes hwn gan ddau adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn ogystal ag adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau craffu llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd amgylcheddol, a'r trefniadau rheoli ymadawiad cynnar ar draws y sector cyhoeddus.

**57.** Er nad ydym wedi cyflwyno adroddiad ffurfiol ar y mater hwn, rydym wedi cyfnewid gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch rhai o'r meysydd sy'n weddill sy'n peri pryder. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys y graddau yr oedd Llywodraeth Cymru yn deall yr heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol, y defnydd o gronfeydd wrth gefn, ymgysylltiad cyhoeddus ynghylch blaenoriaethau cyllidebau, pryderon bod rhai gwasanaethau dewisol mewn perygl o ddiflannu, a'r fformiwla ariannu sy'n sail i ddyraniadau ariannol. Hefyd, rhannwyd gwybodaeth berthnasol gyda'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

**58.** Rydym yn nodi bod adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2015 yn rhoi'r dadansoddiad diweddaraf o effaith toriadau gwariant cyhoeddus ar lywodraeth leol, ac rydym yn deall bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad pellach ar gadernid ariannol llywodraeth leol yng Nghymru. Wrth gwrs, rydym yn ymwybodol y bydd penderfyniadau ar unrhyw drefniadau ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn y Pumed Cynulliad hefyd yn berthnasol yn y cyd-destun hwn.

**Argymhelliad 16.** Gan ddefnyddio'r adroddiad sydd ar y gweill gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gadernid ariannol llywodraeth leol yng Nghymru a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2015, rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ymgynghori â phwyllgorau perthnasol eraill y Cynulliad Cenedlaethol yn y Pumed Cynulliad i gytuno ar waith craffu parhaus ar gadernid ariannol llywodraeth leol sy'n cyd-fynd â chynlluniau ar gyfer craffu ar ddiwygio llywodraeth leol.

**59.** Yn groes i arfer y Pwyllgor, roedd yr adroddiad hwn yn trafod goblygiadau polisi nad yw wedi'i ddatganoli a'i effaith ar wasanaethau datganoledig. Cymerwyd tystiolaeth gan ystod o randdeiliaid i ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr cyngor wedi addasu i heriau'r gyfundrefn les newydd. Yn ystod ein hymchwiliad, darparodd yr Archwilydd Cyffredinol rywfaint o ddeunydd wedi'i ddiweddaru ar daliadau tai yn ôl disgresiwn.

**60.** Mae ein hargymhellion yn ymwneud â nifer o wahanol faterion, gan gynnwys, ymhlith eraill, gweinyddu taliadau tai yn ôl disgresiwn, cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori a mynediad atynt, mynd i'r afael ag effaith y newidiadau arfaethedig o ran pwy sy'n gymwys i gael y budd-dal tai ar gyfer pobl 18-21 oed, a gwella trefniadau casglu data. Dim ond chwech o'n 17 o argymhellion y derbyniodd Llywodraeth Cymru yn llawn, gan dderbyn un mewn egwyddor a'r deg sy'n weddill yn rhannol. Felly, ceisiwyd eglurhad ar amrywiaeth o faterion. Er enghraifft, roeddem wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth i reoli effaith diwygio lles lle mae hyn wedi arwain at leihau taliadau lles yng Nghymru. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd yn parhau i roi arweiniad yn y maes hwn ond nid yw o'r farn bod angen dogfen strategaeth ar wahân, ac mae'n credu bod yr ymateb i ddiwygio lles yn rhan o'i strategaeth ehangach i drechu tlodi. Serch hynny, nododd Llywodraeth Cymru y byddai'n falch o rannu gwybodaeth am y camau a gymerwyd a'r camau pellach sydd ar y gweill.[15]

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i'n hargymhellion ar ymateb i ddiwygio lles.

## Cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio

**61.** Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar 'Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio' ym mis Ionawr 2016. Y materion a ystyriwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn oedd rhai o'r materion mwyaf cymhleth ac a oedd yn peri'r pryder mwyaf y daethom ar eu traws yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Mae'n amlwg nad oedd gwerthu'r asedau tir a drosglwyddwyd i'r Gronfa gan Lywodraeth Cymru yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr. Yn lle hynny, ymddengys y gallai, ac y dylai, ddegau o filiynau o bunnoedd fod wedi'u cynhyrchu i'w buddsoddi mewn prosiectau adfywio ledled Cymru.

**62.** Roedd ein hymchwiliad yn fanwl ac yn eang. Datgelodd ddiffygion sylweddol ym mhrosesau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru, aneglurder o ran atebolrwydd a threfniadau rheoli llinell, a gwendidau sylfaenol o ran cadw cofnodion a chadw data. Rydym yn nodi bod llawer o'r diffygion a ganfuwyd yn gyson â'r materion i ni eu hystyried yn ystod ymchwiliadau blaenorol, fel yr ymchwiliad ynghylch proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen.

**63.** Dangosodd ein hymchwiliad fod tipyn o waith i'w wneud o hyd i gryfhau prosesau Llywodraeth Cymru, ac yn benodol o safbwynt y trefniadau ar gyfer monitro a goruchwylio ei chyrff hyd braich. Mae ein hargymhellion yn canolbwyntio ar y gwersi pwysig y gall Llywodraeth Cymru eu dysgu o fenter Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio.

---

[15] PAC (4) 24-15 P6, 29 Medi 2015 & PAC (4) -30-15 PTN2, 10 Tachwedd, 2015

**64.** Mewn ymateb i gyhoeddi adroddiad y Pwyllgor gwnaeth y Prif Weinidog ymddiheuriad[16] i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 26 Ionawr 2016 a dywedodd:

> *"Mae'n gywir dweud bod y modd y CBCA yn cael ei reoli yn disgyn yn llawer is na'r safonau a byddem yn disgwyl fel Llywodraeth, ac am hynny mae'n ddrwg gennym."*

**65.** Derbyniodd ymateb Llywodraeth Cymru bob un o'n 17 o argymhellion yn llawn. Mae hyn yn arbennig o galonogol o ystyried difrifoldeb ein casgliadau cyffredinol, a oedd yn adlewyrchu digwyddiadau ymhellach yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys tystiolaeth o'r adeg y gwerthodd y prynwr yr asedau wedi hynny. At hynny, rydym yn nodi, mewn ymateb i'n gwaith, y datganiad a'r ymddiheuriad gan y Prif Weinidog i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ionawr 2016, y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn camau cyfreithiol yn erbyn rheolwr y Gronfa, Lambert Smith Hampton (mewn ymateb uniongyrchol i argymhelliad 13), ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i adolygu lle gallai fod angen cymryd camau cyfreithiol pellach.

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion ein hymchwiliad ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio os bydd ymchwiliadau yn y dyfodol yn nodi gwendidau tebyg yn nhrefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu a gweinyddu, gwaredu asedau cyhoeddus neu oruchwylio cyrff hyd braich. Rydym yn argymell hefyd bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn craffu ar effeithiolrwydd camau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'n hadroddiad, er mwyn bodloni ei hun a hefyd er mwyn cael sicrwydd ar ran y cyhoedd na fydd y materion yn achos Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio yn codi eto.

## Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

### Proses gaffael Llywodraeth Cymru a’r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen

**66.** Edrychodd yr ymchwiliad hwn ar yr amgylchiadau ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru yn 2007 i brynu'r hen Westy River Lodge am £1.6 miliwn ac i ymrwymo i gytundeb prydles â sefydliad o’r enw Powys Fadog yn 2009 (a oedd wedyn yn methu cyflawni amodau ei gytundeb prydles). Dangosodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y mater hwn fod yr eiddo yn parhau i fod yn wag ac wedi mynd yn adfeiliedig bum mlynedd ar ôl ei gaffael. Parhaodd Llywodraeth Cymru i ysgwyddo'r costau a oedd yn gysylltiedig â pherchnogaeth, ac ni chafodd unrhyw beth yn ôl am ei buddsoddiad sylweddol yn yr eiddo.

**67.** Nododd ein hadroddiad bryderon sylweddol ynghylch trefniadau llywodraethu o ran penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn. Roedd rhai o'r materion cyffredinol yn ein hargymhellion yn cynnwys: sut i ymgymryd â gwariant diwedd blwyddyn, natur ac ansawdd cyfathrebu mewnol (rhwng swyddogion/adrannau a chyda Gweinidogion), a sut y mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at fyrddau allanol ac yn ymdrin â gwrthdaro buddiannau posibl.

[16] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 26 Ionawr 2016

**68.** Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ceisio adolygu llawer o'i threfniadau llywodraethu a'i phrosesau rheoli ers y gwnaed yr amryw benderfyniadau mewn perthynas â phrosiect Gwesty River Lodge yn wreiddiol. Fodd bynnag, nid ydym wedi'n hargyhoeddi o hyd y byddai prosesau diwygiedig Llywodraeth Cymru o reidrwydd yn arwain at ganlyniadau gwahanol pe bai materion tebyg yn codi eto. Fel y nodwyd uchod, rydym wedi gwneud cymariaethau yn ein hadroddiad diweddar ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio â rhai o'r materion a gododd yn ein hymchwiliad ar Westy River Lodge.

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion ein hymchwiliad ar Westy River Lodge, Llangollen, os bydd ymchwiliadau yn y dyfodol yn nodi gwendidau tebyg yn nhrefniadau Llywodraeth Cymru o ran llywodraethu a gweinyddu.

### Bwrdd draenio mewnol gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllŵg

**69.** Cynhaliwyd ein hymchwiliad i faterion ynghylch Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg wedi i adroddiad er budd y cyhoedd gael ei gyhoeddi gan Archwilydd Penodedig y Bwrdd Draenio. Tynnodd yr adroddiad hwn sylw at fethiant yn y trefniadau llywodraethu, a diffygion o ran arferion rheoli a rheolaeth fewnol y Bwrdd Draenio. Mynegodd ein hadroddiad ym mis Hydref 2013 bryderon ynghylch atebolrwydd byrddau draenio yn gyffredinol, eglurder o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau a rhai o'r materion llywodraethu penodol a godwyd mewn perthynas â'r bwrdd draenio penodol hwn. Arweiniodd canfyddiadau ein gwaith at rai argymhellion ehangach i sicrhau bod trefniadau craffu cyrff cyhoeddus bach eraill hefyd yn addas at y diben.

**70.** Rydym yn ymwybodol bod digwyddiadau dilynol wedi goddiweddyd ein hargymhellion ynghylch atebolrwydd a goruchwyliaeth byrddau draenio mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru. Roeddem yn ymwybodol adeg ein hadroddiad bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau i Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar 1 Ebrill 2015, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru swyddogaethau'r tri bwrdd draenio mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru i Cyfoeth Naturiol Cymru. Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol 'Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru' ym mis Chwefror 2016 adborth cadarnhaol iawn gan randdeiliaid ynghylch y gwaith o reoli hyn.

**71.** Er ein bod yn croesawu'r adroddiad gan Archwilydd Penodedig y Bwrdd Draenio, nodwyd ein pryder nad oedd gwaith archwilio mewn blynyddoedd blaenorol wedi rhoi sylw i rai o'r materion a gododd yn yr adroddiad. Felly, cymerwyd tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad gan yr Archwilydd Penodedig ac aelodau eraill o staff Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch sut caiff cyrff bach eu harchwilio. Clywyd am newidiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r perwyl hwn, a chafwyd diweddariad gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ddechrau 2014. Rydym hefyd yn ymwybodol y tynnodd adroddiadau diweddar yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion sy'n codi o archwilio cynghorau tref a chymuned sylw at newid mewn dulliau archwilio o archwiliad 2015-16 ymlaen. O ganlyniad, bydd archwilwyr yn ystyried materion llywodraethu thematig.

**Argymhelliad 20.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael diweddariad pellach gan yr Archwilydd Cyffredinol am y newidiadau a wnaed i'r dull archwilio ar gyfer cyrff bach, yn enwedig yng nghyd-destun y gwaith o archwilio cynghorau tref a chymuned, a hynny ar ôl cwblhau archwiliadau 2015-16 ac unrhyw adroddiadau cryno ar y gwaith hwnnw.

## Glastir

**72.** Bwriad cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir oedd gwella cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau amgylcheddol ar ffermydd yng Nghymru. Cyhoeddodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd adroddiad ar Glastir ym mis Hydref 2012, a chynhaliwyd ymchwiliad byr ar y pwnc hwn yn dilyn adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi 2014. Roedd ein hadroddiad yn cynnwys materion yn ymwneud ag effaith Glastir o ran newid arferion ar ffermydd sy'n rhan o'r cynllun, gan gynnwys materion ansawdd dŵr, gweinyddiaeth gyffredinol y cynllun, gan gynnwys costau gweinyddu, a'r cyfraddau cyfranogi, pennu targedau, a monitro a gwerthuso.

**73.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru ein hargymhelliad y dylai ystyried dadgyfuno costau gweinyddu Glastir oddi wrth gostau gweinyddu cynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn fwy cyffredinol. Yn wreiddiol, mewn ymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol, dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai hyn yn ymarferol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ein hargymhellion eraill yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fynnu ei bod yn briodol mewn rhai achosion defnyddio elfen Glastir Uwch i ariannu rhai gweithgareddau sy'n helpu i gynnal cynefinoedd gwerth uchel a fyddai fel arall mewn perygl o gael eu colli, heb sicrhau gwelliant uniongyrchol o reidrwydd.

**74.** Rhoddodd Llywodraeth Cymru nifer o ddiweddariadau pellach a phwyntiau o eglurhad i ni yn dilyn ei hymateb cychwynnol i'n hargymhellion ym mis Mai 2015. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau y bydd yn rhoi diweddariad ar ganfyddiadau rhaglen monitro a gwerthuso Glastir yn hydref 2016.

**Argymhelliad 21.** Rydym yn argymell, yn ogystal â'r diweddariad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i addo ar ganfyddiadau rhaglen monitro a gwerthuso Glastir, fod y pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad pellach ar ei hymateb i'n hargymhellion blaenorol. Rydym hefyd yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn trafod unrhyw gynlluniau ar gyfer gwaith craffu pellach gyda'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

## Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf

**75.** Canolbwyntiodd ein hymchwiliad ar ddatblygu a chyflwyno'r contract 'Cyflymu Cymru' rhwng Llywodraeth Cymru a BT. Mae'r contract hwn yn elfen allweddol o ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddarparu mynediad at wasanaethau band eang 'cyflym iawn' neu 'genhedlaeth nesaf' i holl gartrefi a busnesau Cymru.

**76.** Nododd ein hadroddiad gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol bod cynnydd rhesymol yn cael ei wneud o ran cyflwyno Cyflymu Cymru, er bod angen rhoi mynediad o hyd i sawl eiddo 'anodd eu cysylltu'. Roeddem hefyd yn cydnabod bod rhai gwersi cadarnhaol i'w dysgu yn sgil cynllunio a rheoli'r contract Cyflymu Cymru ac roedden yn argymell y dylid cofnodi a rhannu'r gwersi hyn ar draws Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roeddem yn adlewyrchu pryderon ynghylch cyfathrebu â deiliaid tai a pherchnogion busnes am yr amserlenni cyflwyno. Roeddem hefyd yn annog rhagor o waith i hyrwyddo defnydd a gwireddu buddion (sef cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru sydd y tu allan i'r contract gyda BT).

**77.** Roeddem yn pryderu am yr effaith y byddai estyniad contract diweddar i gynnwys eiddo ychwanegol yn ei chael ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r rhaglen i eiddo a oedd yn rhan o'r contract gwreiddiol ond oedd hyd yma yn methu cael gwasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf. Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio i ni y bydd yr amserlenni ar gyfer darparu i rai

eiddo yn newid yn anochel, a hynny oherwydd penderfyniadau ar y ffordd fwyaf effeithlon o ddarparu, gan ystyried yr eiddo newydd sy'n rhan o'r estyniad i'r contract.

**Argymhelliad 22.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried casglu tystiolaeth bellach gan Lywodraeth Cymru a BT yn hydref 2016 ar sail y diweddariad y maent wedi'i addo ynghylch cyflwyno contract Cyflymu Cymru, ac ar ôl trafod gyda'r Archwilydd Cyffredinol ei gynlluniau ar gyfer unrhyw waith dilynol pellach.

### Maes awyr Caerdydd

**78.** Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i ganfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch Llywodraeth Cymru yn Caffael a Pherchnogi Maes Awyr Caerdydd, gan ymchwilio'n benodol i rôl Llywodraeth Cymru yn nhrefniadau llywodraethu'r broses ar ôl caffael, cynnydd masnachol a'r datblygiad ehangach a gwireddu manteision a allai ddod i economi Cymru yn sgil y caffaeliad.

**79.** Daeth ein hadroddiad i'r casgliad bod gan Lywodraeth Cymru sail resymegol glir dros brynu'r maes awyr, a bod achos clir dros ymyrryd i helpu i sicrhau newid mewn perchenogaeth i fodloni amcanion polisi ehangach sy'n cydnabod pwysigrwydd strategol y maes awyr i'r economi ehangach. Daethpwyd i'r casgliad hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi negodi pris prynu a oedd wedi'i lywio gan amcangyfrif yng ngwerth y maes awyr fel ased cyhoeddus ac amrywiaeth o brisiadau masnachol.

**Argymhelliad 23.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar weithredu'n hargymhellion.

### Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru

**80.** Ystyriodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y ffordd y cafodd y Gronfa ei sefydlu, ei llywodraethu, ei goruchwylio a'i gweithredu'n gynnar, ac ymchwiliodd a wnaeth Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru sefydlu'r Gronfa a goruchwylio ei gweithrediadau cychwynnol (gan gynnwys ei thri buddsoddiad cyntaf) yn effeithiol.

**Argymhelliad 24.** Clywsom dystiolaeth ar 8 Mawrth 2016 gan Lywodraeth Cymru a Cyllid Cymru, ac rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn amlinellu ein canfyddiadau cychwynnol. Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cynnal ymchwiliad manylach i Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru yn gynnar yn y Pumed Cynulliad.

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai.

**81.** Yr adroddiad ynghylch arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai oedd ein hadroddiad cyntaf yn y Pedwerydd Cynulliad. Nodwyd rhywfaint o dystiolaeth o welliant o ran arlwyo mewn ysbytai dros y deng mlynedd flaenorol. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig bod amrywiaeth eang yn y costau, y gwaith cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau arlwyo ar draws sefydliadau'r GIG yng Nghymru o hyd, yn arbennig o ystyried pwysigrwydd maeth da o ran helpu cleifion i wella. Ymhlith pethau eraill, roeddem yn pwysleisio na ddylid defnyddio polisïau 'gwarchod amser bwyd' i atal perthnasau a gofalwyr rhag darparu cymorth gyda bwyta.

**82.** Roeddem hefyd yn craffu ar gynnydd o ran gweithredu argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ar y pwnc hwn, gan dderbyn diweddariadau ysgrifenedig a chymryd tystiolaeth lafar bellach gan Lywodraeth Cymru sawl gwaith drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad. Roedd y meysydd o bryder sy'n weddill yn cynnwys y cynnydd o ran cyflwyno e-ddysgu ar Lwybr Gofal Maeth Cymru Gyfan a Siart Cofnod Bwyd Cymru Gyfan, datblygu system TG arlwyo genedlaethol a threfniadau ar gyfer gwaredu gwastraff bwyd. Gan ddefnyddio gwaith archwilio lleol i fynd ar drywydd argymhellion blaenorol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn paratoi memorandwm a fydd yn crynhoi'r cynnydd a wnaed.

**Argymhelliad 25.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried diweddariad arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn gynnar yn y Pumed Cynulliad.

### Gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru

**83.** Roedd yr ymchwiliad hwn yn parhau â gwaith gan y Pwyllgor oedd yn ein rhagflaenu yn y Trydydd Cynulliad. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol ddiweddariad ar gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol, ar ôl cwblhau rhywfaint o waith archwilio lleol pellach. Cynhaliwyd ein hymchwiliad yn fuan wedi i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc [bryd hynny] gyflwyno'i adroddiad ar yr 'Ymchwiliad i Ofal Newyddenedigol' y mae ein hadroddiad yn cyfeirio ato. Roeddem yn cydnabod y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â rhai o'r argymhellion blaenorol. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu ynghylch pa mor gyflym y mae pethau'n gwella a bod angen mwy o frys wrth wneud y newidiadau sydd eu hangen o ran darparu gwasanaethau, yn enwedig o ran materion staffio, monitro a rheoli perfformiad, a chasglu data. Clywyd am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gryfhau monitro perfformiad ac am ddatblygiad parhaus cynlluniau cyflenwi gan y byrddau iechyd unigol. Hefyd, cymerwyd tystiolaeth am waith 'Grŵp Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth Cymru Gyfan' a sefydlwyd ddiwedd 2011 er mwyn bwrw ymlaen â gweledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau mamolaeth. Cwblhaodd y Grŵp Gweithredu ei waith yn ystod gwanwyn 2013, a sefydlwyd 'Bwrdd Cyflawni Cenedlaethol' newydd ar gyfer gwasanaethau mamolaeth i gefnogi cynnydd.

**84.** Ddiwedd 2013, cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar faterion yn deillio o gyfarfodydd ei 'Bwrdd Perfformiad Mamolaeth' gyda phob bwrdd iechyd yn hydref 2013. Rhannwyd y wybodaeth hon gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Nid ydym wedi dychwelyd at y mater hwn ers hynny, ond rydym wedi ystyried pryderon ynghylch ansawdd, diogelwch a chynaliadwyedd gwasanaethau mamolaeth fel rhan o'n gwaith ar faterion llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Argymhelliad 26.** Gan ystyried unrhyw waith sydd ar y gweill gan yr Archwilydd Cyffredinol a/neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ymgysylltu â'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Pumed Cynulliad i benderfynu ar y ffordd orau o wneud unrhyw waith craffu pellach ar wasanaethau mamolaeth.

### Y contract meddygon ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran sicrhau'r manteision a fwriadwyd

**85.** Roedd ein hymchwiliad yn cydnabod bod contract meddygon ymgynghorol y GIG yng Nghymru, a gyflwynwyd yn 2003, wedi helpu i recriwtio a chadw staff yn well. Fodd bynnag, nid oedd manteision eraill a fwriadwyd wedi cael eu gwireddu'n llawn, er enghraifft o ran bod y contract yn helpu i foderneiddio'r gwasanaeth yn ehangach. Tynnodd ein hymchwiliad sylw at

wendidau yn y ffordd y defnyddir prosesau cynllunio swyddi, sydd yn ein barn ni yn cyfyngu ar allu'r byrddau iechyd i drefnu a chynllunio eu hadnoddau'n effeithiol. Gwelwyd hefyd bod cyfran sylweddol o feddygon ymgynghorol yn gweithio oriau bob wythnos y tu hwnt i'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ac roeddem yn pryderu ynghylch cynaliadwyedd y sefyllfa honno.

**86.** Galwodd ein hadroddiad ar Lywodraeth Cymru i ddarparu arweiniad mwy deinamig a strategol ar y mater hwn. I gefnogi ei hymateb i nifer o'n hargymhellion, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i oruchwylio'r gwaith o ddiweddaru canllawiau cynllunio swyddi Cymru gyfan erbyn dechrau 2014. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf flynyddol i ni fel yr addawyd ynglŷn â'i gwaith gyda'r byrddau iechyd a'r ddeoniaeth i ddatblygu a gweithredu strategaethau penodol ar gyfer recriwtio meddygon ymgynghorol arbenigol er mwyn mynd i'r afael â phrinder staff yn y gweithlu a phrinder arbenigwyr. Rydym wedi ysgrifennu yn ddiweddar at Lywodraeth Cymru i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am roi'r argymhelliad ar waith. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn ymgymryd â gwaith archwilio lleol pellach ar faterion sy'n ymwneud â gweithredu contract meddygon ymgynghorol y GIG yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar gadernid y gwaith o gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, ac mae wedi nodi y bydd yn rhoi diweddariad ar ganfyddiadau'r gwaith hwnnw.

**Argymhelliad 27.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael diweddariad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ganfyddiadau ei waith archwilio lleol diweddar ar gontract meddygon ymgynghorol y GIG, a hynny yng nghyd-destun ein hargymhellion blaenorol ar y pwnc hwn.

**87.** Fel rhan o'n gwaith ar gontract meddygon ymgynghorol y GIG, cymerwyd tystiolaeth hefyd am effaith ymarfer preifat ar oriau gwaith meddygon ymgynghorol yn y GIG, gan edrych ar effaith ymarfer preifat ar amseroedd aros. Rydym yn argymell y dylai'r Archwilydd Cyffredinol archwilio prosesau a gweithdrefnau'r byrddau iechyd ar gyfer cleifion sy'n symud rhwng ymarfer preifat a'r GIG. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei 'Adolygiad o Effaith Ymarfer Preifat ar Ddarpariaeth y GIG' ym mis Chwefror 2016. Ystyriodd yr adroddiad dystiolaeth mewn perthynas ag effaith ymarfer preifat ar amseroedd aros, yn ogystal ag effaith ehangach ymarfer preifat ar adnoddau'r GIG. Ni chawsom y cyfle i ystyried na chymryd tystiolaeth bellach ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

**Argymhelliad 28.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn cael sesiwn friffio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ei 'Adolygiad o Effaith Ymarfer Preifat ar Ddarpariaeth y GIG' er mwyn llywio penderfyniad gan y pwyllgor hwnnw ar rinweddau unrhyw waith craffu pellach.

### Cyllid Iechyd (a pherfformiad gwasanaethau)

**88.** Rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad annibynnol ar gyllid iechyd, ym mis Chwefror 2013 a mis Mawrth 2014, gan adeiladu ar y sylwadau a'r argymhellion ar gyllid iechyd yn ein hadroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' ym mis Ebrill 2012 a defnyddio adroddiadau perthnasol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae ein hadroddiadau wedi ymdrin ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y berthynas rhwng y sefyllfa ariannol a materion yn ymwneud â pherfformiad gwasanaethau. Un datblygiad allweddol yn ystod cwrs ein gwaith oedd cyflwyno fframwaith cynllunio integredig tair blynedd newydd ar gyfer cyrff y GIG drwy Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r hyn rydym wedi bod yn galw amdano, sef mwy o hyblygrwydd

ariannol diwedd blwyddyn. Serch hynny, roedd ein hadroddiad ym mis Mawrth 2014 yn nodi bod ariannu GIG Cymru yn parhau i fod yn her enfawr.

**89.** Cymerwyd tystiolaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2014 wedi i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad pellach 'GIG Cymru: Trosolwg o Berfformiad Ariannol a Pherfformiad Gwasanaethau 2013-14'. Yn ein hadroddiad ym mis Chwefror 2016 ynghylch 'Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr', roeddem yn cydnabod na fydd cylch tair blynedd llawn cyntaf y fframwaith cynllunio newydd yn cael ei gwblhau tan 31 Mawrth 2017. Fodd bynnag, mynegwyd pryder bod rhai byrddau iechyd yn debygol o drosglwyddo diffygion wedi'u cronni i flwyddyn ariannol 2016-17 (blwyddyn 3), ac nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod y broses o gynllunio ariannol tair blynedd yn cyflawni'r bwriad a ddymunwyd. Roeddem felly'n ailadrodd argymhelliad 8 ein hadroddiad ym mis Mawrth 2014, a oedd yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r risgiau o gynllunio ariannol dros dair blynedd. Rydym hefyd yn nodi y tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw yn ei adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' ym mis Rhagfyr 2015 at dri chorff y GIG oedd heb gynllun tair blynedd cymeradwy ar y pryd.

**90.** Roedd ein hadroddiad ym mis Chwefror 2016 yn cydnabod bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal adolygiad o effaith Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014[17] yn ystod y Pumed Cynulliad. Rydym yn argymell y dylai'r pwyllgor sy'n ein holynu ystyried unrhyw wersi sy'n deillio o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Rydym wedi ailadrodd ac ymestyn yr argymhelliad hwnnw isod.

**Argymhelliad 29.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried unrhyw wersi sy'n deillio o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar effaith Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 ac yn defnyddio'r adroddiad hwnnw i edrych eto yn fwy cyffredinol ar faterion sy'n deillio o'n gwaith blaenorol ar gyllid iechyd.

**91.** Nododd ein hadroddiad ym mis Mawrth 2014 ar gyllid iechyd ddirywiad sy'n peri pryder o ran perfformiad yn erbyn targedau ar gyfer gofal heb ei drefnu a gofal dewisol. Er ei bod yn anodd profi cysylltiad uniongyrchol o'r dystiolaeth sydd ar gael i ni, rydym yn credu nad cyd-ddigwyddiad oedd y gydberthynas rhwng dirywiad ym mherfformiad gwasanaethau a'r cyfnod o bwysau ar gyllid. Yn ystod ein hystyriaeth o faterion sy'n gysylltiedig â chyllid iechyd, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad 'Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru' ym mis Ionawr 2015. Dangosodd yr adroddiad ddirywiad pellach mewn perfformiad a bod pwysau ar gyllid yn cyfyngu ar allu'r GIG i gynnig mynediad amserol i driniaeth ddewisol. Ym mis Chwefror a mis Tachwedd 2015, rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariadau ysgrifenedig i ni ar gynnydd yn erbyn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.

**92.** Ym mis Mehefin 2015, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol 'Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg'. Canfu'r adroddiad fod gwasanaethau orthopedeg wedi dod yn fwy effeithlon yn y degawd diwethaf. Ond daeth i'r casgliad hefyd nad yw GIG Cymru mewn sefyllfa dda i fodloni'r galw yn y dyfodol. Er y bu ffocws ar sicrhau gostyngiadau uniongyrchol mewn amseroedd aros, rhoddwyd llai o sylw ar ddatblygu atebion mwy cynaliadwy a hirdymor i ateb y galw. Ni chynhaliwyd ymchwiliad i'r adroddiad hwn, ond cawsom ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi bod rhai o'r camau y mae eisoes yn eu cymryd mewn ymateb i adroddiad yr Archwilydd

---

[17] Dedd Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014

Cyffredinol ar amseroedd aros dewisol yn berthnasol o ran mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd yn yr adroddiad ar wasanaethau orthopedeg.

**Argymhelliad 30.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried ailedrych ar y materion o amseroedd aros a gwasanaethau orthopedeg ac yn cynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru.

## Gofal iechyd parhaus y GIG

**93.** Gan ddefnyddio adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol, rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad ein hunain ar ofal iechyd parhaus y GIG. Pan gaiff unigolion eu nodi fel pobl sydd ag angen iechyd sylfaenol yn ôl eu hasesiad, byddant yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG, sy'n becyn gofal a chymorth a ddarperir i ddiwallu holl anghenion unigolion yn ôl eu hasesiad, gan gynnwys ffioedd cartref gofal os yw hynny'n berthnasol.

**94.** Roedd ein hadroddiad cyntaf ym mis Rhagfyr 2013 yn cydnabod y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd drwy Fframwaith Cenedlaethol newydd i wella'r ffordd y mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, roedd gennym bryderon sylweddol o hyd nad yw'r system yn diwallu anghenion pobl yn llawn. Rydym yn parhau i fod o'r farn y gellid ac y dylid gwneud mwy i sicrhau bod cleifion a'u hanwyliaid yn cael eu trin mewn ffordd gyson a theg wrth iddynt ymgysylltu â phroses gofal iechyd parhaus y GIG. Rydym yn credu bod yr oedi a'r caledi ariannol y mae llawer o unigolion a'u teuluoedd yn ei wynebu wrth aros am benderfyniadau ar hawliadau yn annerbyniol. Roedd ein hargymhellion yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys mynd ati ar frys i fynd i'r afael â nifer o hawliadau ôl-weithredol.

**95.** Rydym yn parhau i olrhain cynnydd yn y maes hwn a chyhoeddwyd adroddiad dilynol ym mis Mawrth 2015. Er ein bod yn cydnabod y gwnaed rhywfaint o gynnydd pellach, roeddem yn parhau i bryderu ynghylch oedi, anghysondebau posibl ym mhenderfyniadau'r byrddau iechyd, a'r gyfradd gyffredinol o ran clirio ôl-hawliadau. Hefyd, nodwyd ein pryderon am fynediad at wybodaeth am system gofal iechyd parhaus y GIG ac am ymwybyddiaeth, ansawdd a lefel y ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth.

**Argymhelliad 31.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar gamau i weithredu ein hargymhellion blaenorol ar ofal iechyd parhaus y GIG a'r cynnydd cyffredinol a wnaed i glirio hawliadau ôl-weithredol.

## Gofal heb ei drefnu

**96.** Ystyriodd ein hadroddiad ar ofal heb ei drefnu ystod eang o faterion, gan gynnwys: perfformiad cyffredinol gwasanaethau gofal heb ei drefnu, pwysau ar adrannau achosion brys, rôl gofal sylfaenol a mynediad brys ato – gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau – a'r posibilrwydd o gyd-leoli gwasanaethau meddygon teulu yn well ochr yn ochr ag adrannau achosion brys; recriwtio a chadw meddygon teulu, ymdopi â'r galw, gan gynnwys datblygu gwasanaeth 111 y GIG (sy'n cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd adeg ein hadroddiad), a materion penodol i ddiwallu anghenion pobl hŷn a bregus. Roedd y pwnc hwn hefyd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Pedwerydd Cynulliad, yn enwedig yng nghyd-destun pwysau yn y gaeaf.

**97.** Rydym yn cydnabod bod y pwysau o gyflenwi gwasanaethau gofal heb ei drefnu yng Nghymru yn gymhleth, a bod ymdrechion wedi cael eu gwneud i wella'r sefyllfa. Fodd bynnag, nid ydym

yn credu bod newidiadau wedi cael eu gwneud yn ddigon cyflym er mwyn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Tynnwyd sylw at yr angen am ddata perfformiad gwell i lywio penderfyniadau, a phwysleisiwyd pwysigrwydd datrys materion ynghylch ad-drefnu gwasanaethau ac ymdrin â phroblemau a ragwelir yn y dyfodol o ran y gweithlu meddygon teulu. Nodwyd hefyd fod gwaith i hyrwyddo'r dewisiadau sydd ar gael i'w gwneud mor hawdd â phosibl i gleifion dderbyn gwasanaethau gofal sylfaenol a lleihau'r pwysau ar adrannau achosion brys yr un mor bwysig.

**98.** Rydym wedi parhau i olrhain cynnydd o ran gweithredu ein hargymhellion drwy gyfres o ddiweddariadau ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru yn 2014 a 2015. Rydym hefyd wedi ystyried rhai materion cysylltiedig yn ystod y dystiolaeth a gymerwyd ynghylch llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn arbennig mewn perthynas â gwasanaethau y tu allan i oriau. Rydym yn deall bod yr Archwilydd Cyffredinol yn datblygu rhywfaint o waith archwilio lleol pellach ystod 2016-17 ar draws GIG Cymru, a fydd yn ystyried materion sy'n ymwneud â chomisiynu ambiwlansiau brys, gofal sylfaenol y tu allan i oriau a chynllunio ar gyfer rhyddhau. Bydd y gwaith hwnnw hefyd yn gyfle i ystyried ymateb byrddau iechyd yn lleol i argymhellion archwilio blaenorol ar ofal heb ei drefnu.

**Argymhelliad 32.** Gan ystyried y gwaith y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud fel rhan o'i raglen o waith archwilio lleol ar draws GIG Cymru, rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn trafod gyda'r Archwilydd Cyffredinol, a chyda'r pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Pumed Cynulliad, y ffordd orau o wneud unrhyw waith craffu pellach ar wasanaethau gofal heb ei drefnu.

### Trefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (a materion ehangach yn deillio o'n hymchwiliad)

**99.** Dechreuwyd edrych ar faterion ynghylch llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Gorffennaf 2013 yn dilyn adroddiad ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Roeddem yn arbennig o bryderus o weld yn yr adroddiad ar y cyd bod rhwyg yn y berthynas weithio rhwng rhai o uwch arweinwyr y Bwrdd Iechyd wedi peryglu ei drefniadau llywodraethu ac yn ei gwneud yn anoddach i nodi materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch gofal cleifion yn briodol. Cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf ar y pwnc hwn ym mis Rhagfyr 2013, a wnaeth amrywiaeth eang o argymhellion sy'n benodol i'r sefyllfa ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac ar faterion ehangach sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu ar draws GIG Cymru.

**100.** Aethom ati i fonitro'n agos sut y mae'r argymhellion yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2013 yn cael eu gweithredu drwy dderbyn diweddariadau ysgrifenedig a llafar rheolaidd gan y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru, ac ystyried adroddiadau pellach gan yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Rhoddodd y gwaith monitro hwn y cyfle i ni ystyried y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb i'r ffaith y cafodd ei roi o dan fesurau arbennig ym mis Mehefin 2015 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ers hynny bod y cyfnod o fesurau arbennig yn debygol o bara tan fis Hydref 2017 o leiaf.

**101.** Yn ystod ein gwaith, penderfynwyd edrych yn fwy cyffredinol ar drefniadau llywodraethu ar draws GIG Cymru ac aethom ar drywydd materion yn codi o'r adolygiad annibynnol 'Ymddiried mewn Gofal' o Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014. Fel rhan o'r gwaith hwn, trafodwyd memorandwm gan yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau llywodraethu'r GIG, a chymerwyd tystiolaeth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

ar ei rôl o ran trefniadau llywodraethu'r bwrdd iechyd a'r gydberthynas â'r byrddau iechyd a Chynghorau Iechyd Cymuned.

**102.** Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddwyd ein hadroddiad pellach ynghylch 'Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr', a dynnodd dystiolaeth ynghyd o'n gwaith craffu yn ystod 2014 a 2015. Gwnaethom amrywiaeth eang o argymhellion pellach, ac rydym wedi cyfeirio at rai ohonynt yn y sylwebaeth gynharach yn yr adroddiad hwn ar gyllid iechyd. Adeg ysgrifennu'r adroddiad etifeddiaeth hwn, nid ydym wedi cael ymateb hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru i'n hargymhellion. Rydym yn argymell y dylai'r pwyllgor sy'n ein holynu fonitro hynt gwaith y Bwrdd Iechyd yn y Pumed Cynulliad. Rydym wedi ailadrodd ac ymestyn yr argymhelliad hwnnw isod.

**Argymhelliad 33.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn monitro cynnydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod y cyfnod o fesurau arbennig, gan gynnwys gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau, ac yn ystyried clywed tystiolaeth lafar bellach gan y Bwrdd Iechyd yn ystod gwanwyn 2017.

**Argymhelliad 34.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy’n ein holynu yn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn ein hadroddiad 'Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr' ym mis Chwefror 2016, ac yn mynd ar drywydd sut y mae camau cysylltiedig yn cael eu rhoi ar waith yn rheolaidd.

# Deddfwriaeth a drafodwyd gan y Pwyllgor

**103.** Cyflwynwyd Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) gan Lywodraeth Cymru yn ystod tymor yr haf 2012, ac fe'i cyfeiriwyd at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at ddibenion craffu. Aeth y Bil ar ei daith drwy'r cyfnodau gwahanol, a rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ar 29 Ebrill 2013.[18]

**104.** Bwriad Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yw cryfhau a gwella'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru a gwarchod annibyniaeth a gwrthrychedd yr Archwilydd ar yr un pryd. Mae'r trefniadau newydd hyn wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2014.

**105.** Er mwyn cyflawni'r amcanion polisi hyn, mae'r Bil yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn mewn tair Rhan:

– Mae **Rhan 1** o'r Ddeddf yn ymwneud â swydd yr Archwilydd a'i swyddogaethau cyffredinol. Mae'n darparu bod swydd yr Archwilydd yn parhau fel corfforaeth undyn a bod yr Archwilydd yn cael ei benodi gan y Frenhines ar enwebiad y Cynulliad. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaeth a fydd yn sefydlu trefniadau ar gyfer penodi i'r swydd honno, terfynu cyflogaeth y person a'i anghymhwyso rhag gwneud y swydd, a'i ddeiliadaeth. Yn benodol, mae'r Ddeddf yn datgan y gall Archwilydd fod yn y swydd am wyth mlynedd ar y mwyaf ac mai dim ond unwaith y gall un person fod yn y swydd.

**106.** Mae'r rhan hon hefyd yn diogelu'n benodol annibyniaeth yr Archwilydd ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad, a hynny drwy roi rhyddid llwyr iddo mewn perthynas â sut y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth i ddatgan mai'r Archwilydd fydd yr archwilydd statudol ar gyfer cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Roedd y ddeddfwriaeth flaenorol yn gosod gofyniad ar yr Archwilydd i benodi'r archwilwyr statudol ac i oruchwylio eu gwaith.

– Mae **Rhan 2** yn darparu ar gyfer sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru yn gorff corfforaethol â naw aelod iddo, sy'n gyfrifol am ddarparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Ddeddf yn gwahanu cyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru oddi wrth gyfrifoldebau'r Archwilydd yn ffurfiol. Mae pump o aelodau'r Swyddfa yn aelodau anweithredol a gaiff cael eu penodi gan y Cynulliad mewn cystadleuaeth agored a theg. Yr aelodau eraill yw'r Archwilydd (sef Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru hefyd) a thri aelod arall o blith gweithlu'r Swyddfa. Mae'r Archwilydd yn argymell un o'r rhain i'r aelodau anweithredol ei benodi, ac mae'r ddau arall yn cael eu penodi yn dilyn pleidlais ymhlith y staff. Mae'r Swyddfa yn gyfrifol am y swyddogaethau cyflogaeth, ariannol a gweinyddol a oedd yn nwylo'r Archwilydd yn flaenorol, gyda'r bwriad o sicrhau na fydd pwerau o'r fath yn parhau i fod yn nwylo un unigolyn yn unig.

**107.** Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd a'r Swyddfa Archwilio baratoi ar y cyd amcangyfrif blynyddol o incwm a gwariant i'w ystyried gan y Cynulliad, a'i gynnwys yng nghynnig cyllideb blynyddol y Cynulliad. Hefyd, mae'n ofynnol ar y Swyddfa Archwilio, ynghyd â'r Archwilydd, i lunio cynllun blynyddol y byddant ill dau yn gorfod rhoi sylw iddo wrth arfer eu swyddogaethau. Bydd y cynllun hwn yn amlinellu'r rhaglenni gwaith y mae'r Swyddfa Archwilio a'r Archwilydd yn bwriadu eu dilyn, yr adnoddau sydd ar gael a sut y byddant yn cael eu

[18] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

defnyddio. Yna, mae'n ofynnol i'r Swyddfa Archwilio a'r Archwilydd gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad a pharatoi adroddiad interim ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun o leiaf unwaith yn ystod pob blwyddyn ariannol.  Ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldeb dros graffu ar yr amcangyfrifon a'r cynlluniau hyn yn nwylo Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

– Mae **Rhan 3** yn cynnwys darpariaethau cyffredinol a chanlyniadol mewn perthynas â swyddogaethau'r Cynulliad sy'n ei alluogi i wneud darpariaethau, ar sail y Rheolau Sefydlog, ar gyfer y swyddogaethau a roddwyd iddo yn y Ddeddf mewn perthynas â'r Archwilydd a'r Swyddfa Archwilio. Mae'r Rhan hon hefyd yn amlinellu darpariaethau cychwyn y Ddeddf a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth.

Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd angen penodi Archwilydd Cyffredinol newydd i Gymru yn 2017/18 a bydd y pwyllgor sy'n ein holynu yn cymryd rhan yn y penodiad hwn.

Rydym hefyd yn nodi y bydd penodiadau i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn digwydd yn 2017/18, a bydd y pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor Cyllid yn cymryd rhan yn y broses hon.

# Edrych tuag at y Pumed Cynulliad

**108.** Wrth edrych yn ôl ar ein gwaith dros y pum mlynedd ddiwethaf, rydym wedi nodi'r materion canlynol y gallai'r pwyllgor sy'n ein holynu eu hystyried.

## Amserlen y Pwyllgor

**109.** Rydym yn nodi ein pryderon ynghylch amserlennu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r cyfyngiadau yn sgil hyn o ran craffu effeithiol ac ymgymryd â busnes y Pwyllgor. Rydym yn pwysleisio mai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw'r unig bwyllgor sy'n ofynnol yn ôl statud, ac felly dylai gael yr un statws â'r prif bwyllgorau yn amserlen y Pwyllgorau.

## Trefniadau ar gyfer ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

**110.** Yn ystod y Cynulliad hwn, mae'r Pwyllgor wedi canfod, gan ddilyn cyngor yr Archwilydd Cyffredinol, fod angen i ni fynd ar drywydd materion gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cael eglurder ar amryw faterion yn ymwneud â'i hymateb i argymhellion yn adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol. Mae materion o'r fath yn cynnwys amserlenni ar gyfer gweithredu, dehongliad Llywodraeth Cymru o'r argymhellion, eglurhad o ran a yw argymhellion wedi'u derbyn yn wirioneddol, neu mewn rhai achosion herio'r ffaith eu bod wedi cael eu gwrthod/eu derbyn yn rhannol.

**111.** Gallai'r pwyllgor sy'n ein holynu ystyried y trefniadau hyn, a phennu amserlen benodol drwy drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb ar ôl cyhoeddi adroddiad gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol yn hytrach nag aros am gais gan y Pwyllgor. O ystyried bod adroddiadau o'r fath yn destun proses glirio ffurfiol, dylai Llywodraeth Cymru allu ymateb yn fuan, a gallai hyn gyflymu proses y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o ran penderfynu ar y camau y bydd yn eu cymryd ei hun.

## Blaenraglen waith

**112.** Mae ein hadroddiad etifeddiaeth yn nodi nifer o faterion sy'n weddill y gallai'r pwyllgor sy'n ein holynu fynd ar eu trywydd a dychwelyd atynt. Yn ein pennod ar ymchwiliadau a gynhaliwyd gennym, rydym wedi tynnu sylw at unrhyw ddiweddariadau sy'n codi o'n gwaith y dylid eu rhoi i'r pwyllgor sy'n ein holynu. At hynny, ni chafodd yr adroddiadau canlynol a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol tuag at ddiwedd y Cynulliad hwn eu hystyried yn fanwl gennym, a gall fod cyfleoedd i'r pwyllgor sy'n ein holynu eu hystyried:

- Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015
- Adolygiad o Effaith Ymarfer Preifat ar Ddarpariaeth y GIG
- Theatrau Llawdriniaethau: Crynodeb o Ganfyddiadau Archwiliadau Lleol
- Cyfoeth Naturiol Cymru[19]
- Unrhyw adroddiad arall a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru rhwng cyhoeddi'r adroddiad hwn a sefydlu'r pwyllgor sy'n ein holynu.[20]

---

[19] Cytunodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar hyn o bryd, mewn egwyddor, i gynnal ymchwiliad ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn
[20] Mawrth 2016

**113.** Yn ogystal, efallai y bydd cyfleoedd i'r pwyllgor sy'n ein holynu ystyried papurau briffio a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar eitemau o ohebiaeth sydd wedi cael eu cyfeirio ato:

- Awdurdodau lleol Cymru yn darparu taliadau uniongyrchol i oedolion (Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn paratoi memorandwm a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor sy'n ein holynu ar ei raglen waith, effaith y gwaith blaenorol a meysydd ychwanegol y gallai'r Pwyllgor newydd fynd ar eu trywydd).

**114.** At ei gilydd, rydym yn rhagweld y bydd hyn yn ddefnyddiol i'r pwyllgor sy'n ein holynu sefydlu ei raglen waith ei hun.

# Atodiad A

| Ymchwiliad | Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai | **Ymateb** |
| Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus | **Ymateb** |
| Cynnydd o Ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru | **Ymateb** |
| Cyllid Iechyd | **Ymateb** |
| Gwasanaethau Mamolaeth | **Ymateb** |
| Gwesty River Lodge, Llangollen | **Ymateb** |
| Rheoli Grantiau yng Nghymru: Adroddiad Interim | **Ymateb** |
| Rheoli Grantiau yng Nghymru: Adroddiad Terfynol | **Ymateb** |
| Argyfyngau Sifil yng Nghymru | **Ymateb** |
| Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd | **Ymateb** |
| Gwaith Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori | **Ymateb** |
| Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllŵg | **Ymateb** |
| Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG<br>Adroddiad dilynol | **Ymateb**<br>**Ymateb** |
| Trefniadau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | **Ymateb** |
| Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt | **Ymateb** |
| Gofal heb ei drefnu | **Ymateb** |
| Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon | **Ymateb** |
| Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn - Adroddiad Interim (Gorffennaf 2014)<br>Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn - Adroddiad Terfynol (Gorffennaf 2015) | **Ymateb**<br>**Ymateb** |

| Ymchwiliad | Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Cyflogau Uwch Reolwyr | **Ymateb** |
| Glastir | **Ymateb** |
| Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr 2013-14 | **Ymateb** |
| Cyllid Iechyd 2013-2014[21] | |
| Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd | **Ymateb** |
| Ymateb i Ddiwygio Lles yng Nghymru | **Ymateb** |
| Cwrdd â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru[22] | |
| Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf | **Ymateb** |
| **Craffu ar Gyfrifon** | |
| 2013 - 2014 | **Ymateb** |
| 2014 - 2015 | **Ymateb** |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio | **Ymateb** |
| Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr[23] | |
| Maes awyr Caerdydd[24] | |



[21] Mae barn y Pwyllgor ynghylch cyllid iechyd 2013-14 i'w gweld yn **Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**, Chwefror 2016

[22] Nid oedd y Pwyllgor wedi adrodd yn ffurfiol ar hyn, mae'n cyfleu ei ganfyddiadau drwy ohebiaeth.

[23] Ar adeg cyhoeddi nid oedd y Pwyllgor wedi derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru, bydd hyn yn cael ei gyhoeddi ar y dudalen ymchwiliad ar ôl derbyn.

[24] Ar adeg cyhoeddi nid oedd y Pwyllgor wedi derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru, bydd hyn yn cael ei gyhoeddi ar y dudalen ymchwiliad ar ôl derbyn.

# Atodiad B

| Ymchwiliad | Dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad | Nifer yr argymhellion | Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai | Chwefror 2012 | 7 | **Ymateb**<br>6 o argymhellion wedi'u derbyn<br>Argymhelliad 3 wedi'i dderbyn yn rhannol. | Wedi'i gwblhau |
| Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus | Ebrill 2012 | 11 | **Ymateb**<br>Yr holl argymhellion wedi'u derbyn. | Wedi'i gwblhau |
| Cynnydd o Ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru | Medi 2012 | 11 | **Ymateb**<br>8 o argymhellion wedi'u derbyn<br>Argymhellion 2, 3 a 5 wedi'u derbyn mewn egwyddor. | Wedi'i gwblhau |
| Cyllid Iechyd | Chwefror 2013 | 12 | **Ymateb**<br>9 o argymhellion wedi'u derbyn<br>Argymhellion 3, 6 a 7 wedi'u derbyn mewn egwyddor. | Wedi'i gwblhau |
| Gwasanaethau Mamolaeth | Chwefror 2013 | 12 | **Ymateb**<br>11 o argymhellion wedi'u derbyn<br>Argymhelliad 11 wedi'i dderbyn yn rhannol. | Wedi'i gwblhau |
| Gwesty River Lodge, Llangollen | Mehefin 2013 | 21 | **Ymateb**<br>20 o argymhellion wedi'u derbyn.<br>Argymhelliad 2 wedi'i dderbyn mewn egwyddor. | Wedi'i gwblhau |
| Rheoli Grantiau yng Nghymru | Mehefin 2013 | 18 | **Ymateb**<br>Yr holl argymhellion wedi'u derbyn<br>. | Wedi'i gwblhau |

| Ymchwiliad | Dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad | Nifer yr argymhellion | Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Argyfyngau Sifil yng Nghymru | Gorffennaf 2013 | 14 | **Ymateb**<br>10 o argymhellion wedi'u derbyn. Argymhellion 4, 5, 8 a 13 wedi'u derbyn yn rhannol. | Wedi'i gwblhau |
| Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd | Medi 2013 | 9 | **Ymateb**<br>8 o argymhellion wedi'u derbyn Roedd argymhelliad 6 wedi'i gyfeirio at Archwilydd Cyffredinol Cymru | Wedi'i gwblhau |
| Gwaith Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori | Medi 2013 | 12 | **Ymateb**<br>Yr holl argymhellion wedi'u derbyn. | Wedi'i gwblhau |
| Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllŵg | Hydref 2013 | 16 | **Ymateb**<br>9 o argymhellion wedi'u derbyn Argymhellion 1 a 4 wedi'u derbyn mewn egwyddor. Argymhellion 8 a 10 wedi'u derbyn yn rhannol. Roedd argymhelliad 7 wedi'i gyfeirio at y Byrddau Draenio Mewnol; roedd argymhelliad 9 wedi'i gyfeirio at awdurdodau lleol; ac roedd argymhelliad 14 wedi'i gyfeirio at Archwilydd Cyffredinol Cymru. | Wedi'i gwblhau |
| Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG | Rhagfyr 2013 | 10 | **Ymateb**<br>7 o argymhellion wedi'u derbyn. Argymhellion 4, 8 a 10 wedi'u derbyn yn rhannol. | Wedi'i gwblhau |
| Adroddiad dilynol | Mawrth 2015 | 9 | **Ymateb**<br>Yr holl argymhellion wedi'u derbyn. | |

Tudalen y pecyn 56

| Ymchwiliad | Dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad | Nifer yr argymhellion | Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Rhagfyr 2013 | 21 | **Ymateb**<br>Yr holl argymhellion wedi'u derbyn. | Wedi'i gwblhau |
| Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt | Mawrth 2014 | 12 | **Ymateb**<br>Yr holl argymhellion wedi'u derbyn. | Wedi'i gwblhau |
| Gofal heb ei drefnu | Ebrill 2014 | 19 | **Ymateb**<br>16 o argymhellion wedi'u derbyn. Argymhellion 1, 8 ac 11 wedi'u derbyn yn rhannol. | Wedi'i gwblhau |
| Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon | Mai 2014 | 14 | **Ymateb**<br>6 o argymhellion wedi'u derbyn Argymhellion 1, 2, 4, 6, 10, 13 a 14 wedi'u derbyn mewn egwyddor. Gwrthodwyd argymhelliad 3. | Wedi'i gwblhau |
| Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn - Adroddiad Interim | Gorffennaf 2014 | 9 | **Ymateb**<br>8 o argymhellion wedi'u derbyn. Argymhelliad 6 wedi'i dderbyn mewn egwyddor. | Wedi'i gwblhau |
| Cyflogau Uwch Reolwyr | Tachwedd 2014 | 23 | **Ymateb Llywodraeth Cymru**<br>Yr holl argymhellion wedi'u derbyn. | Wedi'i gwblhau Argymhelliad wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Etifeddiaeth fel y gall y pwyllgor sy'n ein holynu ei fonitro |

| Ymchwiliad | Dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad | Nifer yr argymhellion | Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Glastir | Mawrth 2015 | 8 | **Ymateb**<br>6 o argymhellion wedi'u derbyn. Argymhellion 1 ac 8 wedi'u derbyn yn rhannol. | Wedi'i gwblhau |
| Craffu ar Gyfrifon 2013-14 | Mawrth 2015 | 9 | **Ymateb**<br>6 o argymhellion wedi'u derbyn. Roedd argymhellion 4, 7 a 9 ar gyfer cyrff eraill. | Wedi'i gwblhau |
| Cyllid Iechyd 2013-2014 | Mai 2015 | 12 | **Ymateb**<br>Yr holl argymhellion wedi'u derbyn. | Wedi'i gwblhau |
| Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd | Mehefin 2015 | 18 | **Ymateb**<br>17 o argymhellion wedi'u derbyn. Argymhelliad 13 wedi'i dderbyn yn rhannol. | Wedi'i gwblhau<br>Argymhelliad wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Etifeddiaeth fel y gall y pwyllgor sy'n ein holynu ei fonitro |
| Ymateb i Ddiwygio Lles yng Nghymru | Gorffennaf 2015 | 17 | **Ymateb**<br>6 o argymhellion wedi'u derbyn. Argymhellion 1, 2, 3, 4, 5, 7, 10, 11, 13 a 15 wedi'u derbyn yn rhannol. Argymhelliad 12 wedi'i dderbyn mewn egwyddor. | Wedi'i gwblhau<br>Argymhelliad wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Etifeddiaeth fel y gall y pwyllgor sy'n ein holynu ei fonitro |
| Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn - Adroddiad Terfynol | Gorffennaf 2015 | 9 | **Ymateb**<br>Argymhellion 1 a 2 wedi'u derbyn mewn egwyddor.<br>7 o argymhellion wedi'u derbyn. | Wedi'i gwblhau<br>Argymhelliad wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Etifeddiaeth fel y gall y pwyllgor sy'n ein holynu ei fonitro |

| Ymchwiliad | Dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad | Nifer yr argymhellion | Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **Cwrdd â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru** | Hydref 2015 | | | Efallai y bydd y pwyllgor sy'n ein holynu yn dymuno cadw golwg ar y mater hwn |
| Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf | Tachwedd 2015 | 10 | **Ymateb**<br>9 o argymhellion wedi'u derbyn. Argymhelliad 1 wedi'i dderbyn yn rhannol. | Argymhelliad wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Etifeddiaeth fel y gall y pwyllgor sy'n ein holynu ei fonitro |
| Craffu ar Gyfrifon 2014-2015 | Rhagfyr 2015 | 25 | **Ymateb Llywodraeth Cymru** | Argymhelliad wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Etifeddiaeth fel y gall y pwyllgor sy'n ein holynu fonitro ymatebion a pharhau â'r gwaith craffu blynyddol |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio | Ionawr 2016 | 18 | **Ymateb Llywodraeth Cymru**<br>17 o argymhellion wedi'u derbyn Roedd argymhelliad 8 ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Argymhelliad wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Etifeddiaeth fel y gall y pwyllgor sy'n ein holynu ei fonitro |
| Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Chwefror 2016 | 27 | Nid oedd ymateb Llywodraeth Cymru wedi dod i law ar adeg cyhoeddi'r adroddiad | Y pwyllgor sy'n ein holynu i ystyried ymateb Llywodraeth Cymru ac i fonitro'r sefyllfa ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |

Tudalen y pecyn 58

| Ymchwiliad | Dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad | Nifer yr argymhellion | Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Maes awyr Caerdydd | Mawrth 2016 | 10 | Nid oedd ymateb Llywodraeth Cymru wedi dod i law ar adeg cyhoeddi'r adroddiad | Y pwyllgor sy'n ein holynu i drafod ymateb Llywodraeth Cymru |
| Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru | Mawrth 2016 | | | Argymhelliad wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Etifeddiaeth fel y gall y pwyllgor sy'n ein holynu gynnal ymchwiliad llawn |

Gorffennaf 2016

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Diweddariad am gynllun gwaith

## Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r Memorandwm hwn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn unol ag amryw o ddarpariaethau statudol.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rolau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a sut yr ydym yn cynorthwyo'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus | 5 |
| Gwaith sy'n mynd rhagddo | 8 |
| Effeithiau gwaith archwilio diweddar | 10 |
| Pynciau posibl ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol | 12 |
| Materion yn deillio o adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor blaenorol | 14 |
| Atodiadau | 15 |
| Atodiad 1 - Darlun manwl o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ac amserlenni | 16 |
| Atodiad 2 - Sylwebaeth am argymhellion adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod y pedwerydd Cynulliad | 24 |

# Rolau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a sut yr ydym yn cynorthwyo'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

1 Mae'r papur hwn yn darparu'r canlynol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor):

a crynodeb byr o fy rôl i fel Archwilydd Cyffredinol, rôl Swyddfa Archwilio Cymru a sut yr ydym yn cynorthwyo'r Pwyllgor;

b diweddariad am y gwaith sy'n mynd rhagddo ac y gallai gynorthwyo rhaglen waith y Pwyllgor rhwng nawr a haf 2017;

c trosolwg o rai o effeithiau fy ngwaith archwilio yn ddiweddar;

ch cyfle i gychwyn trafodaeth ynghylch astudiaethau gwerth am arian[1] yn y dyfodol; a

d chyfle i ystyried y materion gweddilliol allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor blaenorol yn ei adroddiad etifeddiaeth.

2 Bwriedir i'r papur hwn gynnig trosolwg cyffredinol o'r gwaith archwilio cyfredol a'r gwaith archwilio wedi'i gynllunio a allai gynorthwyo rhaglen y Pwyllgor. Mae modd i Aelodau'r Pwyllgor weld rhagor o fanylion yn ein Cynllun Blynyddol 2016-17 ynghylch rôl a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â'r blaenoriaethau ar gyfer 2016-17 a thu hwnt.

3 Fel yr amlygais yn fy adroddiad ym mis Rhagfyr 2015, Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus, mae hwn yn parhau i fod yn gyfnod heriol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wrth iddynt wynebu posibilrwydd o doriadau parhaus, law yn llaw gyda phwysau a galw parhaus, heb sôn am yr ansicrwydd sy'n deillio erbyn hyn o ganlyniad y referendwm diweddar ar yr UE. Ond mae cyfleoedd yn codi o'r newidiadau yn y tirlun gwasanaethau cyhoeddus hefyd. Er enghraifft, i ddefnyddio pwerau codi trethi a deddfwriaeth newydd arall, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn hyrwyddo nodau polisi ac er mwyn manteisio ar bŵer technoleg newydd i ddarganfod ffurf mwy effeithiol a rhatach o ddarparu gwasanaethau. Yn y cyd-destun hwn, ac wrth i mi gyrraedd blynyddoedd olaf fy rôl fel Archwilydd Cyffredinol, fy marn didwyll i yw bod archwilio, arolygu ac adolygu yn parhau i fod mor berthnasol ag erioed er mwyn sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli mewn ffordd ddoeth, a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwybod sut i wella canlyniadau.

4 Mae hwn hefyd yn gyfnod o newid cyfansoddiadol i Gymru, wrth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gynnig newidiadau i setliad datganoli Cymru ym Mesur Cymru 2016-17. Oherwydd pwysigrwydd a pherthnasedd parhaus fy ngwaith archwilio, mae'n hanfodol bod y Bil yn darparu ar gyfer parhau amddiffyniadau statudol presennol sy'n cadw annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Mae amddiffyniadau o'r fath yn diogelu craffu cyhoeddus da drwy sicrhau bod fy ngwaith yn wrthrychol, yn ddiduedd ac yn annibynnol, ac yn cael ei weld felly, hefyd. Mae'r Bil fel y'i

1 Dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, mae gofyn i mi ystyried safbwyntiau'r Pwyllgor ynghylch yr archwiliadau a'r astudiaethau i'w cynnal dan y Deddfau Llywodraeth Cymru hynny, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill y maent yn gysylltiedig gyda Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad a chyrff GIG.

cyflwynwyd yn darparu ar gyfer parhad yr amddiffyniadau pwysig hyn, ond mae'n hanfodol bod hynt y Bil drwy'r Senedd yn cael ei adolygu'n fanwl i sicrhau nad yw'r amddiffyniadau pwysig hyn yn cael eu dileu.

5 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, fi yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae Deddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, ynghyd ag ystod o ddeddfwriaeth arall, yn darparu'r sail statudol ar gyfer fy ngwaith. Rydw i'n gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y cronfeydd y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio amdanynt bob blwyddyn.

6 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn Fwrdd sy'n cyflogi staff y maent yn meddu ar gymwysterau proffesiynol ac sy'n defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat, er mwyn fy ngalluogi i i gyflawni fy swyddogaethau. Rydw i'n defnyddio'r adnoddau a ddarparir gan Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cynnal archwiliad annibynnol i weld a yw arian cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei reoli mewn ffordd ddoeth ac a roddir cyfrif cywir amdano.

7 Pan fydd hynny yn synhwyrol ac yn ymarferol, byddaf yn ceisio cyflawni fy swyddogaethau ar y cyd gyda sefydliadau perthnasol eraill. Mae partneriaid Archwilio Cymru[2] wedi anfon papur briffio at Aelodau'r Cynulliad sy'n amlinellu rôl archwilio, arolygu a rheoleiddio yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r papur yn amlygu sut y mae Rhaglen Archwilio Cymru yn helpu cydweithio rhwng cyrff archwilio ac arolygu yng Nghymru, gan gynnig enghreifftiau ymarferol. Mae'r enghreifftiau hyn yn cynnwys ein gwaith gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ynghylch y trefniadau llywodraethu o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gydag Estyn yn ein hadolygiadau o gonsortia gwella addysg rhanbarthol. Fodd bynnag, mae fy ngwaith ar y cyd yn ymestyn y tu hwnt i bartneriaeth Archwilio Cymru, er enghraifft, mae'n cynnwys y comisiynwyr yng Nghymru[3] a chyrff archwilio eraill yn y DU, ac mae'n digwydd ar sawl ffurf.

8 Rydw i a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig cyngor a chymorth er mwyn helpu'r Pwyllgor i gyflawni ei waith ac er mwyn helpu i sicrhau bod ein heffaith ar y cyd mor sylweddol ag y bo modd. Rydym yn darparu sesiynau briffio ynghylch cynnwys fy adroddiadau, sy'n helpu'r Pwyllgor i benderfynu ar y camau y bydd yn eu cymryd nesaf. Yn ogystal, rydym yn rhoi cyngor a chymorth i'r Pwyllgor yn ôl y gofyn, er enghraifft: wrth gynorthwyo datblygiad sesiynau briffio aelodau ar gyfer sesiynau tystiolaeth gyda thystion o Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill; wrth roi cyngor er mwyn cynorthwyo datblygiad adroddiadau'r Pwyllgor; ac wrth gynghori ynghylch digonolrwydd ymatebion ffurfiol Llywodraeth Cymru i argymhellion yn adroddiadau'r Pwyllgor.

2 Partneriaid Archwilio Cymru yw fi a Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn – Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
3 Gwnaethom gynnal y gwaith archwilio ar gyfer fy adroddiad ym mis Hydref 2015 ynghylch annibyniaeth pobl hŷn ar y cyd gyda staff Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

9 Yn hanesyddol, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ei holl waith bron ar faterion yn deillio o adroddiadau a gyhoeddwyd dan fy mhwerau yn ymwneud ag astudiaethau gwerth am arian. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor blaenorol, yn fwy diweddar, mae'r Pwyllgor wedi newid y ffordd y mae'n gweithio er mwyn ystyried ystod ehangach o bynciau. Mae'r Pwyllgor wedi dangos diddordeb cynyddol yn y materion sy'n deillio o'm hadroddiadau astudio llywodraeth leol. Er nad oes modd i'r Pwyllgor sicrhau eu bod yn atebol mewn ffordd uniongyrchol, gall gymryd diddordeb mewn materion cenedlaethol ac yn rôl arweiniol Llywodraeth Cymru.

10 Yn ogystal, roedd y Pwyllgor blaenorol wedi cychwyn sawl un o'i ymchwiliadau ei hun, fel yr oedd ei adroddiad etifeddiaeth yn dangos. Roedd yr ymchwiliadau hyn yn cynnwys: Gwerth am Arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd, Cyflog Uwch Reolwyr, Craffu Cyfrifon, a Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn. Fel rhan o'r ymchwiliadau hyn, byddaf yn darparu rhywfaint o dystiolaeth ffeithiol fel arfer, er enghraifft, ar ffurf memorandwm neu lythyr, yn hytrach nag astudiaeth gwerth am arian lawnach.

# Gwaith sy'n mynd rhagddo

11 Mae Ffigwr 1 yn amlinellu corff sylweddol y gwaith sy'n mynd rhagddo ac yr wyf yn disgwyl adrodd arno rhwng nawr a haf 2017, a fyddai ar gael i'r Pwyllgor ei ystyried. Mae'r gwaith hwn yn ychwanegol i waith archwilio ariannol a pherfformio a adroddir yn lleol i gyrff unigol sy'n cael eu harchwilio. Mae gwaith lleol yn mynd rhagddo ar draws GIG ar amrediad o bynciau. Ar ôl cwblhau fy ngwaith lleol, byddaf yn ystyried priodoldeb cynhyrchu adroddiad cryno ar sail Cymru gyfan ar gyfer pob pwnc. Ym maes llywodraeth leol, rydw i'n cynnal tri adolygiad thematig a fydd yn rhan o'r rhaglen gwaith archwilio lleol eleni. Ar ôl i mi gwblhau fy ngwaith lleol, fy mwriad yw paratoi adroddiad cryno ar sail Cymru gyfan.

12 Mae Atodiad 1 yn darparu manylion pellach am y gwaith sy'n mynd rhagddo, ynghyd ag amserlenni adrodd tybiedig. Mae'r rhaglen waith yn cadw gafael ar rywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau sy'n newid. Bydd llawer o'r gwaith archwilio yr ydym wedi ymrwymo iddo yn ystod 2016-17, ond nid yr holl waith, yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn. Gallai gwaith cynllunio parhaus yn ystod y flwyddyn arwain at waith newydd yn cychwyn yn ystod y flwyddyn ariannol, er enghraifft, wrth ymateb i feysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

13 Yn ystod 2015-16, sefydlais dîm 'astudiaethau ymchwiliol' newydd yn Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cryfhau ein capasiti archwilio fforensig a'n gallu i ymateb yn gyflymach i faterion y maent yn peri pryder i'r cyhoedd wrth iddynt godi, a bod hyn yn cael llai o effaith ar fy rhaglen waith a gynlluniwyd. Ar hyn o bryd, mae aelodau'r tîm astudiaethau ymchwiliol yn gweithio ar yr archwiliadau adweithiol yn Ffigwr 1.

14 Yn ychwanegol i'r gwaith a nodir yn Ffigwr 1, bwriadaf wneud gwaith i ddatblygu a phrofi fy null gweithredu tuag at gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Ym mis Ebrill 2016, lansiais ymgynghoriad ynghylch y dull gweithredu y dylwn ei fabwysiadu wrth gyflawni fy nyletswyddau dan y Ddeddf. Estynnais wahoddiad i gyrff cyhoeddus i fynegi diddordeb mewn gweithio gyda mi dan drefniant gwirfoddol er mwyn datblygu a phrofi'r dull gweithredu. Mae natur ac amseriad y gwaith hwn yn ansicr, ond rydw i'n bwriadu cychwyn ar rywfaint ohono yn ystod 2016-17 o leiaf. Byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor o'r cynnydd sy'n cael ei sicrhau wrth ddatblygu fy null gweithredu a'm penderfyniadau ynghylch siâp fy ngwaith archwilio yn y dyfodol er mwyn ymateb i'r Ddeddf.

Ffigwr 1 – Gwaith sy'n mynd rhagddo

### Astudiaethau llywodraeth leol ac adolygiadau ar themâu penodol

Sefyllfa ariannol a chydnerthedd (astudiaeth ddilynol)

Cyllid cynghorau ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector

Dull gweithredu strategol cynghorau tuag at gynhyrchu incwm a chodi tâl am wasanaethau

Effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol lleol

Sut mae llywodraeth leol yn rheoli galw – gwasanaethau digartrefedd

Comisiynu strategol gwasanaethau anabledd dysgu gan awdurdodau lleol

Gwella llesiant drwy addasiadau i dai

Addas ar gyfer y dyfodol (adolygiadau ar themâu penodol)

- Gwytnwch ariannol
- Llywodraethu da
- Newid trawsffurfiol

### Archwiliadau adweithiol

Adolygiad Llywodraethu o Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Llywodraethu a goruwchwylio cyrff hyd braich

Cyllid gan Lywodraeth Cymru i Kancoat Ltd

### Astudiaethau gwerth am arian

Rheoli risg erydu a llifogydd arfordirol

Gwasanaethau trên

Adolygiad o'r tirlun caffael cyhoeddus

Trosolwg Llywodraeth Cymru o sefyllfa ariannol a darpariaeth sefydliadau addysg bellach

Parodrwydd am y cam o gyflwyno pwerau ariannol

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Rhaglen cefnogi pobl

Rheoli gwastraff

Lleoedd mewn ysgolion a buddsoddiadau cyfalaf mewn ysgolion

Manteisio ar wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth gwasanaethau cyfieithu a dehongli arbenigol

Gweithredu Deddf Cyllid GIG Cymru

Adroddiad dilynol am gonsortia addysg rhanbarthol

### Adroddiadau cryno

Rheoli meddyginiaethau

Menter Twyll Genedlaethol

Memorandwm dilynol ynghylch arlwyo mewn ysbytai

Apwyntiadau dilynol cleifion allanol

Sylwer

Mae'r ffigwr hwn yn diweddaru fy Nghynllun Blynyddol gydag allbynnau ac astudiaethau ychwanegol yr wyf wedi penderfynu eu cyhoeddi. Ers inni gyflawni ein Cynllun Blynyddol, rydym wedi newid teitlau rhai o'r astudiaethau gan fod ystod y gwaith wedi'i diffinio'n gliriach.

# Effeithiau gwaith archwilio diweddar

15 Nod fy ngwaith yw cynnig dirnadaeth a sicrwydd, a helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella. Mae'r gwaith craffu ychwanegol a wneir gan y Pwyllgor yn ymestyn ein heffaith mewn ffordd sylweddol, yn enwedig mewn meysydd megis rheoli grantiau, lle y gwnaeth y Pwyllgor blaenorol gymryd diddordeb arbennig wrth ystyried canfyddiadau sawl gwahanol adroddiad.

16 Mae ein Hadroddiadau Blynyddol diweddar – ar gyfer 2014-15 a 2015-16 – yn dangos sut yr ydym yn gwneud yn erbyn ein hamcanion, ac maent yn darparu astudiaethau achos hefyd sy'n dangos effaith ein gwaith. Yn ein hadroddiad mwyaf diweddar, rydym wedi canolbwyntio ar waith llywodraethu, gan gynnwys effeithiau gwaith llywodraethu o fewn llywodraeth leol, GIG a llywodraeth ganolog. Yn 2014-15, roedd ein hadroddiad blynyddol yn amlygu effaith gwaith ar faterion gan gynnwys amseroedd aros GIG, nyrsys ardal a rheoli ymadawiadau cynnar.

17 Rydym yn gwneud argymhellion sy'n ceisio gwella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn 2015-16, roedd y cyrff a archwiliwyd wedi derbyn bron pob un (98 y cant) o'n hargymhellion yn llawn. Gan symud ymlaen, byddwn yn ceisio datblygu dull gweithredu mwy systematig er mwyn olrhain gweithrediad ac effaith argymhellion archwilio. Rydw i'n arbennig o falch o weld bod canfyddiadau'r arolwg, y rhoddwyd crynodeb ohonynt yn fy adroddiad blynyddol diweddaraf, yn dangos bod ein rhanddeiliaid yn cytuno yn amlach na pheidio ein bod wedi cael effaith gadarnhaol:

a roedd 98 y cant o'r rhanddeiliaid o'r farn bod yr Archwilydd Cyffredinol yn sylwebydd awdurdodol;

b roedd 80 y cant o'r rhanddeiliaid wedi cael dirnadaeth ddefnyddiol trwy ein gwaith; ac

c roedd 79 y cant o'r rhanddeiliaid o'r farn bod ein gwaith wedi arwain at welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

18 Un ffordd yr ydym yn bwriadu cael effaith yn ystod y cyfnod hwn o galedi cyllidol yw trwy helpu i nodi arbedion posibl. Wrth gwrs, rhaid i'r cyrff sy'n cael eu harchwilio sicrhau eu bod yn gwneud yr arbedion hynny eu hunain. Mae swm yr arbedion a nodir gennym yn amrywio gan ddibynnu ar y pynciau y byddwn yn eu hystyried mewn blwyddyn: mae'n amlwg bod rhai pynciau yn fwy addas er mwyn sicrhau arbedion ynddynt nag eraill. Yn 2014-15, gwnaeth ein hadroddiadau nodi y byddai modd arbed £36 miliwn o bosibl. Yn 2015-16, gwnaeth ein hadroddiadau nodi tua £11 miliwn o arbedion posibl. Rydw i'n ymwybodol, fodd bynnag, bod risg yn yr hinsawdd bresennol y bydd cyrff cyhoeddus yn canolbwyntio ar arbedion tymor byr heb roi ystyriaeth briodol i effaith ehangach newidiadau a wneir er mwyn lleihau costau, a'u heffaith yn y tymor hir. Yn wir, mae'n debygol y bydd cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gofyn am ffordd o feddwl newydd i ryw raddau yn hyn o beth.

19 Fel y mae adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor blaenorol yn dangos, mae modd i’m gwaith helpu i gynorthwyo gwaith Pwyllgorau craffu eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd. Er enghraifft:

a gwnaeth fy adroddiad am **Bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant** gyfrannu at ymchwiliad gan y Pwyllgor Menter a Busnes ynghylch Cynorthwyo Pobl Ifanc i sicrhau Gwaith; a

b gwnaeth fy adroddiad ynghylch **Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar** gyfrannu at waith craffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o’r trefniadau consortia yn ystod yr hydref 2015.

# Pynciau posibl ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol

20 Ym mis Mehefin 2015, bûm yn trafod amrediad o bynciau posibl yr oeddwn yn ystyried eu cynnwys yn fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian dros y blynyddoedd nesaf gyda'r Pwyllgor blaenorol. Caiff rhai o'r cynigion hynny eu cynnwys fel rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo erbyn hyn (Ffigwr 1). Byddwn yn croesawu safbwyntiau aelodau ynghylch a oes ganddynt ddiddordeb penodol mewn unrhyw rai o'r pynciau gweddilliol a nodir yn Ffigwr 2 neu unrhyw bynciau eraill y dylent gael eu cynnwys yn fy rhaglen waith yn eu barn nhw.

21 Gyda Llywodraeth Cymru newydd, rhaglen lywodraethu newydd a chymryd i ystyriaeth goblygiadau'r canlyniadau'r referendwm ar aeoldaeth yr UE, bwriadaf wneud gwaith pellach i ddatblygu cynigion newydd yng ngoleuni cyfleoedd presennol a risgiau i ddarparu a gwerth am arian ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn gynnar yn ystod 2017, gan ddarparu set wedi'i diweddaru o bynciau posibl ar gyfer astudiaethau, i'w thrafod.

22 Yn ddiweddar, rydw i wedi nodi cynllun dangosol ar gyfer fy astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol tan 2018-19 yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda chyrff llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill[4]. Mewn rhai meysydd, megis mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau, rydw i'n ystyried cyfuno ffocws llywodraeth leol a ffocws ehangach ar drosolwg Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyswllt GIG. Dylwn bwysleisio, fodd bynnag, y byddaf yn ailystyried y rhaglen astudiaethau llywodraeth leol ddangosol bob blwyddyn er mwyn ystyried materion eraill sy'n dod i'r amlwg.

23 Law yn llaw gyda'r cynigion yn y ddogfen hon, efallai y byddaf yn cynnal archwiliadau o ganlyniad i ohebiaeth hefyd. Efallai y bydd gohebiaeth o'r fath yn dod, er enghraifft, o'r cyhoedd, gan rywun sy'n chwythu'r chwiban neu Aelodau Cynulliad. Gall y rhain godi ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Ni fyddaf yn cynnal archwiliadau manwl neu'n paratoi adroddiadau ar gyfer pob darn o ohebiaeth y byddaf yn ei chael. Pan godir pryderon ynghylch gwerth am arian neu briodoldeb mewn gohebiaeth, byddaf yn ystyried a fyddai ystyried y materion yn fwy manwl ac adrodd amdanynt yn ffurfiol er budd y cyhoedd. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi canllaw diweddaredig i ohebwyr.

4 Y pynciau astudiaethau llywodraeth leol arfaethedig ar gyfer 2017-18 yw: **Mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau camddefnyddio alcohol a chyffuriau; Defnyddio data mewn ffordd effeithiol; Pa mor dda y mae gwasanaethau cyhoeddus yn darparu gwasanaethau i gymunedau gwledig?** Y pynciau arfaethedig ar gyfer 2018-19 yw: **Gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant; Mynd i'r afael â thrais domestig; A yw gwasanaethau cynllunio yn cynnig gwerth am arian?**

Ffigwr 2 – Pynciau astudiaethau posibl yn y dyfodol

**Enghreifftiau o astudiaethau gwerth am arian posibl yn y dyfodol**

- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)[5]
- Gwasanaethau gofal sylfaenol
- Gofal ar ddiwedd oes
- Gwasanaethau bws/tocynnau teithio rhatach
- Cydgasglu band eang y sector cyhoeddus (PSBA) a Digidol yn Gyntaf
- Buddsoddiad cyhoeddus mewn hyrwyddo twristiaeth
- Ardaloedd menter
- Paratoi ar gyfer clefydau anifeiliaid ac ymateb iddynt
- Stiwardiaeth yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth
- TGCh mewn ysgolion[6]
- Cymraeg i Oedolion
- Cymunedau yn Gyntaf
- Tai fforddiadwy
- Tlodi tanwydd
- Adfywio Cymru (Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid)
- Rheoleiddio cymdeithasau tai
- Capasiti a gallu Llywodraeth Cymru
- Gwasanaethau TGCh canolog Llywodraeth Cymru
- Gwasanaethau i bobl hŷn
- Rheoli asedau TGCh ar draws y sector cyhoeddus
- Gwella iechyd y cyhoedd

5 Bydd ein gwaith cyfredol ar gaffael cyhoeddus yn ystyried gwaith NWSSP mewn perthynas â chaffael i ryw raddau.
6 Ceir cysylltiadau posibl yma gyda'r cyfeiriad blaenorol at Gydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus a Digidol yn Gyntaf.

# Materion yn deillio o adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor blaenorol

24 Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y Pwyllgor blaenorol ei adroddiad etifeddiaeth. Mae'r adroddiad etifeddiaeth yn gwneud 34 o argymhellion. Rydw i wedi cynnwys fy ystyriaethau am yr argymhellion i'r Pwyllgor eu hystyried yn Atodiad 2.

25 Mae sawl un o'r argymhellion yn gofyn i mi ddarparu sesiwn friffio am adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar yr adeg honno neu nad oedd y Pwyllgor blaenorol wedi cael yr amser i'w ystyried yn llawn. Wrth gwrs, byddwn yn fodlon rhoi sesiwn friffio o'r fath i'r Pwyllgor. Yna, gall y Pwyllgor benderfynu pa gamau y mae'n dymuno eu cymryd yn sgil sesiwn friffio o'r fath.

26 Mae rhai o'r argymhellion yn ymwneud â datblygu gwaith blaenorol a wnaethpwyd trwy gynnal sesiynau tystiolaeth newydd neu estynedig. Mae'r rhain yn cynnwys argymhellion i gynnwys cyrff penodol o fewn cwmpas unrhyw waith craffu ar waith cyfrifon yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n cynnwys cymryd tystiolaeth bellach wrth ymateb i faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol, megis cyflwyno band eang cyflym iawn, yn ogystal â meysydd lle y gwnaeth y pwyllgor blaenorol gymryd rhywfaint o dystiolaeth neu ddeunydd briffio gennyf i, ond ni wnaeth gwblhau ymchwiliad, megis amseroedd aros GIG ac orthopedeg. Byddwn yn fodlon cynghori'r Pwyllgor wrth iddo ystyried symud y materion hyn yn eu blaen.

27 Mae argymhellion eraill yn galw ar y Pwyllgor i ofyn am ddiweddariadau pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch ei chynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol, yn ogystal â chadw golwg ar faterion allweddol a nodwyd mewn adroddiadau. Efallai bod yr aelodau yn ymwybodol o'r ffaith fy mod yn rhoi cyngor i'r Pwyllgor ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion ac adroddiadau cynnydd. Pan fyddaf yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru yn ymateb mewn ffordd briodol, neu i'r gwrthwyneb, pan fydd yn sicrhau cynnydd da, byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor.

# Atodiadau

# Atodiad 1 - Darlun manwl o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ac amserlenni

| Adroddiadau y byddant yn cael eu cyhoeddi rhwng nawr a mis Awst 2016 |
|---|
| **Rheoli risg erydu a llifogydd arfordirol**<br>Bydd yr astudiaeth yn archwilio'r cyllid sy'n cael ei neilltuo ar gyfer rheoli risg erydu a llifogydd arfordirol, a sut y caiff y gwaith hwn ei reoli. Bydd yn ystyried trosolwg strategol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â gwaith darparu a rheoli lleol. |
| **Gwasanaethau trên**<br>Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried amrediad o faterion gan gynnwys: pwerau Llywodraeth Cymru dros wasanaethau trên a'i pherthynas gyda Network Rail; lefel gyffredinol y buddsoddiad mewn gwasanaethau trên dros y blynyddoedd diwethaf (gan wahanol ffynonellau); perfformiad masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a datblygiad cynlluniau ar gyfer y fasnachfraint nesaf o 2018. |
| **Y Fenter Twyll Genedlaethol**<br>Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer sy'n cael ei gynnal ledled y Deyrnas Unedig bob yn ail flwyddyn sy'n cyfateb data electronig o fewn a rhwng cyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn canfod ac atal twyll a gordaliadau. Rydym yn bwriadu cyhoeddi trosolwg o'n gwaith ar Y Fenter Twyll Genedlaethol yn ystod Haf 2016. |
| **Cyllid gan Lywodraeth Cymru i Kancoat Ltd**<br>Bydd yr adolygiad yn rhoi adroddiad ffeithiol am y materion allweddol sy'n ymwneud gyda phecyn cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i Kancoat, a nodir o fewn cyd-destun ehangach cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau yng Nghymru. |
| **Sefyllfa ariannol a chydnerthedd (astudiaeth Llywodraeth Leol ddilynol)**<br>Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried perfformiad ariannol cyfredol y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ynghyd ag ansawdd eu trefniadau rheoli ariannol, er mwyn pennu lefel eu cydnerthedd wrth ymateb i sialensiau allweddol yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn datblygu'r gwaith yn ein hadroddiadau cynharach ynghylch cydnerthedd ariannol awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynnig asesiad o rôl Llywodraeth Cymru wrth ddeall effaith newidiadau mewn cyllidebau awdurdodau lleol. |
| **Effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol lleol**<br>Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried effeithiolrwydd diogelwch cymunedol yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn ystyried effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth, defnyddio adnoddau, gweithgarwch cynllunio a gwella ac mae'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae'r gwaith yn ystyried safbwyntiau dinasyddion ynghylch diogelwch cymunedol a pha mor effeithiol y mae cyrff cyhoeddus wrth gadw pobl yng Nghymru yn ddiogel. |

| Adroddiadau y byddant yn cael eu cyhoeddi rhwng nawr a mis Medi 2016 |
|---|
| **Memorandwm dilynol ynghylch arlwyo mewn ysbytai**<br>Bydd y memorandwm hwn yn cynnig crynodeb o'r cynnydd a sicrhawyd gan GIG Cymru er mwyn rhoi sylw i'r argymhellion a wnaethpwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'n ystyried y graddau y mae GIG Cymru wedi sicrhau gwelliannau wrth fodloni anghenion maethol cleifion a'u profiad pan fyddant yn cael prydau bwyd, wrth reoli costau arlwyo ac wrth gynllunio a monitro. |
| **Adolygiad llywodraethu o Lyfrgell Genedlaethol Cymru**<br>Yn dilyn gohebiaeth ynghylch arweinyddiaeth a'r trefniadau llywodraethu o fewn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ynghyd â chyhoeddusrwydd ynghylch pryderon eraill penodol, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Lyfrgell, Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai'n cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu y Lyfrgell. Bydd yr adroddiad yn cynnig dirnadaeth o Fwrdd ac uwch-reolwyr y Lyfrgell yn ystod cyfnod o newid arwyddocaol i'w harweinyddiaeth Weithredol ac Anweithredol. |
| **Apwyntiadau dilynol cleifion allanol**<br>Mae'n rhaglen o waith archwilio lleol wedi cynnwys adolygiad o drefniadau byrddau iechyd er mwyn rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn dilyn pryderon bod ôl-groniadau mawr apwyntiadau o'r fath wedi datblygu o fewn rhai byrddau iechyd. Lluniwyd papur a oedd yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r gwaith hwn ym mis Mai 2016 er mwyn cyfrannu at waith Bwrdd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio GIG Cymru. |

| Adroddiadau y byddant yn cael eu cyhoeddi rhwng mis Hydref 2016 a mis Rhagfyr 2016 |
|---|
| **Trosolwg Llywodraeth Cymru o sefyllfa ariannol a darpariaeth sefydliadau addysg bellach**<br>Mae'r astudiaeth hon yn ystyried sefyllfa ariannol gyffredinol y sector addysg bellach, ynghyd â threfniadau rheoli a chynllunio ariannol y sector, effaith newidiadau strwythurol ar draws y sector yn ddiweddar a gostyngiadau yng nghyllid Llywodraeth Cymru. |
| **Llywodraethu a goruwchwylio cyrff hyd braich**<br>Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar sialensiau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg ym maes llywodraethu, moeseg a thriniaeth gwasanaethau a ariannir gan arian cyhoeddus ac a ddarparir mewn ffordd anuniongyrchol yng Nghymru. Mae'n nodi materion, mae'n archwilio achosion ac mae'n amlygu pwyntiau dysgu o waith archwilio blaenorol. Ei nod yw ysgogi trafodaeth ymhlith arweinwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid ynghylch sut i sicrhau bod triniaeth busnes cyhoeddus yng Nghymru gan unigolion ac endidau yn dangos safonau moesegol uchel priodol ac yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd. |
| **Cyllid gan gynghorau ar gyfer gwasanaethau o'r trydydd sector**<br>Mae'r astudiaeth yn ystyried graddfa gyffredinol cyllid gan gynghorau ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru, pa mor effeithiol y mae cynghorau yn rheoli cyllid ar gyfer gwasanaethau o'r trydydd sector ac yn adolygu a yw egwyddorion llywodraethu da a chenedlaethau'r dyfodol yn cael eu dilyn wrth ariannu gwasanaethau o'r trydydd sector. Mae'r adolygiad yn ystyried y gwahanol ffyrdd y mae cynghorau ar draws Cymru yn ariannu sefydliadau o'r trydydd sector, gan amlygu'r gwahanol ddulliau gweithredu ac effeithiolrwydd y rhain. |
| **Adroddiad dilynol am gonsortia addysg rhanbarthol**<br>Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cynorthwyo Estyn i ddarparu arolygiadau Estyn o'r pedwar consortiwm rhanbarthol, gan ddatblygu ein gwaith a wnaethpwyd ar y cyd ar yr adolygiad, y gwnaethom adrodd amdano ym mis Mehefin 2015. Law yn llaw gyda hyn, byddwn yn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion blaenorol. Nid yw union ffurf yr allbwn yn eglur eto: efallai y bydd yn adroddiad byr neu'n llythyr i'r Pwyllgor. |

| Adroddiadau y byddant yn cael eu cyhoeddi rhwng mis Hydref 2016 a mis Rhagfyr 2016 |
|---|
| **Rheoli Meddyginiaethau**<br>Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried a yw cyrff y GIG yn rheoli meddyginiaethau effeithiol mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Mewn gofal sylfaenol, bydd yn ystyried materion fel cynllunio strategol ar gyfer rhagnodi ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd, gan gyflawni blaenoriaethau rhagnodi cenedlaethol a sicrhau arbedion rhagnodi ac effeithlonrwydd. Bydd hefyd yn edrych ar ba mor ddigonol yw’r cyfleusterau fferyllfa ysbytai a lefelau staffio fferyllfeydd, ac adolygwyd effeithiolrwydd ystod o brosesau sy’n gysylltiedig â defnyddio meddyginiaethau mewn ysbytai. |
| **Dull gweithredu strategol cynghorau tuag at gynhyrchu incwm a chodi tâl am wasanaethau**<br>Mae’r astudiaeth hon yn cynnwys archwiliad o ddull gweithredu strategol cynghorau tuag at godi tâl; y broses gymeradwyo er mwyn gosod ac adolygu trefniadau codi tâl o fewn cyngor; ac effaith codi tâl ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth. Yn ogystal, mae’r gwaith yn cymharu perfformiad llywodraeth leol yng Nghymru gyda’i gymheiriaid yn Lloegr a’r Alban. |
| **Parodrwydd am y cam o gyflwyno pwerau ariannol**<br>Yn ystod tymor y pumed Cynulliad, bydd Llywodraeth Cymru yn cael pwerau newydd i godi trethi ac i fenthyca. Fel rhan o’r paratoadau ar gyfer y pwerau newydd hyn, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Gweithredu Trysorlys Llywodraeth Cymru a Fforwm Trethi Cymru y Gweinidog Cyllid fel arsylwyr. Yn nes ymlaen eleni, bwriadaf gyhoeddi sylwebaeth am y parodrwydd ar gyfer y cam o gyflwyno’r pwerau ariannol newydd hyn. |

| Adroddiadau y byddant yn cael eu cyhoeddi rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017 |
|---|
| **Rheoli gwastraff**<br>Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio'r graddau y mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn darparu capasiti a chymorth digonol er mwyn rheoli gwastraff presennol a gwastraff y dyfodol mewn ffordd effeithlon, darbodus ac effeithiol. Cynhelir yr astudiaeth mewn tri modiwl. Bydd Modiwl 1 yn ystyried cynhyrchu gwastraff a'i atal a bydd Modiwl 2 yn ystyried casglu gwastraff a'i ailgylchu. Bwriadwn adrodd ein canfyddiadau o'r modiwlau hyn erbyn dechrau 2017. Bydd yr amserlen ar gyfer Modiwl 3 yn dibynnu i raddau ar y cynnydd a wneir ym Modiwlau 1 a 2 ond rydym yn bwriadu gorffen y cam hwn o'r gwaith erbyn haf 2017. |
| **Lleoedd mewn ysgolion a buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion**<br>Bydd yr astudiaeth hon yn cynnig golwg cynnar ar gyfeiriad strategol a throsolwg Llywodraeth Cymru o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain i ddisodli neu i wella ysgolion ar draws Cymru. Bydd yn ystyried y rhesymeg dros y rhaglen a'r buddsoddiad, gan gynnwys amcanestyniadau o'r galw am leoedd mewn ysgolion yn y dyfodol a chyflwr ysgolion. Gan ei bod yn ddyddiau cynnar i'r rhaglen, ni fyddwn yn adolygu darpariaeth leol ysgolion newydd neu waith gwella. Rydym yn ystyried y cam o fwrw golwg unwaith eto ar y pwnc ac ystyried darpariaeth leol pan fydd y Rhaglen yn fwy aeddfed. |
| **Adolygiad o'r tirlun caffael cyhoeddus**<br>Bydd yr astudiaeth yn cynnig trosolwg eang o'r trefniadau caffael presennol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth yn cynnwys caffael nwyddau a gwasanaethau ar draws Llywodraeth Ganolog a Lleol, GIG, Tân ac Achub, Addysg Bellach, Addysg Uwch, yr Heddlu a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn ystyried caffael ar y cyd trwy gyfrwng y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a thrwy gyfrwng mecanweithiau eraill gan gynnwys y rhai nad ydynt yn rhai penodol i Gymru (ee. Gwasanaethau Masnachol y Goron). |
| **Gweithredu Deddf Cyllid GIG (Cymru) 2014 (Cynllunio tymor canolig integredig)**<br>Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar fanteision ariannol cynllunio tymor canolig integredig a nodwyd ym Memorandwm Esboniadol Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Byddwn hefyd yn ystyried y materion cynllunio ehangach ynghylch cysylltu cynlluniau ariannol a gwasanaeth. Rydym yn bwriadu defnyddio ein gwaith asesu strwythuredig i edrych ar agweddau ar gynllunio lleol dan y Ddeddf. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu cynnal adolygiad llawn o ansawdd cynlluniau lleol, sydd yn y pen draw yn amodol ar asesiad Llywodraeth Cymru a chymeradwyaeth y Gweinidog (neu fel arall). |

| Adroddiadau y byddant yn cael eu cyhoeddi rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017 |
| --- |
| **Adolygiad ar thema benodol 'Addas ar gyfer y dyfodol': gwytnwch ariannol**<br>Mae'r hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni yn golygu bod angen i gynghorau wneud arbedion sylweddol a lleihau costau. Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried a yw trefniadau cynghorau ar gyfer cynllunio arbedion yn cefnogi eu gwytnwch ariannol ehangach. Bydd yn adeiladu ar ein gwaith blaenorol a chyfredol sy'n edrych ar wytnwch ariannol ar draws cynghorau. |
| **Adolygiad ar thema benodol 'Addas ar gyfer y dyfodol': llywodraethu da**<br>Diben yr adolygiad yw rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu cynghorau mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau yn y dyfodol, yn ogystal â nodi cyfleoedd i gryfhau trefniadau a dulliau. Bydd yr adolygiad hefyd yn cynnig mewnwelediad ac yn hybu gwelliant drwy asesu trefniadau llywodraethu pob un o'r 22 cyngor mewn perthynas â newid gwasanaethau, gan ystyried canllawiau CIPFA diwygiedig, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd yr adolygiad yn ceisio tynnu sylw at arfer nodedig a gwersi a ddysgwyd o brofiadau cynghorau o benderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau. |

| Adroddiadau y byddant yn cael eu cyhoeddi rhwng mis Ebrill 2017 a mis Gorffennaf 2017 |
| --- |
| **Rhaglen Cefnogi Pobl**<br>Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru yn llwyddo i reoli Rhaglen Cefnogi Pobl, sy'n cynorthwyo pobl agored i niwed i fyw bywydau annibynnol. Bydd yn ystyried gwelliannau a wnaethpwyd er 2012, yn enwedig ym maes llywodraethu, blaenoriaethu cyllid a gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r effeithiau wrth siapio'r Rhaglen i fod yn addas ar gyfer y dyfodol. |
| **Sut y mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw – gwasanaethau digartrefedd**<br>Disgwylir i'r galw am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gynyddu, gan roi straen pellach ar gyllidebau cynghorau. Trwy ganolbwyntio ar sut y mae awdurdodau lleol yn rheoli'r galw am wasanaethau digartrefedd, bydd y prosiect yn ceisio tynnu allan egwyddorion ehangach atal a rheoli'r galw, gan nodi dulliau gweithredu y gallai cynghorau eu mabwysiadu wrth ddarparu gwasanaethau eraill. |
| **Comisiynu strategol gwasanaethau anabledd dysgu gan awdurdodau lleol**<br>Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio nodweddion ac egwyddorion comisiynu strategol effeithiol a sut y mae hyn yn cyfrannu at ganlyniadau gwell a lles ar gyfer dinasyddion yng Nghymru. Bydd y gwaith yn datblygu gwaith yr Arolygiad Cenedlaethol o Ofal a Chymorth i Bobl ag Anableddau Dysgu a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). |
| **Gwasanaethau gwybodeg GIG Cymru**<br>Bydd yr astudiaeth hon yn cymryd golwg ar y system gyfan o gynllunio, darparu a rheoli systemau TGCh clinigol cenedlaethol ar draws Cymru. Bydd yn ystyried y cyfeiriad strategol a ddarparir gan GIG a Llywodraeth Cymru. Bydd yn ystyried y rhaglen a'r rheolaeth o'r prosiect a gyflawnir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, ynghyd â'r cymorth a gweithgarwch ymgysylltu gan y GIG ehangach. |

| Gwaith arfaethedig ond nad oes dyddiad cyhoeddi wedi cael ei bennu ar ei gyfer eto/neu sydd heb gael ei amserlennu tan haf 2017 |
| --- |
| **Manteisio ar wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth gwasanaethau cyfieithu a dehongli arbenigol**<br>Mae'r astudiaeth hon yn datblygu gohebiaeth flaenorol yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch gwasanaethau dehongli ar gyfer defnyddwyr iaith arwyddion, gan ystyried y sialensiau y mae pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg yn dda yn eu hwynebu, neu y maent yn wynebu anfanteision eraill wrth fanteisio ar wasanaethau cyhoeddus, a'r graddau y mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru drefniadau eglur mewn grym er mwyn darparu gwasanaethau cyfieithu a dehongli er mwyn eu galluogi i wneud hynny. |
| **Gwella llesiant drwy addasiadau tai**<br>Mae gan addasiadau tai rôl bwysig i'w chwarae o ran cynnal byw'n annibynnol, darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn y cartref neu'n agosach i'r cartref, gwell rheolaeth o gyflyrau hirdymor ac atal digwyddiadau cost uchel fel codymau yn y cartref. Bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar y gwasanaethau addasiadau tai a ddarperir gan awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bydd yr astudiaeth hefyd yn cynnwys cyrff iechyd drwy archwilio a yw addasiadau wedi cyflymu rhyddhau cleifion o ysbytai neu wedi helpu i atal derbyniadau. |
| **Adolygiad ar thema benodol 'Addas ar gyfer y dyfodol': newid trawsffurfiol**<br>Wrth ddod o hyd i ffyrdd o wneud gwasanaethau yn fwy effeithlon ac effeithiol, mae cynghorau yn anelu fwyfwy at newid trawsnewidiol. Rydym yn bwriadu edrych ar agwedd neu agweddau penodol ar newid trawsnewidiol yn yr astudiaeth hon, ond nid ydym wedi culhau ein cwmpas hyd yn hyn. Rydym yn anelu at gael syniad cliriach o ffocws y gwaith erbyn hydref 2016. |

# Atodiad 2 - Sylwebaeth am argymhellion adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod y pedwerydd Cynulliad

| Argymhelliad yr adroddiad etifeddiaeth | Sylw yr Archwilydd Cyffredinol |
|---|---|
| Argymhelliad 1. Rydym am nodi ein dymuniad bod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn cael cyfarfodydd rheolaidd o’r un hyd â’r prif bwyllgorau eraill a bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnwys yn rhan o drefn busnes y pumed Cynulliad. | Mae hwn yn fater i’r Cynulliad Cenedlaethol.<br>Fodd bynnag, credaf y byddai o gymorth sicrhau bod y Pwyllgor yn cael amser digonol i gymryd tystiolaeth, a rhennais bryderon y Pwyllgor blaenorol ynghylch effaith amserlennu yn ystod y pedwerydd Cynulliad. |
| Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy’n ein holynu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn trafod y materion nad ydym adrodd arnynt ein hunain, o ran y materion a ddeilliodd o'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ynghylch astudiaethau gwerth am arian. | Wrth gwrs, byddwn yn fodlon briffio’r Pwyllgor ynghylch y materion na wnaeth y Pwyllgor blaenorol adrodd amdanynt, a thrafod dewisiadau. |
| Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn parhau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol a bod dadleuon yn cael eu cynnal arnynt yn y Cyfarfod Llawn. | Mae hwn yn fater i’r Pwyllgor ac i’r Cynulliad Cenedlaethol.<br>Fodd bynnag, credaf bod yr adroddiadau blynyddol yn cynnig crynodeb defnyddiol o waith y Pwyllgor, ac mae dadleuon yn y Cyfarfod Llawn yn helpu i godi proffil gwaith y Pwyllgor a’m gwaith archwilio sylfaenol i. |
| Argymhelliad 4: Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy’n ein holynu yn parhau â'r gwaith craffu ar gyfrifon a ddechreuwyd gennym yn y pedwerydd Cynulliad, gan gasglu tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn flynyddol a chan gyrff eraill ar sail gylchol (yn cwmpasu cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, comisiynwyr a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus) gan fyfyrio ar yr ymateb i argymhellion o'n gwaith blaenorol. | Mae hwn yn fater i’r Pwyllgor.<br>Fodd bynnag, credaf bod gwaith craffu y Pwyllgor blaenorol o gyfrifon wedi rhoi proffil defnyddiol i’m gwaith archwilio ariannol, gan ddarparu ar gyfer gwaith craffu defnyddiol o sefydliadau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn fy ngwaith astudiaethau gwerth am arian yn rheolaidd. |

| Argymhelliad yr adroddiad etifeddiaeth | Sylw yr Archwilydd Cyffredinol |
|---|---|
| Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru mewn unrhyw waith craffu ar gyfrifon yn ystod hydref 2016-17 fel cyfle i wneud gwaith dilynol ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Chwefror 2016 ynghylch **Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru**. | Ni wnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ystyried fy adroddiad, ond gwnaeth staff Swyddfa Archwilio Cymru friffio’r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd blaenorol ynghylch ei ganfyddiadau. Gallai’r Pwyllgor drafod cynlluniau ar gyfer gweithgarwch craffu pellach gydag olynydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. |
| Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn cynnwys cyfrifon archwiliedig y BBC fel rhan o'i waith blynyddol i graffu ar gyfrifon, yn dilyn cytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig – Adolygiad Siarter y BBC / Llywodraeth Cymru. | Ar ôl cyhoeddi’r Papur Gwyn am y BBC, mae’n edrych yn debygol mai’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) fydd archwilydd allanol y BBC. Byddai hyn yn ychwanegu archwiliad ariannol o’r cyfrifon i’r trefniadau presennol, y maent yn darparu ar gyfer NAO yn adrodd am faterion sy’n ymwneud â gwerth am arian.<br>Fodd bynnag, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, nid oes gennyf unrhyw bwerau i adolygu cyfrifon y BBC na’i weithgareddau yng Nghymru. Felly, cyfyngir ar y cymorth y mae modd i mi ei roi i unrhyw weithgarwch craffu gan Bwyllgor yn y maes hwn (fel yr adlewyrchir mewn gohebiaeth gyda’r Pwyllgor blaenorol ym mis Mawrth 2014). Efallai y byddai’n briodol i’r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu newydd arwain ar unrhyw waith craffu ar gyfrifon y BBC. |
| Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru yn ystod hydref 2016 ar Wasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn – gan gynnwys: tueddiadau o ran nifer y teithwyr a'r effaith a ddisgwylir pe bai maes awyr Ynys Môn yn cael ei gau dros dro yn ystod 2016; unrhyw ganlyniadau o'r gwaith i archwilio'r cyfleoedd posibl ar gyfer ehangu gweithrediadau ym Maes Awyr Ynys Môn; a chanlyniad caffael gweithredwr hirdymor newydd. | Dylai diweddariad ysgrifenedig pellach gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr hydref 2016 gynnig cyfle i ddatrys rhai o lwybrau ymholi y Pwyllgor blaenorol. |

| Argymhelliad yr adroddiad etifeddiaeth | Sylw yr Archwilydd Cyffredinol |
|---|---|
| Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar weithredu ein hargymhellion ar gyflogau uwch-reolwyr ar ddiwedd 2016 ac yn ystyried unrhyw faterion sy'n codi o gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar y wybodaeth ddiweddaraf am gyfraddau cyflog uwch-reolwyr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. | O ystyried yr oedi a fu gyda'r amserlen er mwyn cyflawni argymhellion y Pwyllgor blaenorol, teilyngir gweithgarwch craffu pellach o'r pwnc hwn gan y Pwyllgor newydd. |
| Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar weithredu'n hargymhellion ac yn trafod unrhyw gynlluniau ar gyfer gwaith craffu pellach ar y pwnc hwn gyda’r Pwyllgor a fydd yn olynu’r Pwyllgor Menter a Busnes. | Nodwyd sawl cam gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i argymhellion y Pwyllgor blaenorol, y byddent yn cael eu cyflawni erbyn yr hydref 2016. Fel yn 2015-16, dylai gweithgarwch i graffu cyllideb Llywodraeth Cymru gynnig cyfle i ystyried rhai o'r materion a nodwyd gan y Pwyllgor blaenorol. |
| Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn parhau i fabwysiadu'r arfer hwn [o gynnal ymchwiliadau a arweinir gan y Pwyllgor] yn ystod y pumed Cynulliad. | Mae hwn yn fater i’r Pwyllgor.<br>Fodd bynnag, rydw i’n hapus i barhau i gynorthwyo’r Pwyllgor gyda’r ymchwiliadau hyn trwy ddarparu sesiynau briffio ffeithiol er mwyn cynorthwyo gweithgarwch craffu. |
| Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn cael sesiwn friffio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ei drydydd adroddiad **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus** er mwyn rhoi llwyfan i waith craffu'r Pwyllgor ar amrywiaeth o faterion yn y pumed Cynulliad. | Gallaf gynnig sesiwn friffio ffurfiol i aelodau’r Pwyllgor ynghylch fy adroddiad **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus**.<br>Yn ogystal, byddaf yn defnyddio negeseuon yr adroddiad hwnnw er mwyn cynorthwyo gyda’r gwaith o ymsefydlu aelodau Cynulliad newydd. |
| Argymhelliad 12. Rydym yn argymell, wrth ystyried yr adroddiad sydd ar y gweill gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y sefyllfa o ran caffael cyhoeddus yng Nghymru, fod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn manteisio ar y cyfle i ailedrych ar yr ymateb i argymhellion ein hadroddiad ym mis Medi 2013 ynghylch **Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori**. | Fel y nodwyd yn Atodiad 1, cyhoeddir yr adroddiad hwn rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017.<br>Er na fydd yr adroddiad ei hun yn cynnwys yr ymateb i argymhellion blaenorol y Pwyllgor ynghylch gwasanaethau ymgynghori mewn ffordd eglur, byddaf yn paratoi deunydd briffio ar wahân ar gyfer y Pwyllgor am y pwnc hwn. |

| Argymhelliad yr adroddiad etifeddiaeth | Sylw yr Archwilydd Cyffredinol |
|---|---|
| Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn parhau i graffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gwella'r gwaith o reoli grantiau, gan ddefnyddio adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru ac ystyried unrhyw dystiolaeth newydd ar reoli grantiau sy'n deillio o waith yr Archwilydd Cyffredinol neu bryderon eraill sy'n cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor. | O ystyried defnydd helaeth Llywodraeth Cymru o gynlluniau grant wedi'u neilltuo, mae'n werth i'r Pwyllgor barhau gydag arfer ei ragflaenydd o gymryd tystiolaeth lafar gan yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch ei adroddiad Rheoli Grantiau blynyddol.<br>Yn ogystal, gallai adroddiadau archwilio yn y dyfodol gynnwys sylw newydd yn cael ei roi i faterion y maent yn berthnasol i drefniadau rheoli grantiau Llywodraeth Cymru. |
| Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried cynnydd o ran cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru cyn dyddiad cau diwygiedig 2020 ar gyfer cydymffurfio yn achos tai cymdeithasol. | Byddaf yn ystyried gwerth ac amseriad rhywfaint o waith archwilio dilynol am y pwnc hwn fel rhan o'm gwaith cynllunio dros y chwe mis nesaf. |
| Argymhelliad 15. Gan ystyried gwaith y bydd Estyn yn bwrw ymlaen ag ef, ac unrhyw gynlluniau ar gyfer gwaith pellach gan yr Archwilydd Cyffredinol, rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ymgysylltu â'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y pumed Cynulliad i benderfynu ar y ffordd orau o wneud gwaith craffu pellach ar faterion ynghylch cyflenwi yn ystod absenoldeb athrawon a'r defnydd o athrawon cyflenwi. | Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud gwaith dilynol ar hwn, ond deallaf y bydd Estyn yn adolygu materion y maent yn ymwneud â chyflenwi i absenoldeb athrawon. |
| Argymhelliad 16. Gan ddefnyddio'r adroddiad sydd ar y gweill gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gadernid ariannol llywodraeth leol yng Nghymru a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiad **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus** yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2015, rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ymgynghori â phwyllgorau perthnasol eraill y Cynulliad Cenedlaethol yn y pumed Cynulliad i gytuno ar waith craffu parhaus ar gydnerthedd ariannol llywodraeth leol sy'n cyd-fynd â chynlluniau ar gyfer craffu ar ddiwygio llywodraeth leol. | Bwriadaf gyhoeddi fy adroddiad dilynol ynghylch cydnerthedd ariannol cynghorau yn ystod yr haf 2016 (Atodiad 1).<br>Rydw i'n fodlon rhoi sesiwn friffio i'r Pwyllgor ar ôl i'r drafft gael ei gyhoeddi. Yna, gall y Pwyllgor benderfynu sut y mae'n dymuno ymgysylltu gyda Phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. |

| Argymhelliad yr adroddiad etifeddiaeth | Sylw yr Archwilydd Cyffredinol |
|---|---|
| Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i'n hargymhellion ar ymateb i ddiwygio lles. | Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud gwaith dilynol ar y pwnc hwn, ond byddwn yn fodlon cynghori’r Pwyllgor am unrhyw faterion sy’n deillio o ddiweddariad ysgrifenedig yn y dyfodol. |
| Argymhelliad 18. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion ein hymchwiliad ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW) os bydd ymchwiliadau yn y dyfodol yn nodi gwendidau tebyg yn nhrefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu a gweinyddu, gwaredu asedau cyhoeddus neu oruchwylio cyrff hyd braich. Rydym yn argymell hefyd bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn craffu ar effeithiolrwydd camau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'n hadroddiad, er mwyn bodloni ei hun a hefyd er mwyn cael sicrwydd ar ran y cyhoedd na fydd y materion yn achos RIFW yn codi eto. | Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cadw llygad agos ar gamau gweithredu parhaus Llywodraeth Cymru wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor blaenorol ynghylch RIFW. Gan bod y rhain yn cynnwys camau cyfreithiol, efallai y bydd cryn amser yn mynd heibio nes bydd modd datrys yr holl faterion.<br>Byddaf yn hysbysu’r Pwyllgor maes o law os byddaf yn nodi unrhyw bryderon yn hyn o beth y maent yn golygu ei bod yn werth i’r Pwyllgor roi sylw pellach iddynt, er enghraifft, os bydd adroddiadau archwilio yn y dyfodol yn nodi gwendidau cyffredinol tebyg ym maes llywodraethu a gweinyddu. |
| Argymhelliad 19. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion ein hymchwiliad ar Westy River Lodge, Llangollen, os bydd ymchwiliadau yn y dyfodol yn nodi gwendidau tebyg yn nhrefniadau Llywodraeth Cymru o ran llywodraethu a gweinyddu. | Roedd yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor yn ymwneud â’r gwersi y byddai modd eu dysgu er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu a gweinyddu Llywodraeth Cymru (ac nid oeddent yn ymwneud â materion yr oeddent yn rhai penodol i achos Gwesty River Lodge).<br>Os bydd adroddiadau archwilio yn y dyfodol yn nodi gwendidau tebyg, byddaf yn dwyn sylw’r Pwyllgor at y rhain. |
| Argymhelliad 20. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy’n ein holynu yn cael diweddariad pellach gan yr Archwilydd Cyffredinol am y newidiadau a wnaed i'r dull archwilio ar gyfer cyrff bach, yn enwedig yng nghyd-destun y gwaith o archwilio cynghorau tref a chymuned, a hynny ar ôl cwblhau archwiliadau 2015-16 ac unrhyw adroddiadau cryno ar y gwaith hwnnw. | Mae’r amserlenni ar gyfer fy archwiliad o gyfrifon cynghorau tref a chymuned yn golygu ei bod yn debygol y bydd yr adroddiad cryno nesaf yn cael ei gyhoeddi yn ystod y gwanwyn 2017. |

| Argymhelliad yr adroddiad etifeddiaeth | Sylw yr Archwilydd Cyffredinol |
|---|---|
| Argymhelliad 21. Rydym yn argymell, yn ogystal â'r diweddariad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i addo ar ganfyddiadau rhaglen monitro a gwerthuso Glastir, fod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad pellach ar ei hymateb i'n hargymhellion blaenorol. Rydym hefyd yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn trafod unrhyw gynlluniau ar gyfer gwaith craffu pellach gyda'r Pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. | Byddwn yn disgwyl y dylai diweddariad pellach gan Lywodraeth Cymru helpu i ddatrys y materion gweddiliol sy'n deillio o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor blaenorol.<br>Fel rhan o'm gwaith cynllunio parhaus, byddaf yn ystyried cyfleoedd i wneud gwaith archwilio yn y dyfodol ac i adrodd yng nghyd-destun y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 newydd. |
| Argymhelliad 22. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried casglu tystiolaeth bellach gan Lywodraeth Cymru a BT yn hydref 2016 ar sail y diweddariad y maent wedi'i addo ynghylch cyflwyno contract Cyflymu Cymru, ac ar ôl trafod gyda'r Archwilydd Cyffredinol ei gynlluniau ar gyfer unrhyw waith dilynol pellach. | Byddwn yn ystyried gwerth ac amseriad unrhyw waith dilynol pellach ar sail y diweddariad a addawyd ynghylch cyflwyno contract Cyflymu Cymru. |
| Argymhelliad 23. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar weithredu'n hargymhellion [mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd]. | Yn y lle cyntaf, bydd angen i'r Pwyllgor ystyried ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor blaenorol a'm cyngor i am yr ymateb hwnnw. |
| Argymhelliad 24. Clywsom dystiolaeth ar 8 Mawrth 2016 gan Lywodraeth Cymru a Cyllid Cymru, ac rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn amlinellu ein canfyddiadau cychwynnol. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn cynnal ymchwiliad manylach i Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru yn gynnar yn y pumed Cynulliad. | O ystyried y gwahanol alwadau eraill ar flaenraglen y Pwyllgor, efallai y bydd budd cyfyngedig mewn gwneud gwaith craffu pellach o'r pwnc hwn. Mae Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru wedi cyflawni'r argymhellion a wnaethpwyd gan eu harchwilwyr mewnol priodol, ac mae'n ymddangos bod y gwersi angenrheidiol oddi wrth fy adroddiad archwilio fy hyn wedi cael eu dysgu. |
| Argymhelliad 25. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried diweddariad arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn gynnar yn y pumed Cynulliad. | Ar hyn o bryd, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn drafftio crynodeb Cymru gyfan, a bydd hwn ar gael yn ystod yr haf hwn. |

| Argymhelliad yr adroddiad etifeddiaeth | Sylw yr Archwilydd Cyffredinol |
|---|---|
| Argymhelliad 26. Gan ystyried unrhyw waith sydd ar y gweill gan yr Archwilydd Cyffredinol a/neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ymgysylltu â'r Pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y pumed Cynulliad i benderfynu ar y ffordd orau o wneud unrhyw waith craffu pellach ar wasanaethau mamolaeth. | Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud gwaith dilynol lleol ffurfiol ar wasanaethau mamolaeth, er y gallai hyn fod yn rhywbeth a gaiff ei gynnwys mewn gwaith blynyddol dilynol. Gallai'r cyswllt a awgrymir gyda'r Pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnwys ystyried gwerth ceisio diweddariad am y cynnydd a sicrhawyd gyda gwasanaethau mamolaeth wrth Lywodraeth Cymru. |
| Argymhelliad 27. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn cael diweddariad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ganfyddiadau ei waith archwilio lleol diweddar ar gontract meddygon ymgynghorol y GIG, a hynny yng nghyd-destun ein hargymhellion blaenorol ar y pwnc hwn. | Ar hyn o bryd, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd trwy'r broses o gwblhau gwaith archwilio lleol y mae wedi ymateb i argymhellion archwilio blaenorol yn y maes hwn. Bwriadaf ysgrifennu at y Pwyllgor gan roi crynodeb o'r prif negeseuon o'r gwaith hwn. Byddai'r cyfathrebu hwn yn barod i'r Pwyllgor ei ystyried pan fydd yn ailymgynnull ar ôl toriad yr haf. |
| Argymhelliad 28. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn cael sesiwn friffio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ei **Adolygiad o Effaith Ymarfer Preifat ar Ddarpariaeth y GIG** er mwyn llywio penderfyniad gan y Pwyllgor hwnnw ar rinweddau unrhyw waith craffu pellach. | Mae'n bosibl y gallai materion yn ymwneud ag ymarfer preifat gael sylw ar lefel uchel law yn llaw ag unrhyw ymchwiliad ynghylch amseroedd aros a gwasanaethau orthopedeg GIG (gweler Argymhelliad 30 isod). Gallai'r Pwyllgor ystyried hefyd a fyddai modd i'r Pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor iechyd a gofal cymdeithasol roi sylw manylach i hyn. |
| Argymhelliad 29. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried unrhyw wersi sy'n deillio o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar effaith Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 ac yn defnyddio'r adroddiad hwnnw i edrych eto yn fwy cyffredinol ar faterion sy'n deillio o'n gwaith blaenorol ar gyllid iechyd. | Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru ar fin cychwyn ar waith i adolygu gweithrediad Deddf Cyllid GIG (Cymru) 2014. Bwriadaf gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ystod chwarter cyntaf 2017 (Atodiad 1). |
| Argymhelliad 30. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried ailedrych ar y materion o amseroedd aros a gwasanaethau orthopedeg ac yn cynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru. | Credaf y byddai'n werth i'r Pwyllgor geisio diweddariad am y sefyllfa ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru a chynnal sesiwn dystiolaeth gyda'r Swyddog Cyfrifyddu yn ystod yr hydref 2016. |

| Argymhelliad yr adroddiad etifeddiaeth | Sylw yr Archwilydd Cyffredinol |
|---|---|
| Argymhelliad 31. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2016 ar gamau i weithredu ein hargymhellion blaenorol ar ofal iechyd parhaus y GIG a'r cynnydd cyffredinol a wnaed i glirio hawliadau ôl-weithredol. | Rydw i a'r Pwyllgor blaenorol wedi adrodd ddwywaith am y pwnc hwn. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn cadw golwg ar y sefyllfa, a byddai gweithgarwch craffu pellach gan y Pwyllgor newydd yn helpu i gau'r cylch o ran y materion yr adroddwyd amdanynt yn flaenorol. |
| Argymhelliad 32. Gan ystyried y gwaith y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud fel rhan o'i raglen o waith archwilio lleol ar draws GIG Cymru, rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn trafod gyda'r Archwilydd Cyffredinol, a chyda'r pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y pumed Cynulliad, y ffordd orau o wneud unrhyw waith craffu pellach ar wasanaethau gofal heb ei drefnu. | Mae gwaith archwilio lleol cyfredol yn archwilio nifer o agweddau cysylltiedig ar ofal heb ei drefnu a llif cleifion, sef trefniadau comisiynu ambiwlans brys, gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau a chynllunio ar gyfer rhyddhau.<br>Bydd y gwaith lleol hwn yn cael ei gwblhau i raddau helaeth erbyn diwedd mis Mawrth 2017, a byddaf yn parhau i ddiweddaru'r Pwyllgor am fy nghynlluniau i adrodd yn gryno yn y meysydd y rhoddir sylw iddynt. |
| Argymhelliad 33. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn monitro cynnydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod y cyfnod o fesurau arbennig, gan gynnwys gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau, ac yn ystyried clywed tystiolaeth lafar bellach gan y Bwrdd Iechyd yn ystod Gwanwyn 2017. | Ar hyn o bryd, bwriadaf wneud gwaith dilynol pellach ar y cyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ynghylch trefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd yn ystod rhan gynnar 2017. Gallai cyhoeddi canfyddiadau'r gwaith hwnnw lywio'r sesiwn dystiolaeth awgrymedig gyda'r Bwrdd Iechyd yn ystod gwanwyn 2017. |
| Argymhelliad 34. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor sy'n ein holynu yn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn ein hadroddiad **Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** ym mis Chwefror 2016, ac yn mynd ar drywydd sut y mae camau cysylltiedig yn cael eu rhoi ar waith yn rheolaidd. | Yn y lle cyntaf, bydd angen i'r Pwyllgor ystyried ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor blaenorol a'm cyngor i am yr ymateb hwnnw.<br>Er bod y materion ehangach y mae'r ymchwiliad blaenorol hwn yn rhoi sylw iddynt yn bwysig, efallai y bydd y Pwyllgor newydd yn dymuno trafod gydag olynydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol unrhyw gynlluniau pellach i wneud gwaith craffu. Yn ogystal, bydd fy adroddiad a gynlluniwyd ynghylch gweithrediad Deddf Cyllid GIG (Cymru) 2014 yn rhoi sylw i rai o'r materion y rhoddwyd sylw iddynt yn yr ymchwiliad blaenorol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllun Blynyddol 2015-16

Gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein blaenoriaethau dros y tair blynedd nesaf



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru



Mae cynnal archwiliad annibynnol o'r defnydd o arian cyhoeddus yn rhan annatod o atebolrwydd democrataidd. Mae angen rhoi gwybodaeth ddigonol i'r cyhoedd am weithgareddau cyrff cyhoeddus a'u defnydd o arian cyhoeddus. Ac mae angen i gyrff cyhoeddus ddeall sut i wella canlyniadau a llwyddo. Mae angen iddynt allu cael gwybodaeth sy'n amserol, yn ddiduedd, yn gywir, yn gynhwysfawr ac yn glir.

Yr wyf fi, yr Archwilydd Cyffredinol, ynghyd â'r staff yn Swyddfa Archwilio Cymru, yn cynnal archwiliadau annibynnol er mwyn canfod a yw arian cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei reoli'n ddoeth a'i gyfrifo'n gywir, ac yn adrodd ar hynny.

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn:

- yn disgrifio nodau ac amcanion ein gwaith;
- yn disgrifio ein blaenoriaethau wrth gyflawni ein swyddogaethau ar gyfer y cyfnod 2015-2016 a hefyd ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2015 a 2018;
- yn rhoi manylion fy rhaglen gynlluniedig o waith archwilio ar gyfer 2015-16;
- yn nodi'r adnoddau sydd ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, ac a allai ddod ar gael iddi, a'r modd y dylid defnyddio'r adnoddau hynny yn ein rhaglenni gwaith; ac
- yn disgrifio sut y byddwn yn mesur ac yn adrodd ar ein perfformiad.

Mae cyrff cyhoeddus ledled Cymru'n wynebu sawl her anodd ar hyn o bryd, ac mae angen canfod ffyrdd newydd a gwell o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau.

Mae'r Cynllun hwn yn lasbrint o'r modd yr ydym yn cynnig blaenoriaethu ac atgyfnerthu ein rhaglenni gwaith yn ystod 2015-16 ac yn ystod y tair blynedd nesaf, fel bo modd iddynt ychwanegu cymaint o werth ag sy'n bosibl, gan gynorthwyo ac annog sector cyhoeddus Cymru i lwyddo.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Rydym wedi ymrwymo i:

- ddarparu gweithwyr hyfedr i'r Archwilydd Cyffredinol allu cyflawni ei raglen waith;
- bod yn sefydliad effeithlon sy'n cael ei redeg yn dda, ac ymddangos felly;
- cymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy i bopeth a wnawn a'r modd y'i gwnawn;
- cadw gafael gadarn ar gostau, gan geisio canfod mwy o ffyrdd i effeithlonni a chadw ffioedd archwilio mor isel ag sy'n bosibl (heb aberthu ansawdd na lefel y sicrwydd archwilio annibynnol a roddir);
- datblygu ein gweithlu ymhellach drwy ddiwylliant o ddysgu; a
- bod yn sefydliad y gellir ymddiried ynddo ac yn lle gwych i weithio.

Yn y ddogfen hon, amlinellwn y camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd yn 2015-16 a thros y tair blynedd nesaf er mwyn bodloni'r ymrwymiadau hyn, yn rhan o olwg fwy hirdymor o'r modd y gellir cynyddu effeithiolrwydd archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Wrth greu'r Cynllun, rydym wedi rhoi sylw neilltuol i ystyried pa fath o swyddfa archwilio sydd ei hangen ar Gymru yn bresennol ac yn y dyfodol, sut y gallwn weithio orau â chyrff adolygu allanol eraill a'n rhanddeiliaid allweddol, a sut y gallwn gynnal asesiad effeithiol er mwyn canfod a ydym yn gwneud pethau'n iawn.

Drwy weithredu'r Cynllun yn llwyddiannus, byddwn yn cynorthwyo pobl Cymru i wybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth, ac yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddeall sut i wella.

**Isobel Garner**
Y Cadeirydd, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2016, sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein blaenoriaethau dros y tair blynedd nesaf, wedi cael ei baratoi ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 25(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Fe'i cyflwynir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 26 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn  02920 320 500
E-bost  info@wao.gov.uk

# Cynnwys


Pwy ydym ni 6

Yr hyn yr ydym yn ei wneud 7

Sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru 8

Ein nod a'n hamcanion 10

Ein cynllun ar gyfer cyflawni 11

Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth leol 13

Gwaith archwilio yng nghyrff y GIG 14

Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth ganolog 15

Gwaith archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 16

Cyfnewid arferion da 17

Ymgysylltu a chydweithio 18

Ein trefniadau llywodraethu ac arwain 19

Ein defnydd o adnoddau 20

Mesur ac adrodd ar ein perfformiad 21

Atodiadau 22

1 Siart Drefniadaeth Swyddfa Archwilio Cymru 22

2 Yr heriau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru 24

3 Rhaglenni gwaith ar gyfer 2015-16 26

4 Rolau a chyfrifoldebau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru 32

5 Ein hamcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer 2015-16 34

6 Ein gwariant cymharol 35

7 Mesurau a thargedau perfformiad allweddol 36

# Pwy ydym ni

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru.

2 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian sy'n destun pleidlais flynyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff cyfrannau sylweddol o'r cyllid hwn eu trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i'r GIG ac i lywodraeth leol yng Nghymru.

3 Bwrdd yw Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cyflogi staff â chymwysterau proffesiynol ac sy'n defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifyddu'r sector preifat, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Ar hyn o bryd mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi bron i 250 o aelodau staff.

**Gweler Atodiad 1 - Siart Drefniadaeth Swyddfa Archwilio Cymru**

4 Gyda'i gilydd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad annibynnol er mwyn canfod a yw arian cyhoeddus yng Nghymru'n cael ei reoli'n ddoeth a'i gyfrifo'n briodol.

5 Rydym yn cyflawni ein gwaith yn unol â Chod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol. Ochr yn ochr â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol penodol, ceir pum egwyddor a gydnabyddir yn eang yn sail i'n gwaith archwilio, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y Cod.

## Egwyddorion archwilio

| | |
|---|---|
| 1 | **Ffocws ar y cyhoedd**<br>Cynhelir archwiliad ar ran ac er budd y cyhoedd. Mae gan y cyhoedd fuddiant dilys mewn gwaith archwilio, a dylid eu cynnwys yn ei brosesau. |
| 2 | **Annibynnol**<br>Mae'n rhaid i'r archwiliad fod yn annibynnol, ac ymddangos felly hefyd. Dylai archwilwyr adrodd yn gyhoeddus heb i unrhyw ofn na ffafriaeth ddylanwadu arnynt. |
| 3 | **Cymesur**<br>Mae angen rhoi digon o le i gyrff archwiliedig gyflenwi gwasanaethau o safon. Dylent fod yn destun lefelau craffu digonol, ond nid gormodol. |
| 4 | **Atebol**<br>Ariennir archwilwyr o'r pwrs cyhoeddus, ac maent yn atebol am warchod yr adnoddau a ddarperir iddynt. Mae'n rhaid iddynt weithio mewn modd darbodus, effeithilon ac effeithiol. |
| 5 | **Cynaliadwy**<br>Mae'n rhaid cyflawni gwaith archwilio ar ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol wrth i gyrff archwiliedig wneud penderfyniadau ac adrodd mewn modd integredig. |

# Yr hyn yr ydym yn ei wneud


## Mae archwiliadau'r sector cyhoeddus yn cynnwys rhoi barn ar gyfrifon a hefyd yn trafod materion fel rheoleidd-dra (a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddibenion cymeradwy), priodolrwydd (sut mae busnes cyhoeddus yn cael ei weinyddu) a gwerth am arian

6 Bob blwyddyn, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, gan ddefnyddio adnoddau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn cyflawni rhaglen helaeth ond cymesur o waith archwilio allanol, ochr yn ochr â swyddogaethau eraill penodol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cadw elfen o hyblygrwydd yn ei raglen fel bo modd iddo ymateb yn gyflym ac effeithiol i unrhyw faterion y deuwn ar eu traws drwy ein gwaith archwilio, neu y tynnir ei sylw ato.


7 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i archwilio gwariant cyhoeddus yn berthnasol ar draws gwahanol fathau o gyrff, waeth pwy sy'n cyflenwi'r gwasanaethau.

8 Rydym yn nodi arferion da o'r ystod lawn o waith archwilio a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol, ac yn dosbarthu hyn drwy'r Gyfnewidfa Arfer Da (adnodd am ddim ar y we) a chyfryngau eraill, gan gynnwys seminarau a gweminarau ar gyfer dysgu ar y cyd.


### Agweddau gwerth am arian - darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd




# Sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru




Tudalen y pecyn 99


Derbyniadau'r Dreth Gyngor £1 biliwn
Cyrff llywodraeth leol
Cyrff y GIG
Cyrff eraill llywodraeth ganolog
Contractwyr a derbynwyr grantiau
Archwilio cyfrifon dros 800 o gyrff Llyw. Leol, y GIG a chyrff y Llyw
Archwiliadau ac asesiadau gwella Llyw. Leol ac archwiliadau perfformiad o'r GIG yn lleol
rflenni a hawliadau grant
astudiaethau gwerth am arian
Hawliau helaeth i gael mynediad at wybodaeth er mwyn cyflawni archwiliadau ac astudiaethau
Llif arian
Cwmpas archwilio


# Ein nod a’n hamcanion




9 Ein prif nod yw hysbysu pobl Cymru a chynorthwyo cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo.

10 Mae ein pedwerydd amcan allweddol yn tanategu’r tri amcan cyntaf; er mwyn i’r Archwilydd Cyffredinol gyflenwi gwasanaeth archwilio o ansawdd uchel, mae’n rhaid i Swyddfa Archwilio fod yn sefydliad sy’n cael ei redeg yn dda ac sy’n sicrhau gwerth am arian.

# Ein cynllun ar gyfer cyflawni




11 Mae cyrff cyhoeddus ledled Cymru, a ninnau yn eu plith, yn wynebu sawl her anodd ar hyn o bryd, ac mae angen canfod ffyrdd newydd a gwell o ddylunio a chyflenwi gwasanaethau.

**Gweler Atodiad 2 - Y prif heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru**

12 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru felly'n blaenoriaethu ac yn atgyfnerthu eu rhaglenni gwaith yn ystod 2015-2016 a thros y tair blynedd nesaf. Y nod fydd ychwanegu'r gwerth mwyaf posibl a chynorthwyo ac annog sector cyhoeddus Cymru i lwyddo drwy hynny.

13 Ar y tudalennau canlynol, ceir ein Cynllun lefel uchel er mwyn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu a chyflawni ein nod a'n hamcanion allweddol yn ystod 2015-16 a thros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2015 a 2018. Yn y Cynllun, rhoddir manylion am raglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015-16. Er mwyn cyflawni'r rhaglenni gwaith hyn, bwriedir defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, ac a allai ddod ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â'r amcangyfrif sydd wedi'i gymeradwyo o Incwm a Chostau ar gyfer y Flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2016. Mae'r Cynllun wedi'i rannu'n wyth adran sy'n gyson â'n hamcanion.

14 Yn chwe adran gyntaf y Cynllun trafodir rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r atodiadau y cyfeirir atynt yn yr adrannau hyn yn amlinellu blaenoriaethau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2015-16 wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r tablau yn yr adrannau hyn yn amlinellu meysydd gwella pellach â blaenoriaeth neu waith arall yr ydym yn bwriadu ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf, ochr yn ochr â rhaglen statudol yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio, neu'n rhan o'r rhaglen honno.

15 Mae'r ddwy adran o'r Cynllun sy'n weddill yn trafod rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r tablau yn yr adrannau hyn yn amlinellu blaenoriaethau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015-16 ac ar gyfer y tair blynedd nesaf wrth gyflawni ei swyddogaethau.

16 Er bod prosiectau â blaenoriaeth yn y Cynllun wedi'u rhestru o dan feysydd penodol, mae sawl prosiect yn cyffwrdd ar un neu fwy o'r meysydd hynny. Cefnogir pob prosiect gan unigolyn a enwebir o'n tîm rheoli gweithredol a chynllun prosiect.

# Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth leol

17 Mae rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol yn cynnwys ystod eang o gyrff, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parc cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throsedd a phrif gwnstabliaid, cronfeydd pensiwn llywodraeth leol a chynghorau tref a chymuned. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio cyfrifon, ardystio ffurflenni a hawliadau grant, archwiliadau ac asesiadau gwella ac astudiaethau llywodraeth leol.

**Gweler Atodiad 3 - Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio mewn cyrff llywodraeth leol yn 2015-2016**

18 Mae cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ar hyn o bryd yn wynebu nifer o heriau a risgiau sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiadau mewn cyllid, gwendidau o ran trefniadau llywodraethu, craffu ac adrodd yn gyhoeddus, cynnydd yn y galw am wasanaethau gofal ac addysg, taer angen i lawer o gynghorau wella safonau addysg, a'r disgwyl y ceir cynlluniau sylweddol i ddiwygio ac uno yn y dyfodol.

| Blaenoriaethau dros dair blynedd | Pryd | Arweinydd y Pwyllgor Rheoli |
|---|---|---|
| Sicrhau gwelliant pellach i'n hasesiadau lleol o iechyd ariannol ac o ansawdd cynllunio ariannol a pharhau i roi trosolwg blynyddol o Gymru gyfan | 2015 a phob blwyddyn wedi hynny | Alan Morris<br>Arweinydd Sector, Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Troseddol |
| Integreiddio'n well y gwaith o gynllunio ac adrodd ar ein harchwiliad lleol o gyfrifon a'n gwaith archwilio perfformiad, yn enwedig o ran archwilio effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, a chysoni ein gwaith ymhellach â gwaith cyrff adolygu allanol eraill | 2015-2016 | Alan Morris |
| Paratoi i gyflwyno trefn lle caiff cyfrifon llywodraeth leol eu cau ynghynt, ac am effaith newidiadau i'r gyfundrefn cyllid grant yng Nghymru – newidiadau sy'n deillio o delerau ac amodau newydd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru neu sy'n deillio o'r Credyd Cynhwysol a gyflwynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau | 2015-2016 | Anthony Barrett<br>Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Ariannol |
| Addasu ein fframwaith ar gyfer archwilio cynghorau tref a chymuned er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth mewn adroddiadau ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu | 2016 | Anthony Barrett |
| Archwilio pa mor barod yw cyrff llywodraeth leol ar gyfer diwygio ac uno, a'u cynlluniau ar gyfer hynny | 2016-2018 | Alan Morris |

# Gwaith archwilio yng nghyrff y GIG

19 Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar draws GIG Cymru yn cynnwys pob un o'r saith bwrdd iechyd a'r tair o ymddiriedolaethau'r GIG, yn ogystal â gwaith yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyfrifon blynyddol pob corff o fewn y GIG, ac yn adrodd yn gyhoeddus ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

**Gweler Atodiad 3 - Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio yng nghyrff y GIG yn 2015-16**

20 Ar draws y GIG yng Nghymru (fel yn rhannau eraill o'r DU) rhoddwyd cyhoeddusrwydd mawr i fethiannau ym maes llywodraethu corfforaethol a chlinigol. Mae hyn, ynghyd â phryderon cysylltiedig ynghylch ansawdd a diogelwch cleifion, wedi gostwng hyder y cyhoedd yn y ddarpariaeth gofal iechyd. Yn ogystal â hynny, mae darpariaethau Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn cynnig cyfle gwirioneddol i symud oddi wrth bwysau byrdymor cyllidebau blynyddol a chanolbwyntio yn lle hynny ar gynlluniau cyflenwi cadarn integredig ar gyfer y tymor canolig. Bydd atgyfnerthu'r rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn bryder allweddol i gynllunwyr y GIG yn ystod y trafodaethau parhaus ynghylch ffurf gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol.

| Blaenoriaethau dros dair blynedd | Pryd | Arweinydd y Pwyllgor Rheoli |
|---|---|---|
| Sefydlu Panel Arbenigwyr y GIG, gan gynnwys academyddion a chyrff proffesiynol iechyd, i gynghori ynghylch pob agwedd ar ein rhaglen archwilio iechyd | 2015 | Gillian Body<br>Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Perfformiad |
| Datblygu ymhellach gynnwys ac effaith ein hadroddiadau i gyrff y GIG ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, er mwyn rhoi cefnogaeth well ar gyfer gwella gwasanaethau a gwelliant corfforaethol | 2015 | Gillian Body |
| Cymryd rhan yn llawn er mwyn gweithredu'r protocol newydd ar gyfer nodi ac ymateb i faterion difrifol sy'n amharu ar ddarpariaeth gwasanaeth, ansawdd a diogelwch gofal ac effeithiolrwydd trefniadol ar draws GIG Cymru | 2015 a phob blwyddyn wedi hynny | Mike Usher<br>Arweinydd Sector, Iechyd a Llywodraeth Ganolog |
| Defnyddio gwaith archwilio lleol i gyflwyno darlun cenedlaethol o berfformiad cymharol yng nghyrff y GIG o ran cyllid a gwasanaethau | 2015 a phob blwyddyn wedi hynny | Mike Usher |
| Cyhoeddi adolygiad archwilio o weithrediad cychwynnol cynlluniau cyflenwi integredig tair blynedd y GIG | 2017 | Mike Usher |

# Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth ganolog

21 Mae'r sector llywodraeth ganolog yng Nghymru yn cynnwys ystod amrywiol o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a ariennir ganddi, swyddfeydd comisiynwyr statudol amrywiol, arolygwyr a rheoleiddwyr a Chomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn wahanol i gyrff iechyd a llywodraeth leol, nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad ym mhob corff llywodraeth ganolog. Yn lle hynny, mae'n rhoi barn flynyddol ar eu cyfrifon yn unig.  Mae'r gwaith archwilio perfformiad a gyflawnir o fewn y sector hwn ar hyn o bryd wedi'i gynnwys o fewn ei raglen o astudiaethau gwerth am arian.

**Gweler Atodiad 3 - Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio mewn cyrff llywodraeth ganolog yn 2015-16**

22 Her neilltuol i Lywodraeth Cymru yw gweithredu pwerau ariannol Cymru o fis Ebrill 2018, gan gynnwys creu Awdurdod Refeniw Cymru a swyddogaeth Trysorlys  Mae gwaith paratoi eisoes wedi dechrau ar gyfer y rhaglen gymhleth hon o newidiadau. Bydd effaith canlyniad refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014 ar y berthynas rhwng Cymru a San Steffan, ac ar y setliad datganoli yn creu cyfres wahanol o heriau strategol.

| Blaenoriaethau dros dair blynedd | Pryd | Arweinydd y Pwyllgor Rheoli |
|---|---|---|
| Cyhoeddi adroddiad trosolwg blynyddol ar ganlyniadau gwaith archwilio a gwblhawyd yn sector y llywodraeth ganolog | 2015 a phob blwyddyn wedi hynny | Mike Usher |
| Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, archwilio'r potensial i gynnal rhaglen gylchol o adolygiadau archwilio llywodraethu a pherfformiad ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi | 2015-2016 | Mike Usher |
| Rhoi sylwebaeth archwilio i Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch pa mor barod yr ydynt am y pwerau ariannol a gyflwynir ac ar gynnydd a wneir drwy'r camau cynllunio a gweithredu | 2015-2018 | Mike Usher |
| Gwerthuso a pharatoi am y goblygiadau cyfrifo ac archwilio yn sgil gweithredu pwerau ariannol Cymru, ynghyd â'r ymateb sydd ar ddod gan Lywodraeth y DU i adroddiad 'Silk 2' | 2015-2018 | Mike Usher |

# Gwaith archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

23 Mae'r rhaglen hon o waith archwilio yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, paratoi adroddiadau cryno ar ganfyddiadau gwaith archwilio ar draws amryw o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog ac/neu lywodraeth leol, ac archwiliadau a gynhelir mewn ymateb i faterion sy'n peri pryder i'r cyhoedd ac a nodir drwy ein gwaith archwilio neu a godir gyda'r Archwilydd Cyffredinol. Mae cynnyrch rhan helaeth o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, a phwyllgorau eraill y Cynulliad o bosib.

**Gweler Atodiad 3 - Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio sy'n cael ei gyflawni yn ystod 2015-16 i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

24 Wrth benderfynu ar ei raglen o astudiaethau gwerth am arian, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried barn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac yn ymgynghori yn ehangach â rhanddeiliaid eraill. Ei brif nodau ar gyfer y rhaglen yw darparu ymdriniaeth gynhwysfawr ag amserol â gwariant a risgiau i werth am arian, ymdrin ag ystod eang o faterion sydd o ddiddordeb neu o bryder sylweddol, ac ystyried lles hirdymor pobl Cymru. Rydym yn anelu i gefnogi'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a, lle bo'n berthnasol, pwyllgorau eraill y Cynulliad er mwyn sicrhau bod eu hymholiadau craffu yn cael cymaint o effaith ag sy'n bosibl.

| Blaenoriaethau dros dair blynedd | Pryd | Arweinydd y Pwyllgor Rheoli |
|---|---|---|
| Rhoi trefniadau ar wahân ar waith i atgyfnerthu ein capasiti archwilio fforensig, a sicrhau ymatebion amserol i faterion sy'n destun pryder i'r cyhoedd, heb dynnu oddi ar ein gwaith archwilio statudol | 2015-2016 | Gillian Body |
| Cynyddu effaith ein hadroddiadau cyhoeddus, a'r diddordeb ynddynt, drwy wella dyluniad ein hadroddiadau ac ehangu ein sianelau cyfathrebu | 2015-2017 | Gillian Body |
| Gwella'r gwaith yr ydym yn ei wneud sy'n archwilio systemau cyfan a'r cysylltiadau rhwng darparwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rhyngwyneb rhwng darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn enwedig | 2015-2018 | Gillian Body |
| Cael dealltwriaeth well o ddisgwyliadau a gofynion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, drwy gynnal arolygon ymhlith yr aelodau o'u safbwyntiau ynglŷn â'r gefnogaeth a roddwn i'w gwaith craffu, a gofyn am adborth ar adroddiadau archwilio unigol | 2016-2017 | Gillian Body |
| Codi ymwybyddiaeth ymhlith Pwyllgorau'r Cynulliad ynghylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys cyfrannu at ymsefydlu Aelodau Cynulliad newydd ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn 2016 | 2016-2017 | Huw Vaughan Thomas<br>Yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr |

# Cyfnewid arferion da

25 Rydym wedi cael llwyddiant cynyddol gyda'r dull o gyfnewid gwybodaeth yr ydym wedi'i ddatblygu a'i gymhwyso dros y pum mlynedd diwethaf. Mae ein dull yn cynnwys dau brif faes. Y naill yw darparu adnoddau rhad ac am ddim ar-lein sy'n galluogi'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr gwasanaeth, llunwyr polisi a phenderfynwyr i gael mynediad at wybodaeth fydd yn eu gwneud yn fwy gwybodus. Yn benodol, ein nod yw hyrwyddo rhannu'r wybodaeth hon ar draws ffiniau sefydliadol, daearyddol a rhyngwladol.

26 Y maes gweithgarwch arall yw hwyluso trafodaethau lle rhennir wyneb yn wyneb yr hyn a ddysgwyd yn sgil llwyddiannau a methiannau cymharol. Yn gynyddol, rydym yn anelu i gyflwyno safbwyntiau a phrofiadau arbenigwyr byd-eang i'r trafodaethau hyn.

**Gweler Atodiad 3 - Ein rhaglen o waith arfer da yn 2015-16**

| Blaenoriaethau dros dair blynedd | Pryd | Arweinydd y Pwyllgor Rheoli |
|---|---|---|
| Annog gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy sicrhau o leiaf 50 o addewidion i weithredu o raglen flynyddol o 12 digwyddiad dysgu ar y cyd, a monitro'r broses o roi'r addewidion hynny ar waith | 2015 a phob blwyddyn wedi hynny | Alan Morris |
| Datblygu rhaglenni gwaith arfer da ar heriau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth ariannol strategol a chynllunio ar gyfer y tymor hir | 2015 a phob blwyddyn wedi hynny | Alan Morris |
| Buddsoddi i ddatblygu a chefnogi 'cymunedau buddiant' hunangynhaliol ymhlith cyrff cyhoeddus er mwyn adeiladu ar y momentwm a grëwyd gan ein gweithgarwch arfer da a rhannu dysgu | 2015 a phob blwyddyn wedi hynny | Alan Morris |
| Cynyddu'r gyfran o brosiectau archwilio sy'n cynnwys gweithgarwch ac allbwn arfer da a rhannu dysgu | 2015 a phob blwyddyn wedi hynny | Alan Morris |

# Ymgysylltu a chydweithio

27 Mae’r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltu’n effeithiol a rhanddeiliaid yn sail ar gyfer datblygu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, cynyddu ei berthnasedd hyd yr eithaf ac ymestyn ei gyrhaeddiad a’i effaith. Yn 2015-16 a thros y tair blynedd nesaf, byddwn yn ymroi i gynyddu ymwybyddiaeth o waith yr Archwilydd Cyffredinol, a’r diddordeb yn y gwaith hwnnw, yn enwedig drwy wneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg gwybodaeth, gan gynnwys rhaglenni seiliedig ar y we a’r cyfryngau cymdeithasol.

28 Rydym hefyd wedi ymrwymo i weithio’n agos â’r holl asiantaethau archwilio eraill yn y DU drwy’r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, a chyda’r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru drwy fenter Arolygu Cymru, i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus, ac effaith cyfanswm ein holl waith. Ar adegau, rydym yn cynrychioli Cymru ar y llwyfan archwilio ryngwladol.

29 Gall Swyddfa Archwilio Cymru wneud trefniadau i’r Swyddfa ei hun, neu’r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaethau i rai mathau o gyrff, neu arfer eu swyddogaethau.cFodd bynnag, rydym yn ymwybodol y dylai pob gweithgarwch o’r fath ei ariannu ei hun, ac na ddylid ei gyflawni ar draul ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

**Gweler Atodiad 3 - Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith ar y cyd yn 2015-16**

| Blaenoriaethau dros dair blynedd | Pryd | Arweinydd y Pwyllgor Rheoli |
|---|---|---|
| Rhoi trefniadau ar waith er mwyn gwella'r rheolaeth ar ohebiaeth gan y cyhoedd neu randdeiliaid eraill am faterion sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys darparu ymatebion cyflymach a mwy sylweddol | 2015 | Kevin Thomas<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Gwella ein dealltwriaeth o sectorau a'n perthynas â chyrff archwiliedig ymhellach, er mwyn creu sail well ar gyfer ein rhaglen waith a chyfrannu at ddatblygiadau a gwelliannau ar draws y sector cyhoeddus | 2015 a phob blwyddyn wedi hynny | Huw Vaughan Thomas |
| Ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn asesu ein perfformiad a mesur effaith ein gwaith a'n llwyddiant | 2015 a phob blwyddyn wedi hynny | Huw Vaughan Thomas |
| Annog ystod ehangach o gyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus i gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, ac ehangu'r wybodaeth a ddefnyddir yn yr ymarfer paru data | 2015-2016 | Anthony Barrett |
| Gwella ymhellach effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd archwilio, arolygu a rheoleiddio yng Nghymru drwy weithio gyda chyrff adolygu allanol eraill i symleiddio ein hadolygiadau ac atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu cudd-wybodaeth ac adnoddau | 2015-2018 | Huw Vaughan Thomas |

# Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

30 Fel y rhagnodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, rydym bellach yn y sefyllfa unigryw o gael, nid yn unig aelodau anweithredol a gweithredol ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, ond aelodau etholedig sy'n gyflogeion hefyd i roi mewnwelediad a phrofiad o safbwynt ychwanegol. Mae ein trefniadau llywodraethu newydd yn rhoi cyfle gwirioneddol i ni sicrhau datblygiad a chynnydd pellach fel busnes.

**Gweler Atodiad 4 - Rolau a chyfrifoldebau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**

31 Prif agweddau ar raglen waith Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015-16 ac yn ystod y tair blynedd nesaf fydd:

- a sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu newydd wedi'u hymwreiddio yn y sefydliad, gydag arweinyddiaeth gref ac atebol;
- b darparu'r adnoddau y mae ar yr Archwilydd Cyffredinol eu hangen er mwyn cyflawni ei waith;
- c sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad a reolir yn dda ac sydd yn effeithlon; a
- ch monitro cyflawniad y Cynllun hwn.

32 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hefyd strwythur uwch reoli. Pwrpas y strwythur hwnnw yw darparu llinellau adrodd ac atebolrwydd clir, a galluogi'r Archwilydd Cyffredinol, drwy ei waith, i hysbysu'r cyhoedd a dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol.

| Blaenoriaethau dros dair blynedd | Pryd | Arweinydd y Pwyllgor Rheoli |
|---|---|---|
| Atgyfnerthu ein strategaeth ar gyfer y gweithlu er mwyn ateb y galw cyfredol a sicrhau ein bod yn gallu rhagweld ac ymateb i ddatblygiadau cyfreithiol, amgylcheddol a phroffesiynol yn y dyfodol, gan gynnwys drwy gynllunio olyniaeth yn effeithiol | 2015-2016 | Steve O 'Donoghue<br>Cyfarwyddwr Cyllid |
| Atgyfnerthu'r gallu i arwain, gan gynnwys drwy ddefnyddio adolygiadau cylch cyfan o berfformiad aelodau uwch o staff a chefnogi adolygiadau o effeithiolrwydd y Bwrdd | 2015-2018 | Huw Vaughan Thomas |
| Monitro esblygiad ein trefniadau llywodraethu unigryw, gyda golwg ar rannu gwybodaeth, profiad a'r hyn yr ydym yn ei ddysgu | 2015-2018 | Huw Vaughan Thomas |
| Gwneud defnydd mwy effeithiol o feincnodau a chymariaethau allanol er mwyn asesu ein perfformiad a mesur ein llwyddiant a'n heffaith | 2015-2018 | Kevin Thomas |

# Ein defnydd o adnoddau

33 Yn 2015-16 a thros y tair blynedd nesaf, byddwn yn adeiladu ar y berthynas waith effeithiol sydd eisoes yn bodoli rhyngom â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar ein defnydd o adnoddau, gan gynnwys ystyried ein hamcangyfrif, ein cynllun ffioedd, ein cynllun blynyddol, ein hadroddiad interim a'n hadroddiad a'n cyfrifon blynyddol.

**Gweler Atodiad 5 - Ein hamcangyfrif o incwm a gwariant 2015-16**

34 Ers sawl blwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y modd yr ydym yn rhedeg ein busnes, ac yn y modd yr ydym yn darparu adnoddau ar gyfer gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol. Ystyr datblygu cynaliadwy yw bodloni anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwythau. Bydd yn ofynnol i ni wneud cynnydd pellach yn y maes hwn, yn sgil ymrwymiadau Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir ym Mil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

35 Daw tua deuparth o gyllid Swyddfa Archwilio Cymru o ffioedd a godir gan gyrff archwiliedig yn unol â chynllun ffioedd a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ym mis Tachwedd 2014, argymhellodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad y dylid diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn rhoi eglurhad pellach o'r gofynion ar gyfer codi ffioedd archwilio. Yn y cyfamser, byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod gennym gyd-ddealltwriaeth â chyrff archwiliedig ynglŷn â'r gofynion.

36 Cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru yw'r rhan fwyaf o weddill y cyllid sydd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mewn cyfnod lle ceir cyfyngu mawr ar arian, mae effeithlonrwydd o ran cost yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac rydym wedi lansio rhaglen effeithlonrwydd ac effeithiolrywdd i gefnogi hyn ar draws y busnes.

**Gweler Atodiad 6 - Ein gwariant cymharol**

| Blaenoriaethau dros dair blynedd | Pryd | Arweinydd y Pwyllgor Rheoli |
|---|---|---|
| Gwneud gwell defnydd o dechnoleg a rheolaeth ar wybodaeth er mwyn rhesymoli a symleiddio ein systemau a'n prosesau busnes, drwy weithredu cynllun TGCh tair blynedd treigl | 2015-2018 | Kevin Thomas |
| Gwneud trefniadau pellach i sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel lle cydnabyddedig i gyfrifwyr ar draws y sector cyhoeddus gael hyfforddiant | 2015-2017 | Anthony Barrett |
| Cadw gafael gadarn ar gostau, ceisio sicrhau mwy o effeithlonni a chadw ffioedd mor isel ag sy'n bosibl | 2015-2018 | Steve O'Donoghue |
| Gwneud gwell defnydd o'n hasedau ffisegol a gwybodaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion | 2015-2018 | Kevin Thomas |
| Dangos ein cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol drwy ein gwaith i:<br>• wella stiwardiaeth amgylcheddol;<br>• hyrwyddo ffordd iach o fyw a chydbwysedd bywyd-gwaith da ymhlith ein staff;<br>• hyrwyddo cyfle cyfartal, gan ddileu gwahaniaethu a meithrin perthnasoedd da; a<br>• hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chyrraedd safonau newydd y Gymraeg. | 2015-2018 | Kevin Thomas |

# Mesur ac adrodd ar ein perfformiad

37 Yn 2015-16 a thros y tair blynedd nesaf, byddwn yn defnyddio cyfuniad o ddulliau i adrodd a myfyrio ar ein perfformiad a'n risgiau. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau rheolaidd i'n Pwyllgor Rheoli a'n Bwrdd ar y cynnydd a wnaed wrth gyflawni ein blaenoriaethau a chyrraedd ein targedau mesur perfformiad allweddol. Bydd hefyd yn cynnwys adroddiadau archwilio mewnol i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Byddwn yn rhoi pwyslais neilltuol ar werthuso ein cyfeiriad a chyflymder ein gwelliannau, gan gymharu â meincnodau priodol.

38 Byddwn yn adrodd yn allanol ar ein perfformiad drwy ein hadroddiad a'n cyfrifon blynyddol, a'n hadroddiad(au) interim, a thrwy gyflwyno tystiolaeth yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.

39 Mae ein fframwaith o fesurau perfformiad allweddol yn canolbwyntio ar y themâu a'r cwestiynau canlynol ynglŷn â'n gweithgareddau. Datblygwyd ein cyfres o dargedau drwy gyfeirio at lefelau perfformiad cyfredol a meincnodau priodol. Byddwn yn craffu mwy ar y targedau, ac yn eu mireinio ymhellach, yn 2015-16 er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig digon o her ond hefyd yn gyflawnadwy o fewn y terfynau amser penodedig.

## Effaith

I ba raddau y mae ein gwaith yn hysbysu pobl Cymru, yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo, ac yn cael ei werthfawrogi gan ein rhanddeiliaid?

## Cyflawni

A ydym yn cyflawni ein harchwiliadau ar amser, gan fodloni'r safonau ansawdd a phroffesiynol gofynnol?

## Arweinyddiaeth

A yw ein trefniadau llywodraethu ac arwain yn gweithio'n effeithiol?

## Ariannol

Pa mor dda yr ydym ni am reoli ein cyllid a'n hasedau?

## Cymdeithasol

Pa mor dda yr ydym ni am hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb, lles a dysgu?

## Amgylcheddol


Pa mor dda yr ydym ni am reoli ein heffaith ar yr amgylchedd?

## Cyfathrebu

Pa mor dda ydym yr ydym ni am godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'n gwaith ac am annog ymgysylltu â'n gwaith?


**Gweler Atodiad 7 - Mesurau a thargedau perfformiad allweddol**

# Atodiad 1 - Siart Drefniadaeth Swyddfa Archwilio Cymru




Nodiadau:

- Mae'r Arweinwyr Sector hefyd yn cadw portffolio o gyfrifoldebau gweithredol y maent yn gweithredu fel Cyfarwyddwyr ar eu cyfer, ac yn adrodd yn eu cylch wrth yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol perthnasol
- Bydd y Pwyllgor Rheoli a'r Cyfarwyddwyr eraill yn cyfarfod yn rheolaidd fel Tîm Uwch-arweinyddiaeth ehangach
- Cefnogir y Bwrdd a'i Is-Bwyllgorau, a'r Pwyllgor Rheoli, gan Ysgrifennydd Bwrdd



fa
ru
redinol
dwr
Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Ariannol
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Cyfarwyddwr Cyllid
ddwr, iannol 1
Cyfarwyddwr, Archwilio Ariannol 2
Cyfarwyddwr, Archwilio Ariannol 3
Cyfarwyddwr, Archwilio Ariannol 4
au Cyflenwi adau Ariannol 1
Timau Cyflenwi Archwiliadau Ariannol 2
Timau Cyflenwi Archwiliadau Ariannol 3
Timau Cyflenwi Archwiliadau Ariannol 4
Tîm Cyfathrebu
Tîm Gwasanaethau Busnes
Tîm TGCh
Tîm Cynllunio ac Adrodd
Tîm y Gyfraith a Moeseg
Tîm Cyllid
Tîm Adnoddau Dynol


< Yn ôl

# Atodiad 2 - Yr heriau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru

Mae'r tebygolrwydd y bydd llymder yn parhau hyd 2020 a thu hwnt wedi creu storm berffaith braidd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae'r rhai sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu gostyngiadau parhaus i'w cyllidebau blynyddol mewn termau real. Ar yr un pryd, maent yn ceisio bodloni cynnydd yn nisgwyliadau a gofynion y cyhoedd, ac ymdrin ag amrywiaeth o ddiffygion cydnabyddedig mewn gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi amlinellu ei hymrwymiad i osod gofynion pellach ar y sector cyhoeddus yng Nghymru i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, drwy Fil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn gynyddol, bydd angen integreiddio ein hystyriaeth o adnoddau ariannol, a'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi cyfrif am y defnydd ohonynt, ag ystyriaeth o gyfrifoldeb cyrff cyhoeddus i warchod adnoddau dynol a naturiol.

Yn ogystal â hyn, bydd ymatebion Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael cryn effaith ar ffurf gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac ar y cyrff sy'n eu darparu, yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi ei ddatganiad o fwriad ynghylch dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru ar ffurf Papur Gwyn, gan gynnwys cynigion sylweddol ar gyfer diwygio.

Yn ogystal â hyn, bydd gweithredu argymhellion y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, y daeth llawer ohonynt i rym yn sgil Deddf Cymru 2014, yn newid y dull o weithredu'r setliad datganoli yng Nghymru i raddau sylweddol.

**< Yn ôl**

# Atodiad 3 - Rhaglenni gwaith ar gyfer 2015-16

## Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio mewn cyrff llywodraeth leol yn 2015-16

### Archwilio cyfrifon

22 o awdurdodau unedol
3 awdurdod tân ac achub
3 awdurdod parc cenedlaethol
4 comisiynydd heddlu a throseddu
4 prif gwnstabl
8 cronfa bensiwn
Nifer o gyrff llywodraeth leol llai eraill, gan gynnwys cyd-bwyllgorau ac awdurdodau harbwr
Archwiliadau sicrwydd cyfyngedig o dros 740 o gynghorau tref a chymuned

### Ardystio ffurflenni a hawliadau grant

Hyd at 25 o gynlluniau gwerth bron £3 biliwn ac yn cynnwys tua 450 o hawliadau unigol

### Archwiliadau ac asesiadau gwella

22 awdurdod unedol (gan gynnwys chwe asesiad corfforaethol manylach)
3 awdurdod tân ac achub
3 awdurdod parc cenedlaethol

### Astudiaethau llywodraeth leol

Sefyllfa a gwytnwch ariannol
Diogelu - trefniadau llywodraethu
Cyflawni gyda llai - gwasanaethau hamdden
Ymdrin â'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - cynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol
Trefniadau gan gynghorau i ariannu gwasanaethau trydydd sector
Dull strategol cynghorau o gynhyrchu incwm a chodi tâl am wasasnaethau
Effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol lleol.

Bydd rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o archwiliadau ac asesiadau gwella ar gyfer 2015-16 yn canolbwyntio'n benodol ar y themâu canlynol: rheoli ariannol, llywodraethu a rheoli perfformiad, a byddant yn ystyriol o unrhyw uno neu newid sy'n digwydd yn ystod y cyfnod hwn yn sgil y rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol.

< Yn ôl

# Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio yng nghyrff y GIG yn 2015-16

## Archwilio cyfrifon

7 bwrdd iechyd lleol
3 o ymddiriedolaethau'r GIG
Cyfrifon cryno byrddau iechyd lleol
Cyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG

## Gwaith archwilio perfformiad lleol

7 bwrdd iechyd lleol
3 o ymddiriedolaethau'r GIG

## Asesiadau strwythuredig

7 bwrdd iechyd lleol
3 o ymddiriedolaethau'r GIG

## Astudiaethau Iechyd

Rheoli meddyginiaethau yn y sector acíwt
Gwasanaethau Cleifion Allanol: apwyntiadau dilynol
Seilwaith a chapasiti TG
Gwasanaethau radioleg
Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG (astudiaeth ddilynol)
Arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion (astudiaeth ddilynol)
Trefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (astudiaeth ddilynol)

< Yn ôl

# Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio mewn cyrff llywodraeth ganolog yn 2015-16

## Cyfrifon Llywodraeth Cymru

Cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru
Cyfrif ardrethu annomestig
Cyfrif derbyniadau a thaliadau Cronfa Gyfunol Cymru
Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan
Cymeradwyo taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru

## Cyfrifon cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Prif Gyfrifon a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
Cronfa Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

## Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

## Cyfrifon comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr

Comisiynydd Plant Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Estyn
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

## Ardystio ffurflenni a hawliadau grant

Hawliadau gwerth oddeutu £300 miliwn i gronfa strwythurol Ewrop gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a ariennir ganddo

< Yn ôl

# Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio a gyflawnir yn ystod 2015-16 i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo i ddarparu 10 i 12 o adroddiadau a dogfennau eraill i'w hystyried gan y Pwyllgor bob blwyddyn, gan gynnwys adroddiadau astudiaeth llywodraeth leol, lle bo'n berthnasol.

### Astudiaethau gwerth am arian

- Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y seilwaith band eang
- Consortia addysg rhanbarthol
- Llywodraeth Cymru yn caffael Maes Awyr Caerdydd
- Gwasanaethau rheilffordd
- Darlun o'r gwasanaethau cyhoeddus
- Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio
- Rheoli risg llifogydd ac erydiad
- Ymyriad cynnar a newid ymddygiad y cyhoedd
- Ymyriadau gan Lywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol
- Caffael cyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

### Adroddiadau cryno

- Gwasanaethau Orthopedig
- Rheoli meddyginiaethau

### Archwiliadau ymatebol

- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio
- Rhestrau aros y GIG a meddygaeth breifat
- Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru

Mae rhan helaeth o'r gwaith a restrir uchod eisoes ar y gweill, ac adroddir arno yn 2015-16. Fodd bynnag, cedwir rhywfaint o hyblygrwydd i'r rhaglen waith er mwyn ymateb i unrhyw newid o amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau, ac mae'r cynlluniau ar gyfer rhai astudiaethau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Yn fuan yn 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried ac yn ymgynghori ar feysydd pwnc posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian i'w cychwyn yn y dyfodol, ac o bosib i adrodd amdanynt mewn rhai achosion, yn 2015-16. Mae'n bosibl y ceir hefyd gynnyrch ychwanegol yn 2015-16 sy'n deillio o archwiliadau a gynhelir mewn ymateb i faterion sy'n destun pryder i'r cyhoedd, neu o raglenni gwaith archwilio lleol lle ceir materion neu wersi i'w dysgu sy'n berthnasol ar raddfa ehangach.

< Yn ôl

# Ein rhaglen o waith arfer da yn 2015-16

## Seminarau dysgu ar y cyd

- Amseroedd aros y GIG
- Profiad y claf
- Llais y plentyn yn y gwasanaethau cymdeithasol
- Annibyniaeth pobl hŷn
- Ymddiriedaeth yn ystod newid trefniadol mawr
- Gweithgarwch corfforol, hamdden, iechyd a lles
- Ymddiriedolwyr a llywodraethu gweithgarwch trydydd sector
- Band eang, hygyrchedd a chynhwysiant digidol
- Trefniadau llywodraethu cyrff y sector cyhoeddus
- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Buddsoddi i arbed

## Gweminarau dysgu ar y cyd

- Cau cyfrifon ynghynt
- Cynnwys ac ymgysylltu â staff
- Codio data clinigol
- Twyll a llygredd

## Canllawiau arfer da

- Llywodraethu
- Cynnwys ac ymgysylltu â staff

## Hwyluso dysgu ar y cyd a chefnogaeth gymunedol yn allanol

- Ysgol haf Academi Cymru
- Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru
- Gweithio Gyda Nid I - grwpiau cyd-gynhyrchu i ymarferwyr
- Arfer Da Cymru
- Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ceir hyd i fwy o wybodaeth am ein rhaglen o waith arfer da, gan gynnwys ein llyfrgell astudiaethau achos, ar ein gwefan.

< Yn ôl

# Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith ar y cyd yn 2015-16

## Cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig

- Menter Twyll Genedlaethol gydag astudiaethau archwilio eraill y DU
- Rhoi cymorth i Estyn ar gyfer arolygiadau o wasanaethau addysg awdurdod lleol
- Gweithio gydag Estyn i gynnal astudiaethau gwerth am arian o Gonsortia Gwella Addysg Rhanbarthol
- Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r astudiaeth o annibyniaeth pobl hŷn
- Ardystio cyfrifon Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Ewrop (EAGF) a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) yn flynyddol
- Adolygiad dilynol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Gwaith archwilio a gomisiynwyd

- Archwiliadau Colegau Addysg Bellach
- Archwilio hawliadau grant yr UE ar gyfer Prifysgol Morgannwg
- Prif Archwilydd ac archwiliad o gyfrifon Llywodraeth Anguilla
- Rheoli gwastraff a grwpiau meincnodi gwastraff masnach

## Cyfranogi gyda statws arsyllwr ar weithgorau allanol

- Cyngor Partneriaeth Cymru
- Bwrdd Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol
- Grŵp cefnogi a chyfeirio Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
- Bwrdd Gweithredu Trysorlys Llywodraeth Cymru
- Fforwm Treth Cymru y Gweinidog Cyllid
- Bwrdd Fframwaith Arolygu Awdurdodau Lleol AGGCC
- Bwrdd Uned Data Llywodraeth Leol
- Bwrdd Prosiect Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub

## Aelodaeth o weithgorau allanol

- EURORAI
- Rhwydwaith Adrodd Integredig Sector Cyhoeddus y Cyngor Adrodd Integredig Rhyngwladol
- Fforwm Archwilio Cyhoeddus
- Bwrdd Cynghori Adroddiadau Ariannol
- Bwrdd Cod Awdurdod Lleol CIPFA/LASAAC
- Pwyllgor Archwilio'r Sector Cyhoeddus ICAEW
- Panel Safonau Archwilio a Chyfrifyddu CIPFA
- Menter Arolygu Cymru
- Grŵp cyswllt arolygiaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Diwygio Budd-dal Tai a Lles y DU
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Panel Ymgynghorol 'Cadw Cyswllt ACEM

< Yn ôl

# Atodiad 4 - Rolau a chyfrifoldebau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

## Bwrdd Swyddfa Archw



David Corner

Aelod anweithredol



Lindsay Foyster

Aelod anweithredol



Peter Price

Aelod anweithredol



Steve Burnett

Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol



Isobel Garner

Cadeirydd anweithredol

**Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am**

Monitro arfer swyddogaethau'r Arch

Rhoi cyngor i'r Archwilydd C

Cyflogi staff a darparu adnoddau i gyflawni swydd

Codi ffioedd am waith a wneir gan yr A

Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, paratoi cynllun blyny

## wilio Cymru



Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Prif Weithredwr



Kevin Thomas

Aelod a benodwyd o blith y staff



Amanda Hughes

Aelod a etholwyd o blith y staff



Louise Fleet


Aelod a etholwyd o blith y staff

**y canlynol:**


hwilydd Cyffredinol
Cyffredinol
ogaethau'r Archwilydd Cyffredinol
Archwilydd Cyffredinol
ddol ac amcangyfrif o incwm a chostau

< Yn ôl

# Atodiad 5 - Ein hamcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer 2015-16




- Ffioedd Archwilio (£14.1 miliwn)
- Ffioedd ardystio grantiau (£2.3 miliwn)
- Grant gwella (£0.9 miliwn)
- Cronfa Gyfunol Cymru (£6.3 miliwn)




- Staffio (£14.8 miliwn)
- Staff contractwyr (£0.9 miliwn)
- Teithio (£1.3 miliwn)
- Cwmnïau archwilio (£2.7 miliwn)
- Costau cynnal eraill (£3.9 miliwn)


Yn 2015-16, bydd £16.8 miliwn o'r cyllid yn cael ei ddarparu i'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei raglen waith, ac mae angen £6.8 miliwn o gyllid i gefnogi rhaglen Swyddfa Archwilio Cymru. £16.8 miliwn yw uchafswm y cyllid sydd ar gael, ac a allai fod ar gael, y rhagwelir y bydd yn cael ei ddyrannu gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflaeni rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol.

Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan am ein hamcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2016

**< Yn ôl**

# Atodiad 6 - Ein gwariant cymharol

Mae ein gwariant yn 2015-16 yn gyfwerth â llai na phumed ran o geiniog ym mhob punt o’r cyllid y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio yn ei gylch yn flynyddol.



< Yn ôl

# Atodiad 7 - Mesurau a thargedau perfformiad allweddol

## Effaith

| Rhif. | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| I1 | Argymhellion a dderbyniwyd | Cyfran yr argymhellion neu'r cynigion ar gyfer gwella sydd wedi'u derbyn yn llwyr i'w gweithredu gan gyrff archwiliedig | 90 y cant |
| I2 | Arbedion a nodwyd | Gwerth arbedion posibl a nodwyd drwy ein gwaith | £ 24 miliwn yn ystod 2015-2018 ac o leiaf £6 miliwn yn 2015-16 |
| I3 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn fod yr Archwilydd Cyffredinol yn sylwebydd annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a gwarchod arian ac asedau cyhoeddus | O leiaf 90 y cant |
| I4 | Mewnwelediad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall | O leiaf 80 y cant |
| I5 | Gwelliant | Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn fod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus | O leiaf 80 y cant |

## Cyflenwi

| Rhif. | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| D1 | Ar amser | Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd ar amser | 95 y cant |
| D2 | Adroddiadau cenedlaethol | Nifer yr adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd | 14 y flwyddyn |
| D3 | Arfer da | Nifer y cynhyrchion arfer da a gyflawnwyd, gan gynnwys seminarau a gweminarau | 20 y flwyddyn |
| D4 | Ansawdd | Cyfran yr archwiliadau a gyflawnwyd yn unol â'r safonau ansawdd gofynnol | 100 y cant o'r sampl blynyddol |
| D5 | Cymeradwyo Taliadau | Cyfran y ceisiadau i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru a brosesir cyn pen 24 awr ar ôl derbyn yr wybodaeth ofynnol | 100 y cant |

**< Yn ôl**

## Arweinyddiaeth

| Rhif. | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| L1 | Hyder | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd fod ganddynt hyder yn ein gwaith | O leiaf 90 y cant |
| L2 | Ymgysylltu | Cyfran y staff sy'n teimlo eu bod yn deall ac yn ymgysylltu â'r ymagwedd strategol yr ydym wedi'i mabwysiadu, fel y nodir yn y Cynllun hwn | O leiaf 80 y cant |
| L3 | Ymddiriedaeth a chymhelliant | Cyfran y staff sy'n teimlo bod eraill yn ymddiried ynddynt i gyflawni eu swydd yn effeithiol, eu bod yn cael eu cydnabod ar ôl gwneud eu gwaith yn dda, ac sy'n teimlo bod eu rheolwr yn eu hysgogi i gyflawni eu swydd yn fwy effeithiol | O leiaf 80 y cant |
| L4 | Gwelliant parhaus | Cyfran y staff sy'n meddwl y byddent yn cael cefnogaeth i roi cynnig ar syniad newydd, hyd yn oed pe na bai'n gweithio, ac sy'n teimlo eu bod yn cael anogaeth i feddwl am ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau | O leiaf 80 y cant |
| L5 | Rheoli perfformiad | Cyfran y staff sy'n cytuno eu bod yn derbyn gwerthusiad teg o'u perfformiad | O leiaf 95 y cant |

## Ariannol

| Rhif. | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| F1 | Incwm | Yr amrywiad rhwng incwm gwirioneddol a'r incwm yn y gyllideb yn unol â'r Amcangyfrif blynyddol cymeradwy | Llai nag un y cant ar ddiwedd y flwyddyn |
| F2 | Gwariant | Yr amrywiad rhwng gwariant gwirioneddol a'r incwm yn y gyllideb yn unol â'r Amcangyfrif blynyddol cymeradwy | Llai na dau y cant o danwariant ar ddiwedd y flwyddyn |
| F3 | Adennill dyledion | Gwerth hen ddyledion dros 60 oed | Llai na £300,000 |
| F4 | Arbedion cost | Gwerth arbedion cost a gynhyrchwyd drwy'r busnes | £760,000 yn 2015-16 (3 y cant o'r gwariant yn y gyllideb) |
| F5 | Effeithlonrwydd yr ystâd | Costau gan gynnwys costau rhent ac ardrethi fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn | Llai na £3,300 yn 2015-16 |

< Yn ôl

# Cymdeithasol

| Rhif. | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| S1 | Absenoldeb oherwydd salwch | Diwrnodiau gwaith cyfartalog a gollwyd bob blwyddyn fesul aelod o staff | Llai na 6.5 diwrnod |
| S2 | Dysgu a datblygu | Cyfran y staff sy'n teimlo eu bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu priodol pan fydd angen | O leiaf 80 y cant |
| S3 | Cynhwysiant a thriniaeth deg | Cyfran y staff sy'n teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u trin yn deg a chyda pharch, ac sy'n teimlo bod y sefydliad yn parhau gwahaniaethau unigolion | O leiaf 80 y cant |
| S4 | Cydbwysedd gwaith-bywyd | Cyfran y staff sy'n teimlo bod eu llwyth gwaith yn dderbyniol a'u bod yn gallu taro cydbwysedd da rhwng eu bywyd gwaith a'u bywyd preifat | O leiaf 80 y cant |
| S5 | Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg | Y gyfran o'n hallbwn sy'n cydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg | 100 y cant |

# Amgylcheddol

| Rhif. | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| E1 | Rheoli Amgylcheddol | Lefel Achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Groundwork Cymru | Lefel 5 (y lefel uchaf) erbyn 2016-17 a chadw ar Lefel 4 yn 2015-16 |
| E2 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ cyfatebol o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o'r defnydd o drydan yr ydym yn ei brynu, neu a gynhyrchir yn anuniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgareddau | Llai na 530 o dunelli yn 2015-16 |
| E3 | Gwastraff | Cyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd | Llai na 50 o dunelli erbyn 2018 a llai na 60 o dunelli yn 2015-16 |
| E4 | Ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | Y gyfran o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio | 70 y cant erbyn 2018 a 60 y cant yn 2015-16 |
| E5 | Papur | Y defnydd o bapur | Llai na 2,200 o rimiau yn 2015-16 |

< Yn ôl

# Cyfathrebu

| Rhif. | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| C1 | Gwefan | Nifer yr ymweliadau â thudalennau gwe | 750,000 y flwyddyn |
| C2 | Sylw yn y wasg | Y gyfran o erthyglau ynglŷn â'n gwaith a gyhoeddir yn y cyfryngau, ac sydd o safbwynt cadarnhaol neu niwtral | O leiaf 70 y cant |
| C3 | Y cyfryngau cymdeithasol | Sgôr Klout - mesuriad o'n dylanwad yn y cyfryngau cymdeithasol drwy ddadansoddi gweithgarwch ein cyfrif Twitter | Sgôr o 45 allan o 100 yn 2015-16 |
| C4 | Seminarau dysgu ar y cyd | Nifer o fynychwyr yn ein seminarau dysgu ar y cyd | 600 y flwyddyn |
| C5 | Digwyddiadau allanol | Nifer yr achlysuron lle cafodd ein staff wahoddiad i gyflwyno dysgu ym maes archwilio mewn cynadleddau a digwyddiadau a gynhelir yn allanol | 25 y flwyddyn |

**< Yn ôl**